

ECO'r Wyddfa

Merched Medrus yn Mentro

**Ewch i dudalennau 16-17
i ddarllen mwy...**



Blwyddyn gyfan ers i'r byd gael ei droi ben i waered gan Covid-19, ac i'r Cyfnod Clo gychwyn, mae'r Eco wedi mynd i holi pedair o ferched lleol. Mae'r merched medrus yma wedi mentro i fyd busnes, neu wedi llwyddo i dyfu eu busnes, yng nghanol cyfnod mor heriol.



Elin Enfyys

Chwilio am Elin Enfyys

Mae 8 llun o Elin yr arth fach yn gwneud ystumiau gwahanol yn cuddio rhwng straeon rhifyn yma'r Eco. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



Yn y rhifyn hwn:

- Pigion BroWyddfa360 tud 4
 - Apel Cofeb y Chwarelwyr tud 5
 - Elin Nant: Hanesydd Sentimental tud 6
 - Hanes Seindorf Arian Deiniolen tud 14-15
 - Chwilota tud 25
 - O Lanberis i Stamford Bridge tud 32
- a mwy!**





SWYDDOGION A GOHEBWYR

Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

Golygydd Chwaraeon
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Golygydd yr Ifanc
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

Ffotograffwr
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

Trefnydd Ariannol
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug. 01286 674839.

Trefnydd Gwerthiant Post
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug. 01286 674839.

Trefnydd Bwndelu
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

GOHEBWYR PENTREFI

Bethel:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

Brynrefail a Cwm-y-Glo:
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

Caeathro:
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

Deiniolen:
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

Dinorwig:
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

Llanberis:
Eifion Roberts
Sw'n y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

Llanrug:
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

Nant Peris:
Kate Pritchard
01286 675384.
econantperis@hotmail.com

Penisarwaun:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Waunfawr:
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

Panel Golygyddol

Mae yna dîm o olygyddion yn cefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r Eco, sef Beca Brown, Nesta Elliott, Gwenllian Carr, John Pritchard, Bethan Richardson, Mared Roberts a Marged Rhys.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

Wrth i ni baratoi rhifyn mis Ebrill *Eco'r Wyddfa* mae blwyddyn wedi bod ers i Covid-19 boeni'r byd ac i'r Cyfnod Clo cyntaf ddechrau. Mae hi wedi bod yn flwyddyn anghyffredin ac anodd tu hwnt, ac wrth edrych yn ôl, rhaid ystyried pa mor lwcus yw trigolion dyffrynnoedd Peris a Gwyrfai o weithwyr allweddol ymroddedig a gofalgar ein bro.


Hoffem ddolch yn arbennig y mis hwn i holl staff ysgolion yr ardal: Ysgol Bethel, Ysgol Dolbadarn, Ysgol Gwaun Gynfi, Ysgol Llanrug, Ysgol Penisarwaun, Ysgol Waunfawr ac Ysgol Brynrefail. Mae'r plant i gyd wedi dychwelyd yn eu tro i'ch gofal erbyn hyn ar ôl cyfnod hir iawn o ddysgu o bell; diolch yn fawr i'r ysgolion am barhau i ddysgu ac i ofalu am blant yr ardal mewn cyfnod mor heriol.

Mae gweithgareddau cymdeithasol yn dal i fod ar stop oherwydd y cyfyngiadau a hynny i'w weld yn nhudalennau'r rhifyn yma o'r Eco eto. Cofiwch gysylltu â chriw'r Eco os oes gennych chi syniad am stori: ecorwyddfa@gmail.com.

Criw Golygyddol *Eco'r Wyddfa*


Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.
£8 Alan Pritchard, Dolafon
£10 Eluned Jones
£20 Gomer Davies, Tregarth, Bangor
£40 E Bedford, Pant Afon Bach, Llanrug
£10 Mairwen Baylis, Llanberis
£20 Er cof am Sioned Owen, Llanberis



Dyddiadau i'w cofio...

Rhifyn	Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis)	Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis)
Mai	9 Ebrill	23 Ebrill
Mehefin	14 Mai	28 Mai
Gorffennaf	11 Mehefin	25 Mehefin



Yn ystod y misoedd aeth heibio...

- Rhwyfo. Ganol fis Chwefror cyrhaeddodd Frank Rothwell ynys Antigua yn y Caribî, a hynny ar ôl cychwyn fis Rhagfyr y llynedd o Ynysoedd y Caneri. Ef yw'r person hynaf i rwyfo ar ei ben ei hun ar draws yr Iwerydd. Mae'n 70 oed.
- Sabine Mounani. Y ferch gyntaf i ddod yn arweinydd llywodraeth Liechtenstein, y wlad fechan sydd wedi ei gwasgu rhwng y Swistir ac Awstria. A dim ond 40 mlynedd sydd er pan gafodd merched yr hawl i bleidleisio yno.
- laith. Un o uwch swyddogion cwmni Iceland yn cael ei ddiswyddo oherwydd ei sylwadau ffaidd am yr iaith Gymraeg.
- Crempog. Na, nid yr un fwyadwy ar Ddydd Mawrth Ynyd, ond crwban prin sy'n cael ei alw'n 'Grwban Crempog'. Datgelwyd yn ddiweddar fod pump o'r crwbanod hyn wedi eu geni ym mharc Longleat yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Rownd bapur. Roedd George Bailey, sef y person hynaf ym Mhrydain â rownd bapur, yn cysidro ymddeol o'i waith ym mhentref Headcorn, Swydd Caint; ond bellach mae'r 'hogyn papur' sy'n 80 oed, wedi penderfynu parhau ar ôl iddo brynu beic trydan.
- Nawdd a Newyn. Y Llywodraeth Llundainig yn haneru'r nawdd ariannol i wlad Yemen, a hynny yng nghanol rhyfel sy'n bygwth y newyn gwaethaf a welodd y byd yn ôl y Cenhedloedd Unedig. Aelodau o bob plaid wleidyddol yn honni fod y penderfyniad yn debygol o gondemnio rhai miloedd o blant i ddioddefaint a marwolaeth.

Llythyrau

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae Llywodraeth Llundain wedi cyflwyno cais i UNESCO ddynodi ardaloedd chwarelyddol Gwynedd yn Safle Treftadaeth y Byd.

O'r cychwyn, rydym fel mudiad iaith wedi galw ar y cyrrff a oedd yn llunio'r cais i gynnwys amodau clir a chadarn i warchod bywyd cymunedol Cymraeg yr ardaloedd dan sylw a sicrhau rheolaeth gymunedol. Hyd yn oed wedi'r ymgynghoriad, ni roddwyd amodau iaith fel rhan o'r cais. Ni chafwyd unrhyw sicrwydd na fyddai'r cynllun o'i weithredu yn niweidio ein hiaith a'n diwylliant. Nid yw llunwyr y cais wedi dangos parodrwydd i wneud dim mwy na datgan y byddai'r cynllun yn gyfle i

'annog y defnydd o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig mewn busnesau'. Dylai lles a ffyniant y bywyd cymdeithasol Cymraeg fod yn un o amodau hanfodol pob agwedd ar y datblygiadau a fyddai'n deillio o'r cynllun pe bai'n cael ei gymeradwyo gan UNESCO.

Mae twristiaeth wedi troi'n or-dwristiaeth mewn sawl ardal yng Ngwynedd, ac mae astudiaethau academiaidd yn dangos hynny. Yn ddiweddar, mae Cyngor Gwynedd wedi dechrau defnyddio'r term 'twristiaeth anghynaliadwy' sef twristiaeth sydd ar y cyfan yn niweidio i gymuned ac felly'n annerbyniol. Fodd bynnag, mae cyrrff fel Croeso Cymru, yr asiantaeth dwristiaeth genedlaethol, a chwmni

Twristiaeth Gogledd Cymru, yn gwrthod derbyn bod y fath beth â gor-dwristiaeth, heb sôn am gydnabod bod gor-dwristiaeth yn ymledu drwy Wynedd.

Heb amodau iaith llym a rheolaeth gymunedol gadarn, byddai perygl gwirioneddol i'r cynllun droi ardaloedd cyfan yn amgueddfeydd, yn barciau thema diwydiannol twristaidd, yn gyrchfannau gwyliau parhaol. Yn ôl y tueddiadau presennol, byddai'n arwain at gynydd mewn ail gartrefi a thai gwyliau tymor-byr a'r mewnlifiad Saesneg. Canlyniad hynny fyddai gwanychu ymhellach yr iaith a'r diwylliant sydd wedi bod yn rhan annatod o'r gymdeithas ers mil a hanner o flynyddoedd.

Un o brif amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau "Cymru

diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu". Ni fydd modd sicrhau hynny heb i awdurdodau lleol, a'r Llywodraeth ei hun, weithredu ar frys er mwyn atal edwiniad y cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg yn iaith pob dydd. Y mae modd i dwristiaeth ddwyn budd; ond yn amlwg, y mae'r math o dwristiaeth sydd gennym ar hyn o bryd, a'i graddfa, yn gwneud mwy o ddrwg nag o les. Eironi o'r mwyafr fyddai i ymdrech i ofalu am weddillion diwydiant a gyfrannodd gymaint at ffyniant cymunedau Cymraeg gyfrannu, er yn anfwriadol, at eu difodiant.

Yn gywir,

Howard Huws
Cydylydd Ymgyrch Dwristiaeth
Cylch yr Iaith

Annwyl Olygydd,

Diogelwn - cynllun newydd i ddiogelu enwau Cymraeg ar dai

Hoffwn, trwy gyfrwng eich tudalen llythyron, i dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun newydd o'r enw DIOGELWN y mae Cymdeithas yr Iaith wedi'i lansio.

Bwriad y cynllun yw diogelu enwau Cymraeg ar dai er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r syniad sydd wrth wraidd y cynllun yn un syml iawn, ac yn berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n berchen ar dŷ ag enw Cymraeg.

• Os ydych ar fin gwerthu eich tŷ: gallwch ofyn i'ch cyfreithiwr gynnwys cymal penodol yn y cytundeb gwerthu er mwyn atal prynwyr a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.

• Os nad ydych yn bwriadu gwerthu'ch tŷ:

gallwch ddiogelu'r enw trwy lofnodi a chofrestru cytundeb (gyda chymorth eich cyfreithiwr) er mwyn atal prynwyr neu gymynderbynwyr o dan eich Ewyllys chi a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.

Mae'r dogfennau perthnasol (sydd wedi'u paratoi gan ein cyfreithwyr) ar gael ar wefan y Gymdeithas i'w lawrlwytho. Ewch i cymdeithas.cymru/diogelwn (neu gallwch ffonio 01970-624501 a gallwn anfon y dogfennau atoch trwy'r post).

Cofion gorau
Mabli Siriol
Cadeirydd
Cymdeithas yr Iaith

Sumai ddarllenwyr,
Gwilym Bowen Rhys ydw i, cerddor o Fethel. Dwi newydd recordio albym o faledi yn ddiweddar, ac yn y broses o wneud ymchwil ar y caneuon.
Un o'r caneuon ar yr albym ydi 'Hen ffon fy Nain', cân a oedd yn boblogaidd iawn yng Nghymru a thu hwnt am ddegawdau maith (cofia i J Glyn Davies glywed hen forwyr yn ei chanu yn nhafarn yr Old Welsh Harp ar Union St. Lerpwl). Thomas David Thomas (Glan Padarn 1848-1888) oedd awdur y geiriau. Yn ôl yr hanes, roedd T Thomas yn arfer mynd i dŷ ei gyfeillion, Mr a Mrs Joseph Pritchard yn Waun Hywel, Pontrhythallt, i ganu gyda harmoniwm; ond roedd Mary Jones, mam Mrs Pritchard, o'r farn mai offeryn y diafol oedd yr harmoniwm, a buasai hi'n gadael yr ystafell gyda'i ffon gerdded os deuai'r cerddor ar gyfyl y lle. Sgwenodd Thomas y gân er teyrnged iddi hi. Dyfynaf o lyfr 'Canu'r Bobol' gan Huw Williams (Gwasg Gee, 1978) - 'Yn Eco'r Wyddfa, Ionawr 1977, hawlir bod y ffon erbyn heddiw ym meddiant Mrs. Ena Jones, Bod Lfor, Pontrhythallt.'
Be ydi hanes y ffon erbyn heddiw tybed?? Ydi hi dal o gwmpas, ac oes rhywun yn gwybod mwy am gefndir yr awdur?
Mae croeso i chi gysylltu â mi drwy ebost - gbrhys@hotmail.com
Diolch o galon,
Gwilym

- Cyngor Plwyf. Mae Cyngor Plwyf Handforth, a ddaeth i amlygrwydd byd-eang oherwydd ei ffrae gyhoeddus ar-lein, mewn perygl o gael ei ddiddymu a'i gyfuno â Wilmslow mewn cynllun ad-drefnu terfynau.
- Cofgolofn. Mae'r gofgolofn olaf i Franco wedi ei dymchwel yn Sbaen, a hynny ddeugain mlynedd wedi ei chodi ym Melilla.
- Mayonnaise. Mae crwbanoed môr wedi dioddef yn ddifrifol o effeithau llygredd olew. Ond mae amgylcheddwyr

- bellach wedi darganfod fod eu bwydo â mayonnaise yn gymorth i lanhau eu cylla.
- Blodyn y Lloer. Mae'r cactws hynod brin hwn o fforestydd glaw yr Amazon wedi blodeuo ym Mhrydain am y tro cyntaf erioed. Bu'n cael ei feithrin yng ngerddi botaneg Prifysgol Caergrawnt ers chwe mlynedd.
- Elusen. Peldroediwr proffesiynol yn sefydlu elusen i fwydo plant ym Mhrydain. Y prif weinidog (nid yw'n haeddu prif lythrennau) a'i gymar

- yn sefydlu elusen er mwyn addurno eu cartref yn Stryd Downing.
- Bresych a chennin. Gyda bwyta'n iach yn gynyddol ddenu mwy o sylw, dangosodd arolwg diweddar fod un o bob deg oedolyn ym Mhrydain yn methu adnabod bresych, ac un o bob chwech a dim syniad beth oedd cennin.
- Twunnel. Gweithwyr trydan, wrth ail-leoli gwifrau ger Abaty Tyndeyrn yn nyffryn afon Gwy, yn darganfod twunnel yn dyddio'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif.

- Anifeiliaid gwyllt peryglus. Mae dros 4,000 o anifeiliaid peryglus megis llewod a chrocodel yn cael eu cadw dan drwydded ym Mhrydain - cynnydd o 59% ers dechrau'r ganrif.

Dafydd Whiteside Thomas

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa



Pigion Bro Wyddfa 360

Y Llyfr Llafar Cyntaf Erioed a Gwlad y Tylwyth Teg – Dathlu Llyfrau ‘BroWyddfa’ gan Elin Tomos

I dathlu Diwrnod y Llyfr 2021, dyma ambell gyfrol hanesyddol sydd â’u gwreiddiau’n ddwfn yn Nyffryn Peris.

William Jones – T Rowland Hughes (1944)

‘Da ni’n aml yn dathlu diwylliant neilltuol Cymreig y bröydd llechi ac yn ymfalchïo yn y ffyrdd y llwyddodd pentrefi’r chwareli i feithrin ac ysbrydoli rhai o lenorion a beirdd amlycaf y cyfnod modern yng Nghymru. Un gŵr a oedd yn gynnyrch o’r diwylliant a ffynnai yn Nyffryn Peris oedd y bardd a’r nofelydd toreithiog, T Rowland Hughes, fe’i ganed ef yn 20 Stryd Goodman, Llanberis ym 1903.

Er mai ffuglen ydy *William Jones*



ceir ynddi bortread gonest o galedi bywyd yng nghysgod y tomenni llechi ar ddechrau’r ugeinfed ganrif wrth i’r prif gymeriad adael pentref chwarelyddol yng Ngwynedd i chwilio am waith ym mhyllau glo’r de. Dwi ddim yn rhy hoff o’r darlun dilornus o Leusa, gwraig William Jones, darlun sy’n glynu’n dynn – ac yn cyfrannu – at y naratif negyddol a ddatblygodd

yng hylch merched a gwagedd pentrefi’r chwareli. Mae llawer yn gyfarwydd â’r gyfrol mae’n debyg am ei bod yn cynnwys y frawddeg led-enwog ‘Cadw dy blydi chips!’ y tro cyntaf i regi ymddangos mewn llenyddiaeth Gymraeg modern. Mae ganddi le arbennig hefyd yn hanes y deillion yng Nghymru; ym 1963, Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru oedd y sefydliad



Bro Wyddfa 360

cyntaf i recordio llyfrau llafar Cymraeg. Disgrifiwyd yr achlysur fel y datblygiad mwyaf i’r deillion ers i Louis Braille ddyfeisio ei system ysgrifennu, a hynny gan y person a dderbyniodd y llyfr cyntaf. Y llyfrau cyntaf i gael eu recordio oedd *William Jones* ac *O Law i Law* gan T Rowland Hughes, a *Cysgod y Cryman* gan Islwyn Ffowc Ellis. **I ddarllen gweddill yr erthygl ewch i www.browyddfa.360.cymru**

“Does dim ateb cyflym” – rhybudd clir gan yr NSPCC

Mae’r NSPCC yn annog Senedd nesaf Cymru i fynd i’r afael ag effaith ddinistriol y pandemig ar blant ledled Cymru, wrth rybuddio am y gefnogaeth sylweddol sydd ei hangen i helpu cenhedlaeth i adfer ac ailgysylltu.

I lawer o blant, mae’r ansicrwydd a’r gofid o ganlyniad i’r pandemig wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl, ac mae plant eraill wedi teimlo eu bod yn gaeth mewn cartrefi annigol – wedi’u datgysylltu oddi wrth eu rhwydweithiau cymorth arferol.

Mae risgiau wedi cynyddu i blant sy’n byw mewn cartrefi gyda cham-drin domestig, cam-drin rhywiol, camddefnyddio sylweddau, rhieni ag anghenion iechyd meddwl neu anawsterau eraill, a bydd hyn, wedi’i gyfuno â’r garfan o blant ‘agored i niwed newydd’ wedi’u creu gan y pandemig, yn gwaethgu’r straen ar wasanaethau a oedd eisoes yn amlwg cyn y pandemig.

Mae’r NSPCC Cymru yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i ‘Gynllun Gweithredu Diogelwch Ar-lein i Blant’ cadarn, sy’n arwain dull amddiffyn ac atal cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar addysg a hyfforddiant. Mae’n rhybuddio bod yn rhaid i ymyrraeth gynnar i atal cam-drin ar-lein a sicrhau gwasanaethau digonol yn flaenoriaeth polisi allweddol i Lywodraeth nesaf Cymru, gan argymhell ei bod yn archwilio cyfleoedd buddsoddi a chymorth i ddatblygu sector technoleg diogelwch yng Nghymru.

Mae heddluoedd ledled Cymru wedi cofnodi dros 2,600 o droseddau rhyw ar-lein yn erbyn plant ers iddo ddod yn orfodol i heddluoedd gofnodi ‘baner seiber’ – trosedd sy’n ymwneud â’r rhyngwrdd – yn 2015. Ond mae’r NSPCC

yn rhybuddio bod gwir raddfa’r mathau hyn o droseddau yn debygol o fod yn llawer uwch, yn enwedig yn ystod y pandemig, pan fydd plant wedi wynebu mwy o risg o gam-drin ar-lein, wrth dreulio mwy o amser gartref ar ddyfeisiau’r rhyngwrdd ac oddi wrth rwydweithiau cymorth.

Mae’r NSPCC yn galw ar Senedd nesaf Cymru i gamu i’r adwy ac arwain y ffordd wrth atal camdriniaeth ac esgeulustod, gan sicrhau bod plant yn flaenoriaeth ac yn ganolog i’w chynlluniau adfer ar ôl Covid.

Yn ôl Vivienne Laing, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus NSPCC Cymru: “Rydyn ni’n gwybod nad oes ateb cyflym i roi terfyn ar gam-drin ac esgeulustod plant, a dyna pam mae’n rhaid i Senedd nesaf Cymru gymryd safbwynt tymor hir bwriadol os yw am ddod â chymunedau at ei gilydd a llwyddo i oresgyn effaith ddinistriol y pandemig ar blant.

“Mae’r heriau a wynebwyd wedi bod yn wahanol i unrhyw genhedlaeth arall, a bydd gwir raddfa eu heffaith yn dod i’r amlwg yn ystod y misoedd a’r blyneddau a ddod. Mae’n hollbwysig bod Aelodau’r Senedd yn rhoi lle blaenllaw i blant yn eu cynlluniau adfer ac yn sicrhau bod adnoddau llawn ar gael i wasanaethau ateb y galw hwn.

“Mae gan Lywodraeth nesaf Cymru gyfle a dyletswydd enfawr i roi’r gefnogaeth sydd ei hangen ar blant, i gadarnhau dull Cymru-gyfan wrth ddelio â diogelwch ar-lein, ac i dynnu sylw at sut mae ymyrryd ac atal yn gynnar yn bosibl, os bydd pawb ar draws y wlad yn cymryd cyfrifoldeb i gadw plant yn ddiogel rhag niwed.”

Ers Ebrill 2020, mae llinell gymorth yr NSPCC wedi bod yn cael dros 30 o gysylltiadau bob



Llun: Tom Hull

dydd, ar gyfartaledd, gan oedolion ledled y DU sy’n poeni am blant sy’n byw gyda cham-drin domestig, ac mae gwasanaethau arbenigol yng Nghymru wedi dweud bod mwy o bwysau ar y ddarpariaeth sydd eisoes dan straen.

Pe bai Lywodraeth nesaf Cymru yn bwrw ymlaen â’r cynigion hyn, sy’n ffurfio cynlluniau manifesto NSPCC Cymru, byddai gweinidogion ac Aelodau’r Senedd yng Nghymru yn arwain y DU i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan flaenllaw a chanolog o gynlluniau adfer ar ôl Covid yn y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir.

Gall plant gysylltu â Childline bob diwrnod o’r wythnos ar 0800 11 11 rhwng 9.00AM a 3.30AM. Neu gall plant gysylltu drwy childline.org.uk lle gellir gofyn am sgysiau un-i-un rhwng 9.00AM a 10.30PM. Gall unrhyw un sy’n pryderu am les plentyn ffonio llinell gymorth yr NSPCC ar 0808 800 5000 neu ymweld â nspcc.org.uk am gyngor.

Apêl am gynllunwyr ac artistiaid i greu cofeb y chwarelwyr yn Llanberis

Ydych chi'n artist neu'n gerflunydd? Oes gennych chi syniad am gofeb?

Mae bwriad ar droed i greu rhyw fath o adeiladwaith i gofio'r chwarelwyr a'u teuluoedd a fu'n gyfrifol am y diwydiant llechi yn y fro hon. Lle tra gwahanol heddiw fyddai Llanberis a'r dyffryn yma oni bai am y diwydiant chwarelyddol a'i weithwyr. Mae'r chwareli sy'n creithio'r llechweddau ar y naill law a'r llall yn dyst i'r gweithgaredd mawr a fu yma unwaith, ac ar sail y gweithgarwch hwnnw dros nifer o ganrifoedd y crewyd y chwareli a daeth nifer o'r pentrefi presennol yn y dyffryn a thu hwnt i fodolaeth. Bellach 'segur ydyw'r cyn a'r morthwyl mwy,' maen nhw i gyd wedi cau, ac mae nifer y rhai a fu'n gweithio'r llechen las yn prinhau.

Erbyn hyn Dyffryn Peris, a Llanberis yn benodol, ydi un o'r ardaloedd chwarelyddol lle nad oes unrhyw fath o gofeb neu waith celf i gofio'r diwydiant a fu yma. Mae yna

Amgueddfa Genedlaethol i'r diwydiant yn y Gilfach Ddu, ond dim byd gweledol yn y pentref ei hun. Bu mân siarad o dro i dro am wneud rhywbeth ynglŷn â hynny, ond hyd yma gwnaed dim.

Bellach wedi ei sbarduno gan gynnig o rodd ariannol anrhydeddus gan un o feibion alltud y pentref penderfynwyd ei bod hi'n bryd gwneud rhywbeth am hynny. Creu creadigaeth gelfyddydol a fyddai'n dysteb weledol a pharhaol o'r gorffennol diwydiannol yma a greodd gymdeithas unigryw ei natur, Cymraeg ei hiaith a hael a pharod ei chymwynas.

Cyn y medr dim fel hyn ddigwydd bydd angen nifer o bethau, yn eu plith: lleoliad, arian, gweledigaeth artistig a brwdfrydedd, a hynny cofiwch mewn cyfnod na welwyd ei debyg.

Mae'n amserol gyda chwydd-wydr y byd ar yr ardaloedd yma yng Ngwynedd, wrth i UNESCO ystyried creu Ardal Treftadaeth o ardaloedd chwarelyddol gogledd-orllewin Cymru, i gael y

maen i'r wal. Beth amdani?

I ddechrau mae angen cynllun. Oes gennych chi syniadau beth fyddai'n gwneud cerflun, cofeb neu ddarn o waith artistig awyr agored i gofio'r gymdeithas a grewyd yn sgîl y chwareli? Anghofiwch am y swyddi unigol, meddyliwch yn ehangach a chofiwch fod teuluoedd yn ogystal a'r chwarelwyr a'r gweithwyr cysylltiedig yn rhan o'r stori fawr a roddodd fodolaeth i'n cymdeithas ni. Beth hoffech chi ei weld?

Mae'r gwahoddiad yma'n un agored i drigolion y fro neu unrhyw un â chysylltiad â Dyffryn Peris. Anfonwch unrhyw syniadau ar bapur neu'n electronig at Glerc Cyngor Cymuned Llanberis erbyn 10fed Ebrill, 2021 fan bellaf.

Manylion cyswllt - deitomos@btopenworld.com / 01286 871250 / 07831 426649

Dei Tomos

Un funud fach ... BYS YN Y BRIW

“Os nad ydw i'n gwneud camgymeriad, dwi'n gwneud camgymeriad.” “Does dim byd yn bod ar y car heblaw ei fod ar dân.” “Mae Mansell yn amlwg o flaen pawb yn y ras hon, ar wahân i'r ddau sydd o'i flaen.” O'u cyfieithu, dyna dair enghraifft o'r camgymeriadau yr oedd Murray Walker, a fu farw ganol Mawrth yn 97 mlwydd oed, yn enwog amdanynt. Ar hyd ei yrfa hir doedd wybod pa berl a ddeuai o'i enau wrth iddo sylwebu ar rasys ceir a beiciau modur. Bathwyd y term *Murrayisms* am y math o gamgymeriadau doniol a fyddai'n britho sylwebaethau'r darlledwr poblogaidd hwn yr

oedd ei lais yn rhan annatod o bob telediad o rasys Fformiwla 1 dros gyfnod o hanner canrif a mwy. Roedd Murray Walker yn fwy na pharod i chwerthin am ei ben ei hun am y camgymeriadau. Byddai'n egluro mai yng nghanol rhuthr y rasys y byddai'n eu gwneud, a hawdd deall hynny o gofio ei fod yn disgrifio cyffro ceir yn rasio ar gyflymder ymhell dros gan milltir yr awr.

Mae'n bosibl er hynny mai rhywbeth arall a ddaw gyntaf i gof llawer o bobl wrth feddwl amdano. Roedd y gyrrwr Nigel Mansell wedi taro'i ben yn erbyn trawst dur neu goncrid ar ôl un ras arbennig yn Awstria ym 1987. Wrth ei gyfweld ar y teledu

gofynnodd Murray Walker iddo dynnu ei gap er mwyn i'r camera weld y lwmp ar ei ben. Gwnaeth Mansell hynny, ac wrth geisio pwyntio at y lwmp llwyddodd Walker i'w bwnio â blaen ei fys nes bod Mansell druan yn gwingo mewn poen.

Gwingo a wna'r Cristion hefyd pan fydd yr Ysbryd Glân yn rhoi blaen ei fys yn nolur ei bechod. Nid camgymeriad yw hynny wrth gwrs gan mai un o swyddogaethau'r Ysbryd yw argyhoeddi pobl o bechod. A phan yw'r bys dwyfol hwnnw'n datguddio ein methiant i garu Duw ac i ufuddhau i'w orchmynion, gwingo ac anesmwytho a wnawn ninnau, yn gwybod nad oes i ni obaith o guddio nac o'n hamddiffyn ein hunain rhag cyhuddiad cyfiawn Duw.

Mae ynom duedd naturiol i feddwl ein bod ar ochr Duw os

ydym yn credu ynddo. Bron na chredwn ein bod yn gwneud ffafr â Duw trwy wneud hynny. Wedi'r cwbl, onid oes mwy na digon o bobl yn credu nad yw Duw'n bod o gwbl? Ond nid yw credu ym modolaeth Duw'n golygu bod Duw a ninnau o reidrwydd ar delerau cywir. Mewn gwirionedd, nid oes yr un enaid byw yn naturiol yn caru Duw. A phrofiad poenus yw cael ein hargyhoeddi o hynny ac o'r ffaith ein bod yn euog o dorri deddfau'r Brenin Mawr. Ond mor bwysig yw cofio nad er mwyn brifo'r un ohonom y mae'r Ysbryd Glân yn rhoi ei fys yn y briw ac yn dangos ein beiau. Gwna hynny'n hytrach i'n cymell i geisio'r maddeuant sydd ar ein cyfer yn yr Arglwydd Iesu Grist.

A dyma gloi gydag un *Murrayism* bach arall. “Hanes yw hynny. Dwi'n dweud hanes, gan iddo ddigwydd yn y gorffennol.”

John Pritchard



Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seat, Skoda a Porsche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975

01286 673559

Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk



TUDALEN YR IFANC

Elin Nant: Hanesydd Sentimental

Mae Elin Tomos, neu Elin Nant fel mae rhai yn ei hadnabod, yn 24 ac o Nant Peris. Wedi cyfnod o astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae hi bellach nôl adref yn gweithio i Cwmni Da. Yn hanesydd llawrydd, cyhoeddodd Elin ei chyfrol gyntaf yn 2020 am hanes ieuchyd yn ardal Dyffryn Peris. Aeth Tudalen yr Ifanc i'w holi...

Sut brofiad oedd cyhoeddi dy gyfrol gyntaf?

Ofnadwy o gyffrous a dwi dal yn gorfod pinsio'n hun weithia, 'waw, nes i lwyddo i wneud o'. Fydd o wastad allan yna rŵan, 'sa neb am allu cymryd o nôl, dwi 'di 'sgwennu llyfr a dyna'i diwedd hi.

Addasu fy ngwaith *masters* wnes i. O'n i 'di gwneud cyfweiliad ar raglen Aled Hughes ar BBC Radio Cymru ynglŷn â fy ymchwil i. Gwnaeth Gwasg Carreg Gwalch ofyn a oedd gen i ddiddordeb cyhoeddi fy ngwaith. Oedd lot o waith addasu wedyn, newid o fod yn academiaidd i rwbath sy'n ddiffr i ddarllen.

Dwi'n andros o *proud* o'n hun, a dwi ddim yn meddwl bod pobl yn dweud hynny ddigon amdanyn nhw eu hunain.

Pa gyngor byddet ti'n ei roi i berson ifanc sy'n mwynhau hanes?

Dwi'n gwybod pan 'da chi'n astudio TGAU neu Lefel A, mae'r athrawon yn eich annog chi i ddefnyddio ffynonellau cynradd, a 'da chi'n dysgu sut i asesu a'u ddefnyddio nhw. Dwi'n meddwl bod hwnna'n arfer da iawn, achos dyna sut 'da chi'n dod at yr hanes go iawn.

Fy hoff adnodd i ydy gwefan papurau newydd y Llyfrgell

Genedlaethol sydd ar gael am ddim. Fedrwyd chi roi unrhyw eiriau i mewn i chwilio ac mae'n dod fyny efo'r pethau fwyaf rhyfeddol, yn arbennig am ein hardal ni.

Pam defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i drafod hanes?

Dwi'n licio blogio, dwi'n licio 'sgwennu beth bynnag. Dwi'n meddwl y mwya' ma' rywun yn 'sgwennu, a rhoi pethau allan yna, y mwya' ti'n cael sylwadau nôl. Dyna sut 'da chi'n dysgu ac yn datblygu.


Dwi'n rhoi dipyn o ymchwil i fyny ar Twitter achos dwi'n teimlo bod o'n hwb efo'r ymchwil. Achos weithia 'da chi'n astudio rwbath am amser mor hir, ella bod chi'n hitio'r wal a ddim yn ei ffeindio mor ddiffr ag oeddech chi i ddechrau. Ond os dach chi'n rhoi o fyny, a'n cael ymateb da, dach chi'n gweld mae gan bobl ddiddordeb. Mae'n hwb i gario 'mlaen rhywsut.

Pa gyfnod mewn hanes fyddet ti'n dewis mynd nôl iddi?

Oes Fictoria dwi'n meddwl. Hwn ydi fy hoff gyfnod i o safbwynt yr ardal. Fyswn i'n dewis 1870/80au. Dwi'n meddwl bod rhywbeth mor drawiadol am y cyfnod a'r gwisgoedd, y ffordd oedd pobl yn byw a'r bwrlwm fasa yn Nyffryn Peris efo'r diwydiant. 'Sw'n i'n trio osgoi 'chydig o'r afiechydon os fyswn i'n gorfod mynd nôl dwi'n meddwl!

O'r merched ti wedi ymchwilio iddyn nhw, pa un hoffet ti ei chyfarfod a pham?

Dwi'n hollol *obsessed* efo'r merched 'ma dwi'n mynd ar eu hôl. Dwi 'di gwneud gwaith



ar ddynes o Lanberis, Jennie Williams. Fuodd hi'n nyrs yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac mi fuodd hi farw yn Ffrainc yn 1919. Mae ei bywyd yn ddiffr, ei magwraeth yn Llanberis yna'r penderfyniad i fynd i Ffrainc a gwirfoddoli, a'r pethau erchyll mae'n siŵr wnaeth hi eu gweld. Mae hi'n gymeriad dewr yn ei hun.

Dwi 'di gwneud lot o ymchwil mewn i'r bobl oedd yn byw yn fy nghartref i 'fyd. 'Sw'n i'n licio cyfarfod efo'r merched sydd wedi cysgu yn fy 'stafell i. Dwi'n mynd am dro ar hyd yr afon a dwi'n casglu darnau bach o *china*. Oedd pobl oes Fictoria yn 'fly tipio' yn eu gerddi ac yn eu hafonydd. Fasa'n ddiffr gwybod pwy oedd y merched wnaeth daflu'r rhain.

Sut 'nes di fagu diddordeb mewn hanes a diwydiant lleol?

Dwi'n meddwl bod o'n rwbath sydd ynddon ni gyd yn y bröydd llechi. Oedden ni'n mynd ar drip ysgol i'r Amgueddfa Lechi ac o'n i wrth fy modd efo'r tai Fron Haul. Ti'n gallu mynd mewn i dŷ a throir'r cloc yn ôl. Dwi'n siŵr bod hyn wedi bod yn dipyn o sbardun.

Y marc cwestiwn i fi oedd bod cymaint wedi ei 'sgwennu am y chwarelwyr a'r diwydiant gwrywaidd ond bod dim gymaint ar yr elfennau cymdeithasol, y diwylliant a'r merched. Dyna oedd yn bwysig i mi fydd ar eu hôl, a rhoi'r lleisiau nôl i bobl. Dyna ydy holl bwynt hanes i fi. Dwi'n cyfaddef trwy'r amser mod i'n hanesydd sentimental iawn, dwi'n mynd yn *attached* i'r bobl dwi'n sbio arnyn nhw ac yn gweld o fel rhywbeth personol.

Os ti'n cael dy fagu

mewn ardal sydd efo hanes mor gyfoethog mae'n anodd peidio meddwl am y peth!

Be' nesaf?

Yn ystod y cyfnod clo llynedd, oedd pawb yn sôn am *pandemics* a lot yn sbio ar y *Spanish Flu*. 'Nes i ddechrau sbio ar y *Russian Flu*, a wnaeth o daro'n ddrwg yn Nyffryn Peris yn yr 1890au. Wnes i 'sgwennu blog am hynna ond dwi methu datblygu hynny llawer mwy tan mae'r archifau'n ailagor. Fasa'n neis mynd ar ôl hwnna.

Pwy wnaeth dy ysbrydoli?

Oedd gen i ddwy nain, o deuluoedd chwarelyddol yn Rhosgadfan a Waunfawr. Mae'n siŵr fy nwy nain i sydd 'di rhoi'r ysbrydoliaeth 'na o licio hanes. Dwi'n cofio pan oedden nhw'n sôn am fod yn genod bach ac oedd yr Ail Ryfel Byd yn digwydd, o'n i'n licio gwrando ar eu straeon nhw.

Gan Nel Pennant Jones a Gwernan Brooks

Cofiwch ymweld â thudalen Twitter Elin, @ELIntomos ble mae hi'n cyfeirio at ei hamryw o flogiau hanesyddol. Mae ei chyfrol gyntaf, *Y Mae y Lle yn Iach* ar werth nawr.

EWCH I WEFAN BroWyddfa.360.cymru i wrando ar y cyfweiliad yn ei chyfanrwydd.

4 X 4 X 48

Peddiwch â chael eich camarwain gan y pennawd! Na, nid problem fathemategol i'w datrys neu gwestiwn hen bapur arholiad fel rhan o addysgu gartref sydd yma – ond sialens gorfforol. Yr her oedd rhedeg 4 milltir bob 4 awr a hynny am gyfnod o 48 awr!

Penderfynodd pedwar o lanciau heini o ardal Eco'r Wyddfa wynebu'r sialens a mynd amdani, gan gychwyn am wyth yr hwyr ar nos Wener 5ed Mawrth eleni. Golygai hyn y byddent yn rhedeg ddydd a nos a chwblhau cyfanswm o 48 milltir. Y lanciau oedd Pedr Jones o Ddeiniolen, Thomas Collins o Lanberis, Aled Williams o Lanrug a Cai Morgan o'r Waunfawr. Penderfynodd y pedwar y byddent yn agor cronfa i gefnogi achos teilwng ar ôl cwblhau'r sialens.

Yr achos teilwng ddewisodd y pedwar



oedd Gafael Llaw. Elusen a gofrestrwyd gan Gomisiwn Elusennol yw Gafael Llaw a sefydlwyd yn 2013 er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc, yn bennaf o Fôn a Gwynedd, sy'n dioddef o gancr. Llwyddodd y pedwar i gwblhau'r sialens ac mae swm sylweddol o arian wedi ei godi eisoes. Ond mae'r gronfa yn parhau yn agored rhag ofn mai dyma'r tro

cyntaf i rai o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa fod yn ymwybodol o lwyddiant y pedwar ffrind ac yn dymuno cyfrannu. Gellir gwneud y cyfraniadau drwy dudalen GoFundMe gofund.me/e999595d
Gobeithir cyhoeddi'r swm terfynol yn rhifyn nesaf Eco'r Wyddfa. Llongyfarchiadau i'r pedwar!

Ydi Cyngor Gwynedd yn cynnig 'Gwasanaethau Teg i Bawb'?

“Dw i'n methu clywed ddigon da i ffonio Galw Gwynedd, a ddim digon hyderus i ddefnyddio gwefan y Cyngor”.
“Mae'r bin a'r cart gylchu yn rhy drwm i mi fedru ei symud ar fy mhen fy hun”.

Ydi hyn yn canu cloch i chi? Oes yna rwystrau yn eich ffordd chi rhag gallu cael mynediad at holl wasanaethau Cyngor Gwynedd? Ydych chi'n cael eich trin yn deg wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor?

Mae'r Cyngor eisiau clywed am brofiadau personol pobl Gwynedd er mwyn gweld sut mae gwella'r gwasanaethau. Yn ogystal, Cyngor Gwynedd ydi un o gyflogwyr mwyaf y sir, gydag oddeutu 7,000 yn gweithio i'r sefydliad at ei gilydd. Mae'r Cyngor eisiau gwneud yn siŵr fod y gweithlu yn adlewyrchu'r boblogaeth leol ac nad oes rhwystrau yn atal amrediad o bobl o bob cefndir rhag dewis ceisio am swyddi.

Fel rhan o'r ymgynghoriad mae'r Cyngor yn gofyn i bobl lenwi holiadur i rannu eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau a cheisio am swyddi efo Cyngor Gwynedd. Gallwch ei gwblhau ar-lein drwy ddilyn www.gwynedd.llyw.cymru/ymgyngghori, neu mae fersiynau papur, print mawr, Braille, ieithoedd eraill ac ati ar gael drwy gysylltu â cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru neu 01766 771000 i drafod eich anghenion.

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 30ain Ebrill felly cofiwch ddweud eich dweud cyn hynny!

DEWCH I DDATHLU

Pecyn adnoddau Addysg Grefyddol newydd, AM DDIM i leoliadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar.

Dewch i ddatthu rhai o brif wyliau crefyddol y byd! Lowrlwythwch y pecyn am ddim o www.meithrin.cymru/dysguadablygu

Dewch i Ddathlu!

DEWCH I DDATHLU / Come and Celebrate

Religious Education resource pack FREE for early years care and education providers.

Celebrate some of the world's religious festivals!

Download the pack free of charge from www.meithrin.cymru/learninganddevelopment

CRISTNOGAETH

HINDWAETH

IDDEDIAETH

BWDHAETH

SIKHAETH

ISLAM

Mudiad Meithrin yn cyhoeddi Adnodd Addysg Grefyddol 'Dewch i Ddathlu!'

Mae Mudiad Meithrin yn cyhoeddi adnodd newydd sydd yn rhoi arweiniad i leoliadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar ar ddathlu gwahanol grefyddau'r byd. Mae Dewch i Ddathlu! yn becyn newydd wedi ei greu gan Helen Roberts sydd yn arbenigo yn y maes ac yn enw cyfarwydd fel athrawes, darlithydd ac ymgynghorydd Addysg Grefyddol. Yn ôl Helen:

“Mae hi wedi bod yn bleser cael cydweithio efo Mudiad Meithrin ar y cynllun hwn. Mae'r Mudiad wedi adnabod bwlch yn y ddarpariaeth, a fy ngobaith yw y bydd yr adnodd hwn yn helpu lleoliadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar i ddathlu gwyliau crefyddol newydd yn hyderus yn ystod y flwyddyn.

“Mae'r adnodd yn rhoi cefndir a manylion chwech o brif grefyddau'r byd. Oddi mewn i'r adnodd ar bob crefydd

mae gwybodaeth gefndirol, syniadau am storïau a chaneuon a gweithgareddau y gellir eu gwneud efo'r plant bach.”
Mae'r adnodd hwn yn elfen arall bwysig o waith y Mudiad wrth ddathlu amrywiaeth a chydaddoldeb, a pharhau â'r neges bwysig fod croeso i bawb yn y Cylch Meithrin a bod y Gymraeg yn berthnasol i bawb. Y chwe crefydd fydd yn sylfaen i'r adnodd yw: Iddewiaeth, Cristnogaeth, Bwdhaeth, Islam, Hindwaeth a Sikhiaeth.
Bydd yr adnodd ar gael i aelodau Mudiad Meithrin, ymarferwyr ac ymgynghorwyr blynyddoedd cynnar drwy wneud cais i www.meithrin.cymru/dysguadablygu
Mae'r adnodd hefyd wedi ei addasu ar gyfer dosbarthiadau meithrin yn cyd-fynd ag egwyddorion y Cwricwlwm Newydd i Gymru.

Clwb Pêl droed Llanrug Unedig

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Emyr Pritchard, Cadeirydd Clwb Pêl droed Llanrug Unedig yn sôn am ei syniad i greu 'siop elusen' ar gyfer Llanrug. Nodwyd fod trefniadau cyffelyb yn y Felinheli, ble mae trigolion yn mynd a hen ddillad neu offer i'r siop ac yna byddai'r siop ar agor ar ddyddiadau penodol. Adroddwyd fod y fenter yn y Felinheli wedi codi oddeutu £20,000 yn y tair blynedd diwethaf. Mantais hyn yw y byddai'n golygu i'r arian gael ei gadw yn y gymuned yn lleol. Nodwyd hefyd y byddai'n gyfle i bob mudiad yn Llanrug ddod at ei gilydd.

Diolchwyd i Mr Pritchard am ei gyflwyniad a chytunwyd y byddai'r Cyngor yn cefnogi'r fenter. Byddai materion ymarferol angen ei datrys sef lleoliad y siop, lleoliad i storio nwyddau, trefnu casgliadau a hysbysu. Wrth gwrs, oddi tan yr amgylchiadau presennol gyda Covid-19, ni fyddai'n bosib gwneud dim ar hyn o bryd ond gellir ail edrych ar y cynllun pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.

Pwyllgor y Fynwent

Adroddwyd fod y gwaith ar gyfer digideiddio cofnodion y fynwent yn parhau a bod y clerc yn disgwyl hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system.

Nodwyd fod y wal sydd yn bochio ar y ffordd i'r fynwent i'w weld ddim gwaeth ar hyn o bryd a'r wybodaeth a dderbyniwyd gan arbenigwr oedd y gall ddisgyn yn y fuan neu gall fod yn iawn am flynyddoedd.

Nodwyd fod trefniadau ar y gweill i deulu osod mainc yn y fynwent er cof am eu hanwyliaid.

Mae'r pwyllgor wedi penderfynu ei nod ac amcanion ar gyfer 2021/2022 fel a ganlyn:

- Parhau gyda'r broses o drafod trosglwyddo mynwent yr Eglwys i ofalaeth y Cyngor Cymuned
- Cario allan asesiad risg
- Trwsio'r wal
- Digideiddio manylion y fynwent
- Dal i gystadlu yn gystadleuaeth mynwent y flwyddyn
- Cadw golwg ar faint o ofod sydd yn y fynwent
- Ail edrych ar reolau a ffioedd y fynwent.

Adroddwyd fod y gwaith yn parhau ym mynwent yr Eglwys a bod y criw lleol wedi bod yn brysur. O ran safbwynt y Cyngor Cymuned, nodwyd fod llythyr wedi'i anfon at yr Eglwys yng Nghymru parthed perchnogaeth y tir ond ni allwn symud ymlaen gyda'r trefniadau'r Cyngor oherwydd nad ydym wedi gallu cario allan yr asesiad risg ar y fynwent. Oddi tan yr amgylchiadau presennol, ni ellir rhoi amcangyfrif pryd bydd hyn yn debygol o ddigwydd.

Recordio a / neu ddarlledu byw o angladd o'r fynwent

Adroddwyd fod rhai ymgymerwyr yn cynnig gwasanaeth i recordio angladd yn fyw a'i ddarlledu ar gyfer ffrindiau a theuluoedd sydd yn methu bod yn bresennol yn y fynwent oherwydd y cyfyngiadau presennol drwy ddefnyddio 'drones'. Penderfynwyd peidio caniatáu defnyddio 'drones' yn y fynwent.

Y Pwyllgor Cyllid

Nodwyd fod y pwyllgor wedi ystyried y gyllideb ar gyfer y flwyddyn bresennol ac wedi'i addasu ble roedd angen. Adroddwyd fod y trafferthion i

geisio agor cyfrif gyda Banc HSBC ar gyfer elusen Llanrug Poor House yn parhau ac efallai y byddai o fudd i gysylltu â Banc arall. Adroddwyd fod y Clerc a Chadeirydd y pwyllgor wedi mynychu HSBC unwaith eto i geisio trefnu bancio ar lein. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac i symud ymlaen i gysylltu â Banc Unity Trust ynglyn ag agor cyfrif.

Pwyllgor Hamdden a Mwynderau

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad blynyddol ac i anfon holiadur cymunedol allan gyda'r adroddiad.

Ymysg yr eitemau i'w gynnwys yn y newyddlen oedd

- Gwaith mae'r Cyngor wedi'i wneud yn ystod y pandemig sef cinio dydd Sul, cynllun ffrind, *gel* dwylo, ayyb
- Cystadleuaeth Nadolig
- Casglu barn y cyhoedd, megis materion traffig lleol
- Mwy o'r cyhoedd wedi gallu ymuno a'r cyfarfodydd a cheisio adeiladu ar hyn
- Gwaith ar y caeau chwarae i sicrhau eu bod yn ddiogel
- Creu tudalen Facebook – ar hyn o bryd mae tua 500 o ddilynwyr
- Campfa awyr-agored Cwm-y-Glo
- Adroddwyd fod nod ac amcanion y pwyllgor ar gyfer 2021/2022 yn seiliedig ar gynllun o gadw'n iach a hybu iechyd corfforol a meddyliodd.

Symud ymlaen gyda'r cynlluniau i newid trefniadau ar gyfer goleuadau Nadolig fel bod mwy o oleuadau ar hyd Llanrug. Yn bresennol roedd dau o gynrychiolwyr o gwmni 'Blachere' i roi sylwadau/barn ar drefniadau goleuadau Nadolig ar gyfer 2021.

- Symud ymlaen a champfa tu allan i Cwm-y-Glo
- Ail edrych ar logo'r cyngor
- Taclo materion parcio
- Cael Diffibriliwr i Ceunant
- Cynyddu i nifer o finiau yn Llanrug a Cwm-y-Glo.

Etholwyd y Cyngorydd Dylan Jones fel aelod ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau

Cynllun Fairshare

Adroddwyd fod y cynllun yn rhedeg yn dda gyda threfniadau wedi'u gwneud gyda phawb sy'n cynorthwyo i gasglu'r bwyd a'i ddosbarthu. Mae pawb efo'i nifer penodol o dderbynwyr. Nodwyd byddai'n fanteisiol ceisio targedu mwy o bobl yn enwedig y rhai sydd wedi colli gwaith neu fod eu horiau wedi lleihau, ac o'r herwydd, fod hyn wedi effeithio ar eu hincwm.

Adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd

Cwmni Byw'n Iach

Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithio hefo'r Awdurdod Iechyd er mwyn darparu neuaddau Hamdden i'r Bwrdd ddefnyddio er mwyn helpu hefo'r brechu.

Cyfarfod Cabinet cyn y Nadolig

Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru - Penderfynodd y Cabinet i gefnogi'r syniad, Sir Conwy fydd yn lletya'r fenter, yn dilyn proses gystadleuol. Bydd y 6 sir Gogledd Cymru, Y Bwrdd Iechyd, a'r Cymdeithasau Tai

hefyd yn rhan o'r bartneriaeth. Mae mwy o wybodaeth a chynllun busnes llawn ar safle we'r Cyngor.

Trafodwyd yr ymgynghoriad ar gyfer creu Cyd Bwyllgor Corfforedig dros Ogledd Cymru. Mae hwn i weld yn mynd a'r penderfyniadau yn bellach oddi wrth y bobol. Os caiff ei sefydlu, bydd yn delio hefo Trafnidiaeth, Cynllunio Strategol, Trefniadaeth Addysg a Datblygu'r Economi. Tipyn o fygythiadau o dynnu pwerau oddi ar Lywodraeth Leol.

County Lines

Yn dilyn cwrs gwybodaeth gan yr heddlu, roedd yn amlygu sut mae County Lines yn gweithio yng ngogledd Cymru, ac mor bwysig ydi rhoi gwybodaeth i'r heddlu, fel ceir diarth wedi eu parcio mewn llefydd ar yr un amser o'r wythnos, pobol yn sefyllian ar gornel stryd neu du allan i ysgolion. Mae'n bwysig pasio'r wybodaeth ymlaen – y ffordd orau i wneud yw defnyddio "chat" ar wefan yr Heddlu.

Goryrru allt Ceunant

Trafodaeth yn mynd ymlaen gyda'r Awdurdod am y lle gorau i ail-leoli'r arwydd 30mya sydd ar hyn o bryd ar y gornel hanner ffordd i lawr yr allt.

Trefniadau goleuadau ar gyfer Nadolig 2021

Adroddwyd fod trefniadau ar y gweill i newid y drefn goleuadau Nadolig 2021. Y bwriad yw cael un cwmni i'w gosod, eu cynnal a chadw a'u casglu wedyn. Mae'r pwyllgor hamdden wedi cael sawl cyfarfod gyda chwmni sydd yn arbenigo yn y math o weithgareddau ar gyfer cyngorau tref a chymuned a bod trafodaethau ar y gweill gyda Chyngor Gwynedd i allu gosod cyfarpar ar lampau.

Gofynnir i'r cyngor gymeradwyo cyllideb ar gyfer 2021. Bydd costau cychwynnol ar y cynllun i osod strwythurau ar y lampau ond dim ond costau bydd y costau yma. Nodwyd yn ogystal bydd y Cyngor yn cysylltu â busnesau ac unigolion i holi pe bai rhywun yn hoffi cyfrannu neu noddi addurniad.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a chymeradwywyd cyllideb gychwynnol o £5,500.

Cwynion yn ymwneud â llwybrau cyhoeddus

Adroddwyd fod cwyn wedi'i derbyn am gyflwr llwybr yn rhedeg o gyfeiriad yr Eglwys hyd at Barc Carafanau Tyn y Coed.

Penderfynwyd cyfeirio'r mater tuag at Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd

Ceisiadau am gymorth ariannol

Penderfynwyd rhoi Cymorth Ariannol fel a ganlyn:

Eco'r Wyddfa - £800

Y Sefydliad Coffa - £2500

Praesept ar gyfer 2021/2022

Penderfynwyd mai: Praesept ar gyfer 2021/2022 fydd £60,000

Ceisiadau Cynllunio

Penderfynwyd cefnogi'r cais i ddymchwel garej ac adeiladu estyniad i'r ty yn Tan Rhiw, Cwm-y-Glo, ond yn mynegi pryder am y datblygiad yn y dyfodol pe bai ddim yn cael ei ddefnyddio fel y bwriad ar y cais cynllunio.

Roedd dim gwrthwynebiad i gais i ail-leoli adeilad amaethyddol yn Pen Y Buarth, Lôn Groes, Llanrug ar gyfer cadw da byw a wrthodwyd o dan gais cynt ac ar apêl.

Cefnogwyd cais am estyniad deulawr ar dalcen gorllewinol y tŷ yn Tyddyn Alys, Cwm-y-Glo

Cofnodion cyfarfod mis Chwefror 2021:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor ar Zoom (diolch i HLJ am drefnu) nos Fercher 10fed o Chwefror, 2021, am 7pm

Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd

1 Presennol ac Ymddiheuriadau:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris
Jones, Kim Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ymddiheuriadau: Olwen Gwilym.
Ward Peris: Llinos Haf Pritchard, Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc)

2 Datgan buddiant: Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

3 Cadarnhau Cofnodion:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher 20fed o Ionawr 2021 fel rhai cywir .

4 Materion yn codi o'r Cofnodion:

- 1. Cynllun Cyfaill: Y gwasanaeth yn dal ar gael.
- 2. Ffordd A4086 a Llifogydd: Dim ymateb oddi wrth Gyngor Gwynedd (CG) ynglŷn â'r gwter sy'n creu llifogydd ger Gardda Bach, Nantperis
ond dechreuwyd gweithio (heddiw) i geisio datrys problemau llifogydd ynghlwm wrth y ffos o Tanbryn ger mynedfa Maes Parcio'r Parc Cenedlaethol.
- 3. Lampau Stryd: Lamp ger Tangadlas, Nantperis wedi ei thrwsio o'r diwedd.
- 4. Coed Nadolig: Cliriwyd y coed i'w hailgylchu.
- 5. Grantiau: Cafwyd llythyrau neu e-byst yn diolch oddi wrth y mwyafrif a dderbyniodd arian.
- 6. Cofeb y Chwarelwyr: Roedd y Clerc wedi paratoi dogfen drafod fer yn cynnig nifer o syniadau ynglŷn â'r cynllun. Cafwyd trafodaeth sylweddol ar leoliad, ffurf a siâp, cynllun, cost a sut i dalu am y gofeb. Roedd unfrydiaeth ynglŷn â'i lleoli lle mae'r bysiau'n troi ger Cae'r Ddôl, ond bydd hynny yn dibynnu ar ganiatâd gan CG i'w lleoli yno ac na fydd yn ymyrryd â diogelwch trafniadaeth. Penderfynwyd rhoi hysbysrwydd

i'r cynllun a gofyn am awgrymiadau, hefyd bwriedir siarad â rhai cynllunwyr a wnaeth waith fel hyn o'r blaen.

7. Cae Chwarae Dôl Elidir: Cafwyd ar ddeall mai yn y cae yma y bydd CG yn gosod offer i'r anabl ac nid yn Cae Gas, Stryd Goodman oherwydd prinder lle addas yn y fan honno.

5 MATERION ERAILL

1. Defaid Crwydrol: Bu trafodaeth am broblem y defaid crwydrol yn dilyn cynydd sylweddol yn y nifer sy'n crwydro pen dwyreiniol y pentref a'r cynydd yn nifer y cwynion. Hefyd gwelwyd lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol o nifer fawr o ddefaid ar y draphont a llwybr Rheilffordd yr Wyddfa. Nodwyd gan nifer o aelodau y mannau tebygol lle 'roedd y defaid yn dod i'r rheilffordd a'r ffyrdd ac addawodd y Clerc wneud ymholiadau pellach i weld a ellir eu hatal. Roedd y bugail wedi casglu a chorlannu nifer o weithiau.

6 GOHEBIAETH:

- 1. Llywodraeth Cymru [Grŵp Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus]: Llythyr yn nodi y bydd modd i Gyngorau Tref a Chymuned wneud penderfyniadau ariannol o bell (h.y. ar Zoom) ar gyfer yr Archwiliad blynyddol. Mae'r nodyn yn gofyn i bob Cyngor lunio ei gyfrifon blynyddol mewn da bryd gan ardystio cyfrifon drafft erbyn 31 Awst 2021a chyhoeddi cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio erbyn 30 Tachwedd 2021.
- 2. Grŵp Datblygu Llanberis: Mewn gohebiaeth gydag ysgrifennydd y Grŵp mynegwyd siom nad oedd y Clerc wedi cysylltu â hi i nodi dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am grant y Cyngor. Roedd y gohebydd yn gresynu nad oedd y Cyngor yn anfon ffurflen a rhybudd i rai oedd wedi derbyn cymorth ariannol yn y gorffennol. Roedd hi yn cydnabod fod y rhybudd wedi ei gyhoeddi ar y wefan a'r hysbysfyrdau, ond nad oedd wedi ei weld yn ddigon buan, mae'n amlwg nad oedd neb arall o'r Grŵp wedi sylwi arno chwaith er i'r rhybudd fod i fyny am gyfnod o tua thair wythnos, o leiaf. Trafodwyd hyn a phenderfynwyd y dylai'r Cyngor bennu dyddiad blynyddol ar gyfer derbyn ceisiadau a thrafod a rhannu arian yn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd ar fis Ionawr. Byddai dyddiad cau o 5ed Ionawr yn rhoi digon o amser cyn cyfarfod y mis hwnnw, a fyddai'r cyfarfod cyntaf pryd bynnag y byddai'r Calan ddim cyn 8fed Ionawr, sef yr ail nos Fercher.

3. Copi o lythyr Cyngor Nefyn at y Gweinidog Tai

Derbyniwyd y llythyr a oedd yn tynnu sylw at broblem ail gartrefi mewn sawl ardal. Cyfeiriodd y Clerc hefyd at e-bost a dderbyniwyd gan Gyngor y Bermo a oedd mewn gwaith ymchwil yn dadlau na ddylid newid deddfwriaeth a threthiant ail gartrefi a thai gwyliau. [Bydd CG yn ystyried trafod hyn yn ddiweddarach yn y mis]

4. Maes Parcio'r Castell - parcio dros-nos:

Wedi peth llythyru gyda Chadw cafwyd gwybodaeth o'r diwedd fod arwydd wedi ei godi erbyn hyn yn y maes parcio bychan ger castell Dolbadarn ym Mhentre Castell sy'n dweud 'Dim Parcio Dros Nos'. Yn yr un llythyr dywed Cadw mai'r llwybr dros y Bont Fain o ffordd y chwarel a maes parcio CG ydi'r llwybr cyhoeddus y mae Cadw yn ei argymhell i ymwelwyr a ddaw i'r castell. Gofynnwyd felly pam na ellid gosod giât wedi ei chloi os nad ydyn nhw yn ffafrio'r llwybr o ffordd A4086.

5. Cyngor Gwynedd - Cau Ffyrdd:

Derbyniwyd tri rhybudd y bydd CG yn cau ffyrdd dros dro yn Llanberis yn y dyfodol agos.

- 15 Chwefror cau rhan o Stryd Goodman, lle mae Strydoedd lanci a Warden yn dod iddi. *D.S. arwyddion ar y ffordd yn dweud 16 Chwefror)
- 23 Mawrth cau rhan o Stryd Goodman, rhwng gwaelod Rallt Goch a'r Stryd Fawr.
- 4 Ebrill cau rhan o Stryd Newton, y pen uchaf cyn iddi ymuno a Stryd Goodman.

6. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri [APCE]:

Cyhoeddwyd gan Bartneriaeth yr Wyddfa 'Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen: Y Camau Nesaf'. Mae'r adroddiad a chrynodeb o'r Ymgynghoriad ar y We. Y ddau i'w cael ar wefan APC: <https://www.snowdonpartnership.co.uk/hafan-1> am yr un llawn ac mae datganiad i'r wasg yn y fan hyn hefyd: <https://www.eryri.llyw.cymru/authority/news-and->

[media/latest-news/2020-press-releases/2020-news-items/consultation-launched-on-sustainable-parking-and-transport-plans-for-snowdonia-national-park](https://www.snowdonpartnership.co.uk/media/latest-news/2020-press-releases/2020-news-items/consultation-launched-on-sustainable-parking-and-transport-plans-for-snowdonia-national-park)

Eglurodd y Clerc y bydd Gweithdy Cymunedol Ar-lein yn cael ei gynnal ar gyfer ardal Llanberis ar nos Fercher 24ain Chwefror rhwng 6.30 a 8.30pm. Bydd angen sicrhau lle trwy gysylltu â www.snowdonpartnership.co.uk/parcioathrafnidiaeth Addawodd y Clerc anfon y cyfeiriadau uchod mewn e-bost i'r aelodau'r diwrnod canlynol.

7 Cynllunio

NP3/15/44G - diwygiad ansylweddol ôl-weithredol i'r garej (Lleoliad, dyluniad a'r trefniant mewnol) - **Pant y Cafn, Llanberis**. (Roedd peth dryswch ynglŷn â'r cais yma.)

C21/0005/15/DT - cais er mwyn codi estyniad unllawr i gefn yr eiddo - **15 Dôl Elidir, Llanberis**. Dim sylw.

8 Llwybrau

Dim pellach i'w adrodd.

9 Y fynwent:

Trafodwyd prisiau'r Fynwent yn Nantperis. Wedi peth trafodaeth, ac ystyriaeth fod prisiau'r Fynwent yma'n llawer is na mynwentydd cyfagos, penderfynwyd rhoi £75 o gynnydd ar bob pris.Cynnig ac eilio IO/TT. Daw'r prisiau newydd i rym ar 1af Ebrill, 2021. (Gofynnodd KMJ am gael cofnodi ei wrthwynebiad).

10 Adroddiadau allanol:

Grŵp Adfywio Llanberis: Cafwyd adroddiad gan y Clerc o gyfarfod diwedddara'r Grŵp a gynhaliwyd yn gynharach yn yr wythnos. Trafodwyd Ymgynghoriad Partneriaeth yr Wyddfa (Gweler 6.6 uchod). Dywedwyd mai go brin y bydd unrhyw ddigwyddiadau torfol mawr eleni megis rasys mynydd oherwydd y pandemig. Nodwyd fod Elen Roberts, cyn Swyddog Addysg yr Amgueddfa Lechi wedi ei phenodi i fod yn gyfrifol amdani am flwyddyn ar ymddeoliad y Dr Dafydd Roberts.

Cydymdeimlad

Gydag arwyddion o'r gwanwyn yn ymddangos, arhosodd oerfel y gaeaf dros y pentref. Mewn cyfnod fu'n frith o golledion, daeth yr 'hen alwad' ar aelwyd Cefn Rhos. Cipiwyd, wedi brwydr ddewr, Jean Vize, gwraig, mam a nain annwyl iawn. Bydd llawer yn cofio cynhesrwydd a sgwrs barod Jean. Parod ei chymwynas, a thinc y Brummie gwreiddiol yn ei llais. Cydymdeimlwn â Bill, Julie, Diane a Christina a'r teulu estynedig yn eu colled.

Y Neuadd Goffa

Mor daclus mae'r tirwedd o gwmpas y Neuadd yn edrych gyda'r wal newydd wedi ei gorffen ac mae wyneb y maes parcio yn gymen iawn. Edrychwn ymlaen yn y dyfodol agos, gobeithio, i weld y drws yn agor a sŵn gweithgaredd. Rwy'n credu bydd gan y Neuadd ran bwysig i chwarae ym mywyd cymdeithasol y pentref. Wedi blwyddyn o ddyddiau dan 'glo' o flaen y sgrin, o sgysiau rhithiol Zoom, ac o sgysiau tectst a Facebook bydd cryn alw am ail-gymdeithasu. Rydym yn brin bellach o lefydd i gyd-gyfarfod. Rydym yn dod yn bobol ddiarth yn ein libart ein hunain. Braffuasai

gweld adfywiad cymdeithasol gyda syniadaeth pentrefwyr yn cynnig gweithgareddau a throi 'mynd i'r neuadd' yn rhywbeth naturiol. Mor braff yn y colofnau hyn fuasai cyhoeddi rhestr gweithgareddau misol.

Llwybr Beics

Erbyn hyn mae'r gwaith wedi dechrau ar greu'r llwybr beicio o Fethel i Gaernarfon. Cafodd y cynllunwyr dywydd braff i ddechrau'r gwaith. Edrychwn ymlaen at gwblhau'r gwaith a diolch i'r Cyng. Sion Jones am ei waith caled yn cefnogi'r fenter. Ein diolch mwyaf iddo bydd gweld y llwybr yn cael llawn ddefnydd, ac ymledu'r freuddwyd werdd sy'n ganolog i'r datblygiadau hyn.

O ran y cerdded, mae nifer wedi cyfeirio mai braff fuasai gweld y palmant o Erw Bian yn ymestyn i'r Gors Bach, gan greu wedyn gylch cerdded braff o Fethel i'r Gors, draw i gyfeiriad Gelli Gyffwrdd ac yna yn ôl i'r pentref ar hyd Lôn Tre Gof. Cyfleus iawn i rai yn gwrthio coets.

Ar yr un gwynt diolch i'r rhai fu'n gyfrifol am gadw'n daclus a phlannu'r cennin pedr ar y tir glas ar y ddwy brif fynedfa i'r pentref. A diolch eto i griw ffyddlon 'dydd Mercher' sy'n dal i grwydro'r



pentref yn clirio'r sbwriel a deflir mor anghymdeithasol gan rywrai. A'r baw cŵn....

Ffordd ar gau

Ar 1af Ebrill bydd y ffordd o gyffordd Capel Cysegr i Gil-y-Bont, Llanrug (Ffordd Crawia) ar gau i drafndiaeth er mwyn ail-wynebu'r ffordd. Disgwylir i'r gwaith barhau am dri diwrnod.

Arwyddion Pryderus

Cyfeirio ydwyf at sefyllfa drychinebus wyneb ambell i ffordd a llwybr o gwmpas y pentref. Ni fu yn aeaf drwg o ran eira a rhew, eto mae sawl hollt a thwll i'w gweld. Canlyniad amlwg o hyn yw'r sawl man ble mae dŵr yn cronni ar wyneb y ffyrdd. A oes archwiliad digon trylwyr yn cael ei wneud pan osodir y patches tarmac – afler yn aml – gan gcontractwyr?

Merched Y Wawr

Cyfarfu'r aelodau drwy gyfrwng Zoom ar 10fed Mawrth. Croesawyd yr aelodau o bell ac agos gan Anita, y Llywydd. Anfonwyd cofion at Eryl sydd yn wynebu llawdriniaeth, i Mabel ar wellhad buan ac i Lis, Pen Parc yn dilyn codwm yn ddiweddar. Ein cofion cynhesaf at Gwyneth, Llain yr Ardd sy'n dal yn Ysbyty Eryri. Cydymdeimlad hefyd ag Eleri o golli ffrind agos yn ddiweddar.

Brethyn Cartref o'r safon uchaf oedd y ferch wadd sef Angharad Price, y darlithydd prifysgol ac awdures o'r radd flaenaf. Enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod

Genedlaethol Tŷ Ddewi 2002 am y nofel ddirdynol *O! Tyn y Gorchudd*. Yn Gofi bellach ond wedi ei geni a'i magu yma ym Methel.

Ei hysgrif 'Cwpan a Soser' oedd testun ei sgwrs. Seilir yr ysgrif ar ei phrofiadau bore oes yn mynychu Capel Bethel. Hanes y Capel o'i sefydlu i'r cau oedd sylfaen y sgwrs. Cofnodwyd fel roedd cryn sgleini ar gôr y Capel yn y dyddiau cynnar, a cherddorfa yn cyfeilio iddynt. Mae'r teitl 'Cwpan a Soser' yn cyfeirio at gyfnod cau'r Capel ble rhoddwyd cwpan a soser gydag arfbais ac enw'r Capel arnynt yn anrheg i Angharad. O'r anrheg yma daeth y symbyliad o ddefnyddio'r ysgrif i adlewyrchu'r profiadau a gwerthoedd a ddaeth i ran Angharad wrth fynychu'r Capel. Cyfeiriodd at iaith oedfaon a chyfarfodydd y Capel ac arwyddocâd iaith raenus Feiblaidd. Cofiai ambell achlysur ond diflastod oedd eistedd ar seti caled yn sbecian drwy ambell i weddi hirwyntog. Ond, roedd i'r Ysgol Sul le cynnes yn ei chalon. Cysur, da-da, creonau a'r storïau Beiblaidd. Profiadau bywyd, nid yn unig profiadau crefyddol oedd y rhain. Gofalodd yr aelodau fod ganddynt gwpan a soser wrth law wrth wrando ar feistrolaeth cyflwyniad Angharad. Diolchwyd i Angharad am y wledd eiriol gan Mair Read.

Mis nesaf, ar nos lau, 15fed Ebrill sylwer, disgwylir cwmni Gwerfyl Eidda fydd yn trafod ffyrdd o ofalu am y croen. Edrychwn ymlaen.



Diolch am haelioni

Dyma lun i godi calon. Na, nid y Pibydd Brith ond Kelly Jones gyda'i chefnogwyr ifanc wedi cyflawni'r rhediad ddwy filltir olaf i noddï elusen Ymchwil Cancer. Dros gyfnod mis Chwefror cymrodd 43 o ieuenctid ran yn cefnogi Kelly a'i mab. Oherwydd ei hymdrechion dros y mis bach casglwyd nawdd o £3,838. Roedd Kelly hefyd fe gofiwch, wedi wynebu her Ras yr Wyddfa'r llynedd gyda'r un nod o nawdd. O roddi'r ddwy ymdrech gyda'i gilydd bydd £10,003 yn cael ei drosglwyddo i goffrau'r elusen. Yn naturiol, mae Kelly a'r teulu yn diolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i'r ymdrech arbennig yma. Yr ydym ninnau hefyd, fel ardalywyr yn edmygu Kelly am yr ymdrech arwrol yma tuag at elusen na fydd byth yn diflannu gwaetha'r modd. Traed i fyny rŵan Kelly, nes bydd y dawnsio yn ail gychwyn, gobeithio!

Teyrnged i Mrs Helen Williams (Anti Helen)

Dyma deyrnged i'r diweddar Helen Williams gan Gwion Owen, Prifathro Ysgol Bethel. Mae'n ysgrifennu ar ran Staff a Disgyblion yr Ysgol, ond mae hefyd yn siarad ar ran llawer o bentrefwyr Bethel.

Annwyl gymuned Eco'r Wyddfa, Gyda thristwch dyma eich hysbysu ein bod wedi colli Mrs Helen Williams. Fe hunodd Mrs Williams yn sydyn ar y 9fed Chwefror, 2021, a bu'n sioc enfawr i ni i gyd. Roedd Mrs Helen Williams yn gweithio yn ein hysgol ni (Ysgol Bethel) fel dynes lolipop ers dros 42 o flynyddoedd. Doedd neb yn ei hadnabod fel Mrs Helen Williams, roedd y plant, y staff, y gymdeithas i gyd yn adnabod Mrs Williams fel Anti Helen.



Bu Anti Helen yn driw a ffyddlon i ysgol Bethel am ddegawdau, gyda chenedlaethau o blant wrth eu boddau yn ei chwmni. Mae'n wir fod Anti Helen wedi croesi'r ffordd i fwyafrif o oedolion y pentref heb son am y plant, ac felly mae ei chyfraniad i'r gymuned yn un fawr. Hi oedd pwynt cyswllt cyntaf ac olaf y plant i'r ysgol bob dydd. Fel y gwyddai rhai ohonoch, doedd Anti Helen byth yn anghofio am neb ac yn barod i roi ei hamser i wneud yn siŵr bod pob plentyn wedi croesi'r ffordd yn saff. Os cewch gyfle i gerdded o amgylch pentref Bethel, dwi'n siŵr y gwelwch gannoedd o bosteri gyda lolipop croesi'r ffordd wedi ei liwio yn lliwgar mewn ffenestri. Dyma sut mae trigolion y pentref wedi tynnu at ei gilydd mewn galar a meddwl am ffordd i'r disgyblion goffau Anti Helen yn ystod y cyfnod clo. Wrth i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol yr wythnos hon, mi fydd colled fawr heb Anti Helen. Mi fydd yr ysgol yn mynd ati gyda syniadau'r cyngor ysgol i feddwl am sut y gallwn ddathlu, coffau a pharchu bywyd Anti Helen. Heb os, mi fydd Ysgol Bethel yn cofio ein Anti Helen ni am byth. **Gwion Owen, Prifathro Ysgol Bethel (ar ran staff a disgyblion Ysgol Bethel)**

Crynodeb o Gyfarfod 2ail Chwefror 2021

Cyfethol - Wedi cryn amser a hysbysebu, balchder oedd cael derbyn Ceri Jones yn aelod llawn o'r Cyngor, a bydd yn eistedd ar ran pentref Brynrefail.

Derbyniwyd Cofnodion Cyfarfod 5ed Ionawr 2021 yn gywir

Materion o'r cofnodion
Canllaw ger Beran - Canol mis diwethaf gyrrwyd llythyr i'r adran priffyrdd ac adran llwybrau, yn nodi fod y llwybr sydd yn dod allan ger garej Beran o Caermynydd angen canllaw ac efallai *barrier* gan ei fod yn dod allan ar ochor lôn hynod o brysur. Derbyniwyd ymateb bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu ymweld â'r llwybr, ynghyd â gwneud arolwg ar y tarmac ar ben y llwybr.

Lonydd, llwybrau a Tharmac - Derbyniwyd llythyr yn nodi fod Gwaelod Nant y Garth yn mynd i gael ei tharmacio ar y 9fed o Chwefror. Yna yn ystod y mis mae arolwg wedi cael ei wneud o'r lonydd a'r llwybrau, a byddant yn cael eu rhoi ar y cynllun yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd yr ardal o gwmpas Spar yn Neiniolen a'r lôn gwaelod ger Maes Gwylfa yn cael sylw yn ystod y misoedd nesaf.
Biniau Halen - Mae'r biniau halen oedd ar archeb, bellach wedi eu gosod, ar wahân i un ger Gwenoldy a Chaerau ym Mhenisa'r-waun. Y Clerc i gysylltu i atgoffa. Cafwyd cais yn ystod y mis am focs halen ger Stryd Tai Cae Rhos, Seion. Wedi edrych a siarad â'r cyd breswylwyr yno, nid oes lle i osod bin gan fod y ffordd yn gul ynghyd â chroesffordd. Felly, penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir symud yr un sydd hanner ffordd lawr yr allt i ben yr allt, sydd yn gwneud mwy o synnwyr, fel bod y bocs hanner ffordd rhwng y tai.

Tyn Llidiart i Rallt Pentir - Gyrrwyd cais am arwyddion 'Anaddas i Gerbydau' gael eu gosod yma, gan fod fan Amazon wedi mynd yn sownd ar y ffordd, a bu rhaid cael tractor i'w dynnu allan. Hyn yn digwydd yn aml, mi ŵyr pobl leol, ond gyrrwr o'r cyfandir yn dilyn Google Maps oedd hwn.

Gohebiaethau a Materion Eraill
Baw Ci - Bu sylw yn ddiweddar ar wefannau cymdeithasol ynglŷn â baw ci yn Neiniolen. Mae'r Cyngor Cymuned wedi swmian ers blynnyddoedd am fwy o finiau o gwmpas yr ardal sydd yn boblogaidd i bobl gerdded eu cŵn. Nid yn unig Deiniolen sydd â'r broblem, ond pob pentref o fewn y plwyf a thu hwnt. Y gwirionedd yw, mae'n gyfrifoldeb ar bob perchennog â chi i godi a rhoi'r baw mewn bin, boed hynny adref neu ar lwybr cerdded. Dim ots faint o finiau a roddir o gwmpas yr ardal, tan y bydd perchnogion yn cymryd y camau priodol, yna baw ci fydd yna. Mae yna finiau mewn llefydd ac o fewn canllath i'r bin, mae yna faw ci. Mae gan Gyngor Gwynedd arwyddion llachar newydd fydd yn dod allan yn fuan. Y cais ydi - plis codwch faw eich ci a'i waredu mewn bin.

Ceisiadau Cynllunio
C21/0012/18/DT - Bwthyn Lôn Plas, Rhiwlas
Cais ar gyfer trosi adeilad allanol presennol i greu anecs ategol i'r eiddo
C20/1097/18/LL - Tyddyn Oer, Bethel
Dymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn ei le.
C21/0010/18/DT - 3 Penrhos, Bethel
Estyniad un llawr yng nghefn yr eiddo.
C21/0022/18/LL - Chwarel Dinorwig
Cais i godi 2 arwydd/ fwrdd gwybodaeth
C17/0846/18/LL - Tir ym Mro Rhiwen, Rhiwlas
Datblygiad preswyl o 4 tŷ fforddiadwy ynghyd â mynedfeydd cysylltiedig â pharcio.

TAIR CROES I'R BLAID!

6 MAI 2021
O BLAID
CYMRU

☒ Etholaeth

☒ Rhanbarth

☒ Comisiynydd Heddlu a Throseddau

Plaid Cymru
Party of Wales

Hyrwyddwyd gan Mr M Phillips ar ran Plaid Cymru, Tŷ Gwynfor, Llys Anson, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4AL

Erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r wasg bydd chwarter cyntaf 2021 wedi mynd! I ble tybed yr aeth yr amser? Nid yw'n fawr o amser er pan oeddem yn dyfalu sut Nadolig fuasem yn ei gael, ac yn barod dyma feddwl am y Pasg, a'r Covid-19 yn dal efo ni, a llaweroedd o bob oed wedi colli eu bywydau. Peth na welodd neb erioed ei debyg. Ond diolch am y brechiad, a braf gweld y plant yn cael dychwelyd i'r ysgol. Gobeithio fod rhyw fath o normalrwydd yn dychwelyd i'n bywydau a bod y gwaethaf drosodd.

Er yr holl reolau a'r rhybudd i bawb aros adra a dim ond teithio pan oedd yn hollol angenrheidiol, mae'n anodd credu faint o geir oedd yn tyrru i'r Allt Ddu. Yr heddlu wrth eu gwaith yn symud pobl o'r Allt Ddu ac o'r hen waith dŵr ar lôn mynydd. Pan ddaeth yr eira, welais i erioed gymaint yn sgelfrio, a hynny yn y Fachwen, lle'r oedd y ffordd yn hynod beryglus i gerddwyr. Does dim angen dweud mai dieithriaid oedd y mwyafrif helaeth ohonynt.

Salwch

Mae nifer wedi dioddef salwch yn ystod y gaef, ond gobeithio y bydd gwella pan ddaw'r gwanwyn – er rhaid cofio fod haul y gwanwyn yn waeth na gwenwyn yn ôl yr hen ddywediad. Dymunwn adferiad iechyd buan i Mrs Betty Bower, Tan y Marian sydd wedi gorfod cartrefu ym Mhlas Pen Gwaith, Llanberis ers cyn y Nadolig. Gobeithio yn arw y cawn eich gweld gartref erbyn yr haf. Rwy'n sicr y bydd yr ardd yn galw. Gyda diolch i chi y mae'r cennin pedr yn edrych yn hynod o dlws yn yr Allt Ddu. Cymerwch ofal. Brysiwch adra – a phawb yn holi amdanoch.

Marwolaeth

Ar y 3ydd Mawrth daeth y newydd trist fod Patricia, unig ferch Tom Alun wedi marw. Roedd Tom yn fab i fy chwaer. Roedd Patricia wedi mynd i nyrsio i Loegr ers nifer o flynyddoedd, felly dros y flwyddyn ddiwethaf, doedd dim i'w gael ond sgwrs ar y ffôn pan

fyddai hiraeth yn galw. A hithau'n ddim ond pedair ar hugain oed cafodd ei gwneud yn *sister*, a'i thad a'r teulu yn ymfalchio yn ei llwyddiant. Roedd hi a'i darpar-wr wedi cartrefu y tu allan i Birmingham; y ddau yn gweithio i'r Awdurdod Iechyd Lleol. Roedd yn fwriad ganddynt i briodi fis Medi y llynedd, ond bu'n rhaid gohirio oherwydd y pandemig. Ni fydd priodas bellach, ac mae'n anodd credu fod merch bump ar hugain oed, llawn bywyd a gwên wastad ar ei hwyneb, wedi ein gadael. Bu farw o'r Covid-19 a hithau'n bennaeth ward ysbyty ble roedd marwolaethau dyddiol. Hi fyddai'n gofalu am y clefion ar eu gwely angau; yn ceisio'u cysuro, yn crio drostynt ac yn gorfod cysylltu â'u teuluoedd gyda'r newyddion drwg. Effeithiodd hyn yn fawr arni, a hithau'n eiddil a bychan o gorff. Rhoddodd ei bywyd byr i geisio rhoi bywyd i eraill. Yr ydym fel teulu yn hynod ddiolchgar am bob cymorth, cymwynas a gair caredig, a hynny gan bobl nad oeddem yn eu hadnabod. Diolch hefyd i'r Parch John Pritchard, Llanberis. Mae cysur i'w gael pan fo popeth o'n cwmpas mor dywyll a di-ystyr a digalon. Pan symudodd Patricia i Loegr rhoddodd rai o hoff bethau ei phlentyndod i'w thad i'w cadw, a bydd yn trysori y pethau hyn am byth. Gobeithio y byddant yn gymorth iddo i ddygymod â'r brofedigaeth ac i gofio plentyndod hoffus a hwyliog Trish bach annwyl.

'Cwsg dy hun yn awr, a gwyn dy fyd. Braf oedd dy gael am amser byr. Cwsg ym mrechiau'r Brenin Mawr am byth heb boen.'

Dad ac Anti Marian.

Cydymdeimlo

Mae Panel Golygyddol a Phwyllgor Gwaith yr Eco yn estyn eu cydymdeimlad dwysaf i Miss Marian Jones a'r teulu yn eu profedigaeth lem o golli Patricia. Ewch â'n dymuniadau gorau i'r teulu cyfan, Marian. Diolch i chi am ofalu bod newyddion Dinorwig wedi ei gynnwys y mis hwn, a chithau yng nghanol eich galar personol.



Waw – am Wawr!

Fel mae bron pawb yn y byd yn gwybod erbyn hyn dw i'n mynd allan am dro yn gynnar bob bore ac mae rhywbeth i'w weld bob tro. Dw i'n dechrau'n gynharach erbyn hyn achos mae hi'n goleuo'n gynharach bob dydd. Mae'n braf bod allan i sylweddoli hyn achos mae'n arwydd gref bod y gwanwyn ar y ffordd - y tymor mwyaf trawiadol o'r pedwar. Cyn bo hir mi fydd y byd yn llawn lliwiau a bydd ein calonnau'n codi ac mi ydym ni i gyd angen hynny!

Ychydig o ddyddiau yn ôl, munudau cyn toriad y wawr, mi nes i gau'r drws i ddechrau ar fy nhaith. Wrth droi'r gornel gyntaf welais i'r awyr yn goch uwch fy mhen, stribedi o gymylau coch yn creu patrwm dim ond byd natur all greu mor effeithiol. Dysgais nes ymlaen mai bai'r Sahara oedd hyn am fod gwyntoedd cryf wedi codi tywod i fyny i'r awyr a'i gludo'r holl ffordd i Gymru fechan.

Wrth i mi gerdded ymlaen roeddwn i'n cadw fy llygaid ar yr awyr a gweld y darlun yn datblygu. Dydy pethau fel hyn ddim yn parhau yn hir, dim ond am ychydig o funudau. Cyn hir roeddwn wedi cyrraedd y gornel ac roedd rhaid troi fy nghefn ar yr awyr coch. O fy mlaen i rŵan roedd yr awyr yn fwy pinc ond gwelais hefyd rhywbeth oedd yn edrych fel llwybr anwedd (vapour trail).

Meddyliais fod hyn braidd yn od achos does dim llawer o awyrennau yn yr awyr y dyddiau yma ac roeddwn i'n syllu ar hyn er mwyn trio gweithio allan beth oedd o. Yn raddol roedd lliwiau'n datblygu a sylweddolais 'mod i'n syllu ar enfys yn ffurfio. Dyma fi'n sefyll yng nghanol y lôn yn syllu ac yn gweld y bwa yn ffurfio. Roedd y profiad yn drawiadol! Mi oeddwn

i'n gallu gweld bod y goes chwith yn cyrraedd y ddaear rhywle ar y traeth ond o fwy o ddiddordeb i mi oedd ble oedd y goes dde yn cyrraedd y ddaear! Mae'n anodd credu ond roedd y goes dde yn siŵr o fod yn cyrraedd y ddaear yn fy ngardd gefn. Wel am lwc ynte! Mi fyddai i'n siŵr o gofio mynd allan efo rhaw yn syth ar ôl cyrraedd adref. O'r diwedd mi fyddai i'n gyfoethog dros ben.

Treuliais weddill fy nhaith yn breuddwydio am beth fyddai i'n gallu wneud efo'r holl gyfoeth. A fyddai i'n cael car newydd? Na, dw i ddim yn meddwl, dw i'n ddigon bodlon efo fy nghar. Prynu tŷ newydd? Na, doedd hynny ddim yn apelio chwaith, mae'r coed afalau nes i blannu pum mlynedd yn ôl wedi aeddfedu ac yn ffrwytho. Mynd ar wyliau i'r ynys orau yn y byd? Ia, dyna be wna i a fydd gwyliau yn Sir Fôn ddim yn gostus chwaith. Sorted! Fel mae'r Sais yn ddweud.

Rhywbeth i edrych ymlaen amdano ynte!

Wel roeddwn i ar y ffordd i'r cwt i nôl y rhaw pan welais dwll mawr yn y lawnt. O na! Mae rhywun wedi cyrraedd o'm mlaen i! Dyma fi'n sefyll ac yn syllu ar y twll gwag yn y lawnt, hynny yw roedd yn wag heblaw am yr amlen ar y gwaelod. Plygais i lawr i'w godi, agorais a thynnu allan neges fer.

"Annwyl Rob. Diolch am gymryd dy amser ar dy daith gerdded y bore 'ma a gobeithio nad wyt yn meindio i fi a'r tylwyth ddwyn dy drysor. Mae'n rhaid i ti gofio fod rhai pobl yn dlotach na chdi ac ein gwaith ni yw edrych ar ôl y bobl yna.

Pob hwyl i ti

Twm Teg a'r Tylwyth"

Wel, chwarae teg i'r Tylwyth Teg ynte!

Rob Evans

E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
 CENTRAL GARAGE, LLANBERIS
 FFÔN - (01286) 870202

Enwau lleoedd Dyffryn Peris

Braich Effri a Fachell

Mae Braich Effri yn Llanddeiniolen yn un o'r enwau gorau sydd gennym i ddangos sut y gall enw newid dros y blynyddoedd. Braich Effri yw'r ffurf ar lafar gwlad. Y ffurf ar y map OS yw Bach yr Hilfry, sydd ar yr olwg gyntaf yr un mor anesboniadwy â Braich Effri. Pwy neu beth oedd Effri a beth oedd mor hynod am ei fraich? Yr ateb syml yw nad oes yma neb o'r enw Effri nac unrhyw fraich. Ystyriwn ddwy elfen yr enw ar wahân. Mae'r elfen gyntaf yn gywir yn y ffurf Bach yr Hilfry, oherwydd yr hyn sydd gennym yn yr enw yw bach, nid yn yr ystyr o 'bychan' ond yn yr ystyr o lecyn neu gilfach. Ceir yr un elfen yn Fachwen.

Beth am yr ail elfen? Rhaid chwilio am y cyfeiriad cynharaf

bosibl, ac mae un o'r rhai hynaf a welais i yn dod o 1671 yn y ffurf Bach r lffri. Mae'r esboniad yn yr ynganiad, er bod y sillafiad braidd yn od. Y ffurf wreiddiol oedd Bach Riffri, sef llecyn yn perthyn i ŵr o'r enw Griffri. Mae hwn yn hen enw a welir mewn rhai enwau lleoedd eraill. Mae tŷ o'r enw Treriffri yn Llechycynfarwy ym Môn, Llwyn Griffri yn Nhal-y-bont, Meirionnydd, a chofnodwyd Gweirglodd Griffri yn Llanfairfechan. Dwn i ddim o ble y daeth yr Hilfry sydd ar y map OS, ond cofnodwyd Bach yr Hilfry yn rhestr y Degwm yn 1839.

Sut y crewyd y fath lanast mewn enw? Cawn enghreifftiau eraill o gymysgu bach a braich. Trodd Bach y Saint ger Cricieth yn Braich y Saint. Hefyd, wrth gwrs, fe all braich fod yn elfen gwbl ddilys



mewn enw lle yn yr ystyr o esgair o fynydd neu bentir: fe'i gwelir yn enw Braichmelyn ym Methesda. Benywaidd yw 'braich' fel aelod o'r corff, ond gwrywaidd yn yr ystyr o esgair mynydd. Gan fod Griffri yn enw nas clywir mohono bellach fe'i llurguniwyd i Effri a Hilfry, dau air cwbl ddisynnwyr.

Trown yn awr at Fachell sydd hefyd yn Llanddeiniolen. Ystyr

yr enw hwnnw yw Y Fachell, o bachell, ffurf fachigol o bach yn yr ystyr o gilfach neu lecyn bychan. Os yw bach yn gilfach fechan, mae bachell yn llai byth. Mae ar yr un patrwm â traethell am draeth bychan. Y cyfeiriad cynharaf a welais at Fachell yw'r ffurfiau Vachell a Tythyn'r hen vechell o'r flwyddyn 1665.

Glenda Carr

DEINIOLLEN

Neges gan y Cyng. Elfed Williams:

Mae pennaeth adran priffyrdd Cyngor Gwynedd, Steffan Jones, wedi cadarnhau y bydd gwaith i wella'r ffyrdd yn digwydd mewn 4 lleoliad yn ward Deiniolen yn y dyfodol agos. Y lleoliadau fydd y Stryd Fawr, Stryd Newydd, gwaelod Ffordd Deiniol ac ardal Hafod Oleu/Pentre Helen.

Mae Menter Fachwen wedi cadarnhau y byddant yn talu i gynnal gwelliannau i'r tir agored/maes parcio presennol i ochr Tŷ Elidir. Diolch i Kate Toms a'r Fenter am eu parodrwydd i wneud y gwaith.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar John Griffith, Fron, Deiniolen. Roedd John Fron yn un a fu'n byw ar hyd ei oes yn ei gartref genedigol, yn weithiwr caled ac yn ddyn diymhongar a thriw. Cofion at Gwen, Iolo, Siân ac Alun ynghyd â gweddill y teulu.

Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar May Evans, 84 Pentre Helen a fu farw yng nghartref ei merch ym Mhenygroes. Cofion at Arfon, Gwenda ag Emma a'r teulu i gyd.

Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

DODREFN A LLORIAU

PERKINS

●●● 01286 673535 ●●●

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

Seindorf Arian Deiniolen



Mae'n hen draddodiad i gael bandiau pres yn y cymunedau glofaol yn ne Cymru ac yn y cymunedau chwarelyddol yng ngogledd Cymru. Ond beth wyddoch chi am un o fandiau pres hynaf Cymru – sef Seindorf Arian Deiniolen? Y newyddion da yw bod y band hwnnw'n parhau i ffynnu ym mro'r Eco hyd heddiw.

Chwarelwyr oedd aelodau'r band pres gwreiddiol, a ffurfiwyd yn 1835, sy'n golygu bydd y band yn 186 oed eleni. Prin yw'r hanes o'r cychwyn cyntaf hwn er bod cyfeiriad at gwffio ar ôl cwrw, oedd wrth gwrs yn wrthun i'r gymuned ddirwestol o'r cyfnod hwnnw. Yn wir roedd perygl i aelod o'r eglwys leol gael ei ddiarddel os oedd yn ymuno â'r band. Ond dŵr dan bont yw hynny bellach ac fe ddaeth ficer Llandinorwig, y Parch James Salt, yn gefnogwr brwd i'r band ymhen dipyn. Bu gan y band sawl enw, gan gynnwys y Llandinorwig Brass Band, pan roedd y band yn ymarfer yn Ysgol Llandinorwig ac Ebenezer Brass Band. Seindorf Cynfi oedd enw arall iddo, pan oedd y band yn ymarfer yn Neuadd Cynfi (sy'n ganolfan i'r sgowtiaid erbyn hyn). Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'n gyfarwydd i ni i gyd fel Seindorf Arian Deiniolen.

Yr ifanc ar y blaen

Ar hyn o bryd mae oddeutu 38 o aelodau yn Seindorf Arian Deiniolen, gydag oedran yr



aelodau'n amrywio o 14 oed i'r rhai sydd dros 60, gyda'r aelodaeth yn ei wneud yn fand ifanc iawn a braf yw gweld fod pobl ifanc am ymuno ac yn ddigon ymroddedig i fynychu ymarferion ac ymarfer adref, cyn dod i'r ymarferion hynny.

Ond beth gaiff pobl ifanc ac oedolion wrth fod yn aelod o'r Seindorf Arian? Yn ôl yr Ysgrifennydd, Meirion Jones, mae'n debyg mai dysgu beth yw disgyblaeth gerddorol yw'r prif sgil gaiff yr aelodau ifanc, sydd yn ei dro yn rhoi disgyblaeth o fywyd bob dydd iddynt mewn amrywiol ffyrdd. Er enghraifft os oes aelod o'r band neu aelod o deulu un ohonynt yn cael profedigaeth, mae'n arfer i gael munud o dawelwch ac yna chwarae emyn er cof. Mae llawer o bobl ifanc yn gweld hyn yn arfer dda.

Fel arfer caiff dau neu dri o'r criw ifanc gyfle i ymuno â Band Pres Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn. Cynhelir wythnos breswyl o hyfforddiant a

pherfformiadau mewn gwahanol lefydd ar draws Cymru, cyfle i fod yn annibynnol ac i feithrin cyfeillgarwch efo cerddorion ifanc eraill o bob rhan o Gymru sydd ag ystod amrywiol o gefndiroedd. Mae hefyd yn gosod meincnod o'r safon uchel iawn sydd i'w weld mewn gwahanol fandiau a sylweddoli nad ydynt efallai, gystal ag yr oedden nhw'n ei feddwl, wrth weld safon mor uchel. Dyna ffordd i'w hannog i ymarfer ymhellach er mwn gwelliant. Mae pob aelod ifanc gafodd gyfle i ymuno efo'r

Band Pres Cenedlaethol wedi cael adroddiad ardderchog, sy'n dangos rhuddin yr ieuencid a dyfalbarhad ac ymroddiad yr hyfforddwyr gwirfoddol sy'n eu hyfforddi a'u meithrin o fewn Seindorf Arian Deiniolen. Mawr yw'r diolch i Gareth Williams, sy'n hyfforddi'r ieuencid a'r Seindorf Arian Gymunedol.

Seindorf Gymunedol Deiniolen

Ond dydy pethau byth yn aros yn llonydd ac erbyn dechrau 2020 roedd Seindorf Gymunedol





Deiniolen wedi ei ffurfio. Maent yn griw sy'n dod at ei gilydd o dan adain Seindorf Arian Deiniolen. Dyma grŵp sy'n cynnwys oddeutu deuddeg o aelodau sydd naill ai erioed wedi chwarae offeryn pres o'r blaen, neu oedd wedi cychwyn chwarae offeryn pres pan oeddent yn blentyn ond wedi rhoi'r ffidil yn y to (sori allwn i ddim maddau), yn difaru ac am ail-afael ynddi. Maent wedi bod yn cyfarfod bob nos Lun yn y Cwt dan arweiniad Gareth Williams, ond yn dal mewn cyswllt drwy linc fideo bellach trwy'r Cyfnod Clo. Maent yn chwarae er mwyn pleser ac edrych ymlaen at ail-afael yn yr ymarfer go iawn pan fydd hualau'r aflwydd felltith yma wedi llacio. Maent hefyd yn gobeithio cael cyfarfod a chyd-chwarae gyda grŵp pres cymunedol o'r Iseldiroedd, fu mewn cysylltiad trwy e-bost efo nhw, cyn y cyfyngiadau teithio presennol.

Bedydd tân

Un a fu'n aelod o'r band am flynyddoedd lawer bellach yw Meirion Jones (Meirion R&I neu Meirion Band i lawer). Daeth i gysylltiad â'r band yn 1960, ar ôl iddo briodi hogan o Ddeiniolen ac yntau'n ddyn dŵad o Lanrug. Tua phythefnos ar ôl priodi, daeth dirprwyaeth o dri aelod o bwyllgor Seindorf Arian Clwt-y-Bont i'r tŷ gyda'r nos. Roedden nhw wedi cael ar ddeall bod y gŵr ifanc yn chwarae'r trombôn bâs efo Seindorf Arian Llanrug ac mi oeddau nhw'n brin o chwaraewr y trombôn bâs ar gyfer cyngerdd pwysig. Y cwestiwn mawr felly oedd, a allai'r gŵr ifanc eu cynorthwyo? Cytunodd ar unwaith, ond cyn iddynt adael, cofiodd eu holi ymhle roedd y cyngerdd – a'r ateb? Yn yr Albert

Hall yn Llundain! Roedd Gwenlyn Parry (y dramodydd enwog a anwyd yn Neiniolen), yn aelod o Glwb Cymru Llundain ar y pryd, ac wedi trefnu cyngerdd yn yr Albert Hall i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi! Bedydd tân go iawn!

Daeth yn Ysgrifennydd i'r band ar yr 16eg Ebrill, 1974 a daeth y diweddar Hefin Goronwy Jones yn Drysorydd ar yr un pryd, a bu'r ddau'n cyd-weithio'n llwyddiannus am flynyddoedd. Casglwyd arian yn ddiweddar gan nyrsys Ward Ogwen i brynu llun er cof am waith di-flino Hefin Goronwy Jones i'r Ward. Cyfranwyd yr arian oedd dros ben i'r band. Dau achos teilwng, oedd yn agos iawn i galon Hefin, yn cael eu hanrhydeddu er cof amdano.

Erbyn hyn mae'n rhannu rôl yr Ysgrifennydd gyda Gwennllian Carr, gyda Dylan Huw Jones yn Gadeirydd a Wendy Evans yn Drysorydd i bwyllgor ifanc brwdfrydig.

Llywio'r Band

Aelod arall o'r pwyllgor yw Lois Eifion, Arweinydd y Seindorf. Dyma farn un o'r aelodau am eu harweinydd:

"Hi yw un o'r arweinyddion gorau gafodd y Seindorf Arian erioed. Mae'n awdurdodol yn ei ffordd ei hun ac yn cadw trefn yn hynod effeithiol. Beth sy'n dda yw bod yr aelodau yn dangos yr un parch iddi hi ag y mae hi'n ei ddangos at yr aelodau."

Ond tybed beth yw barn Lois Eifion am fod yn arweinydd?

"Mae 'na lot yn deud wrtha i na fi sydd â'r job hawsaf un, sef sefyll o flaen y band yn chwifio fy mreuchia', ond mi fedra i'ch sicrhau bod 'na fwy iddo fo na hynny."

Yn ogystal â hynny mae ganddi hi hefyd gyfrifoldeb am lywio

cyfeiriad cerddorol y band a sicrhau bod safon y band yn codi'n gyson. Yn ychwanegol mae'n rhaid dewis cerddoriaeth addas ar gyfer y band, bod yng ngofal dewis pa sêd neu pa ran i'w roi i bob un o'r aelodau.

Bu Lois yn aelod o'r band cyn iddi ddechrau ei arwain, ac mae hi'n ymwybodol iawn o faint mae hi wedi elwa mewn sawl ffordd o fod yn aelod o fand pres. Cafodd gyfle i fod yn rhan o gymuned glos, heb sôn am gael chwarae mewn nifer o gystadlaethau mewn lleoliadau ar draws y wlad. Ar y funud mae'r band yn Adran 1 ym myd y bandiau pres, ac am y tro cyntaf yn hanes y band maent o fewn ychydig o bwyntiau i gyrraedd yr Adran Pencampwriaeth felly mae

hynny'n un nod sydd dal i'w gyflawni ganddi fel arweinydd. Mae hi hefyd yn gobeithio y bydd y band yn parhau i fynd o nerth i nerth wrth i'r ieuenctid fwydo'r band am flynyddoedd i ddod.

Pan ddaeth y Cyfnod Clo cyntaf doedd hi ddim yn bosib i'r band ddod at ei gilydd o gwbl, ac roedd hynny'n beth anodd iawn iddi hi ac i lawer iawn o'r band ei dderbyn. Roedd rhaid dod o hyd i rywbeth i gadw diddordeb yr aelodau felly penderfynwyd eu bod am greu perfformiadau drwy fideo a recordiadau wedi cael eu rhoi at ei gilydd. Cawsant ymateb gwych ar y gwefannau cymdeithasol ac maent wedi llwyddo i gystadlu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau ar-lein gan ddod yn 19eg mewn cystadlaethau drwy wledydd Prydain.

Yn y Cwt Band y cynhelir yr ymarferion fel arfer. Hen felin, oedd yn perthyn i Stad y Faenol oedd o'n wreiddiol, ond rhoddwyd y cwt i'r band fel rhodd. Oherwydd y cyfyngiadau ni fu modd i ddefnyddio'r Cwt Band ar gyfer ymarfer ers tro, ond bu'r band yn brysur yn ymarfer ar fuarth Ysgol Gwaun Gynfi ar bnawniau Sul yn ystod yr haf. Er bod hynny wedi gweithio'n wych iddynt fel band, mae Lois a hwythau i gyd erbyn hyn yn edrych ymlaen ac yn mawr obeithio o gael dod at ei gilydd fel band i gael ymarfer eto yn yr Hen Felin yn ystod 2021.

Diolch yn fawr i Meirion Jones a Lois Eifion am eu cymorth wrth ysgrifennu hanes Seindorf Arian Deiniolen, ac i gydnabod y cymorth a gafwyd o gyfrol 'Band Deiniolen 1835 - 1985' gan John Emrys Morris ynghyd â chyfrol Geraint Jones 'Cyrn y Diafol'.

Nesta Elliott



Merched Medrus yn Mentro

Mae'n amlwg bod Covid-19 wedi cael effaith dormalonnus ar deuluoedd ac ar iechyd unigolion, ond sut mae'r pandemig wedi effeithio ar economi a busnesau bro'r Eco? A hithau bellach yn flwyddyn gron ers i'r cyfyngiadau Covid-19 ddod i rym, dyma'r Eco yn mynd i chwilio am 'chydig o hanesion gan fusnesau lleol.

Dros y misoedd nesaf fe fyddwn yn rhoi sylw i fwy o gwmnïau lleol, felly dewch yn ôl i glywed mwy, ond yn y cyfamser dyma ganfod nad ydi popeth, diolch byth, yn ddu i gyd.

Rydym yn ymwybodol iawn bod nifer o fusnesau wedi eu taro'n galed, ac yn parhau i'w chael yn anodd. Er hyn, mae ein hymchwil (anwyddonol!) yn dangos mai merched yn bennaf sydd wedi defnyddio'r flwyddyn ddiwethaf i fentro i feysydd newydd ac wedi sefydlu busnesau, neu wedi tyfu busnes oedd eisoes wedi ei sefydlu. Mi adawaf y cwestiwn 'pam merched?' i economegwyr a seicolegwyr, ond mae'n sicr yn wir bod amgylchiadau wedi caniatáu i rai merched yn ein bro i lwyddo ym myd busnes. Mae hynny'n destun dathlu ac yn rhywbeth y gallwn i gyd, fel cymuned, fod yn falch ohono.

Gyda chymaint o sôn am 'gadw'r bunt yn lleol', a chymaint ohonom wedi newid ein arferion siopa dros y flwyddyn ddiwethaf, oni fyddai'n wych gallu parhau i gefnogi y dalent sydd ar garreg ein drws? Mi sylwch fod y busnesau canlynol i gyd yn gwerthu dros y we, ond mae'r we fyd-eang hefyd yn ein galluogi i siopa yn y modd mwyaf lleol posib. Er y gallwch archebu dros y we, bydd yr ôl troed carbon bron yn zero gan mae'n debyg iawn y byddwch yn prynu gan rhywun sy'n byw yn yr un pentref â chi!

Os ydych chi wedi sefydlu, neu dyfu eich busnes yn ddiweddar, mae croeso i chi gysylltu drwy'r ebost i rannu eich stori- ecorwyddfa@gmail.com

Yn y cyfamser, dyma rai yn unig o ferched busnes medrus mentrus dyffryn Peris -



Enw: Jess Mullan

O ble?: Dinorwig

Enw'r busnes: Off Cut Craft Creations
Crefftau a grëwyd o ffabrigau sy'n weddill o fusnesau lleol.

Siop Etsy: www.etsy.com/uk/shop/offcutcraftcreations

Instagram a Facebook: @offcutcraftcreations



Pryd ges di'r syniad i gychwyn busnes?

Ar ddechrau 2020 doeddwn i ddim hyd yn oed yn gallu gwnio! Pan gychwynodd y Cyfnod Clo cyntaf doedd hi ddim yn bosib mynd i nulle ac roeddwn angen rhywbeth i 'nghadw'n brysur. Mi ges i fenthyg peiriant gwnio gan gymydog, a chydig o ddefnydd gan ffrindiau nad oedden nhw ei angen bellach, a dyna sut y dechreuodd pethau. Mi wnes i wyllo fideos ar YouTube er mwyn dysgu be' i'w wneud, a chyn hir roeddwn wedi llwyddo i greu dilledyn syml i mi fy hun. Y cam nesaf oedd creu anrhegion i deulu a ffrindiau, ac yna mi wnaethon nhw fy mherswadio i gychwyn gwerthu'r nwyddau.

Mi ges i fy rhoi ar *furlough* o fy swydd gyda'r Brifysgol am dair wythnos yn ystod yr haf, ac fe roddodd hynny'r cyfle a'r amser i mi agor siop

ar Etsy. Daeth yr enw 'Off Cut Craft Creations' oherwydd dwi'n credu'n gryf mewn peidio gadael i ddim un darn o ddefnydd gael ei daflu, mae hi'n bosib ail ddefnyddio hyd yn oed y darnau lleiaf er mwyn creu rhywbeth newydd sbon del! Mae ffrind i mi'n gweithio mewn ffatri gwneud *kilts* yn yr Alban ac roedd yn dychryn faint o ddefnydd bendigedig oedd yn cael ei daflu i ffwrdd. Fe ddechreuodd anfon y tameidiau bach (a mawr!) o tartan i mi ac dwi wedi eu defnyddio i wneud pob math o bethau - sgarffiau, basgedi neu sgrynshi gwallt. Dwi'n ddiolchgar iawn hefyd i nifer o fusnesau lleol, fel Clyd, sy'n anfon darnau sbâr o ddefnydd i mi ei ail ddefnyddio.

Enw: Heddwen Rees Williams

O ble?: Deiniolen

Enw'r busnes: Scent My Love
Canhwyllau, toddion cwyr a mwy.
www.scentmylove.co.uk
Instagram a Facebook: @scentmylove

Pryd ges di'r syniad i gychwyn busnes?

2018 oedd hi, ac mi o'n i'n fyfyrwr. Roedd fy mhartner yn gweithio i ffwrdd ac felly o'n i'n ffeindio fy hun adref ac yn chwilio am rhywbeth i 'nghadw i'n brysur. Mi ddechreuais wneud canhwyllau ond mi dyfodd yn gyflym i fod yn fusnes llawn amser. Roedd yn waith y gallwn i ei wneud tra'n magu plentyn hefyd, achos dwi'n trio ffio'r gwaith i mewn o amgylch y teulu.

Ydi'r flwyddyn ddiwethaf wedi cynnig cyfleoedd i ti?

Do wir! Un peth dwi wedi sylwi arno dros y flwyddyn ddiwethaf ydi bod pobl wedi newid eu harferion siopa ac

yn gwneud mwy o'u siopa'n lleol. Gan bod y rhan fwyaf ohonom wedi bod yn aros adra mi ydan ni'n fwy ymwybodol o bopeth sydd o'n cwmplas ni, ac mae pobl i'w weld eisïau cefnogi cwmnïau lleol.

Mae yna barodrwydd mawr hefyd gan fusnesau bach i helpu ei gilydd. Mi ydw i wedi bod yn siarad lot efo perchnogion busnesau eraill, ac wedi cael llawer o help gan nifer, ac mae hynny wedi bod yn grêt.

Yn ystod y Cyfnod Clo cynta mi wnes i redeg raffl a chystadleuaeth drwy Facebook ac Instagram er mwyn codi pres i elusen Awyr Las. Roedd 50% o gost cynnyrch lliwiau'r enfys yn cael ei gyfrannu i Awyr Las, felly dwi'n falch iawn o fedru helpu mewn rhyw ffordd.

A beth am heriau'r flwyddyn a fu?

Er ei fod yn bwysig i mi 'mod i'n gallu rhedeg y busnes o amgylch anghenion y teulu, mae

o hefyd wedi bod yn anodd gwneud hynny efo'r bychan adra o'r ysgol yr un pryd. Dwi'n gwybod bod hynny'n wir i lot o bobl! Doedd gen i ddim yn yr un drefn gwaith a fasa gen i fel arfer o dan amgylchiadau fwy 'normal', ond dyna ni, mi ydw i wedi dod drwyddi.

Problem arall y gallwn i fod wedi gwneud hebddi ydi'r effaith mae Brexit wedi ei gael ar fewnforio nwyddau. Mae rhai o'r olewau dwi'n eu defnyddio yn dod o dramor, ac mae yna brinder wedi bod o lawer o bethau dwi eu hangen, gan gynnwys bocsys cardbord! Mae prisiau llawer iawn o nwyddau

craidd wedi codi hefyd, ac mae'n anodd gweld ar hyn o bryd os y bydd y sefyllfa yma'n un barhaol.

A'r dyfodol?

Ar hyn o bryd dwi'n gwerthu dros y we, dwi'n gwerthu'n lleol (gall pobl gasglu o 'nghartref



Ydi'r flwyddyn ddiwethaf wedi cynnig cyfleoedd i ti?
O ran cychwyn busnes, ydi yn sicr. A dweud y gwir mae'n bosib iawn na fyddai'r busnes yn bodoli pe na bai'r Cyfnod Clo wedi cychwyn yng ngwanwyn 2020!

Mae amgylchiadau gwaith pawb wedi gorfod newid, ond mae wedi dangos i mi bod yn bosib i mi barhau i weithio i'r Brifysgol a chynnal busnes arall yr un pryd. Mae'r broses o greu'r nwyddau yn rhoi pleser mawr i mi, a dwi mor falch mod i wedi gallu 'achub' llawer iawn o ddefnyddiau fyddai fel arall wedi cyrraedd tomen sbwriel.

Mi wnes i ddechrau gwneud mygydau wyneb 'chydig o amser cyn iddi ddod yn orfodol i'w gwisgo mewn mannau cyhoeddus, felly roedd yr amseru'n grêt o ran eu gwerthu. Gan fod yn rhaid i bawb aros adref hefyd, mi wnes i gymryd mantais o hynny a dechrau dangos fy ngwaith drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn unig. Doedd dim pwysau mawr i baratoi a mynychu ffair grefftau! Dwi wedi gallu tyfu'r busnes yn ara deg heb symud o'r tŷ! Wedi dweud hynny, mae'r gefnogaeth sydd i'w chael gan bobl eraill (merched yn bennaf!) drwy Instagram a Facebook wedi bod yn anhygoel, a dwi mor ddiolchgar i bawb sydd wedi fy nghefnogi.

A beth am heriau'r flwyddyn a fu?
Mae'r Cyfnodau Clo eu hunain wedi bod yn heriol wrth gwrs, ac erbyn rŵan dwi'n credu y baswn i wir yn gwerthfawrogi gallu cwrdd â merched eraill sy'n rhedeg busnes wyneb yn wyneb. Mi fasa hi'n grêt gallu cwrdd dros baned i ddysgu o brofiad pobl eraill, i gael 'tips' ymarferol gan bobl sydd wedi gwneud hyn o'r blaen. Braff hefyd fyddai gallu cwrdd â mwy o bobl sydd eisiau rhoi sbarion defnydd i mi!

A'r dyfodol?
Wel, dwi'n gobeithio y bydd dyfodol i Off Cut Craft Creations. Dwi'n teimlo'n barod rŵan i fynd i ffair grefftau a gweld ymateb pobl a chael sgwrs efo nhw am fy ngwaith. Dwi wir yn mwynhau be dwi'n ei wneud, ac mae pobl eisiau ei brynu, felly dwi'n barod i gario ymlaen a thyfu'r busnes.



yn Llanrug), a dwi'n gwerthu mewn siop yn Lloegr a siop yn yr Alban. Mi faswn i'n hoffi gweld y busnes yn tyfu'n fwy fyth pan fydd y cyfyngiadau'n llacio. Mae'n bwysig i mi hefyd bod fy nghynnyrch i gyd yn eco-gyfeillgar – mae'r lliwiau'n organig, y 'glitter' yn bydradwy, a dwi'n defnyddio cwyr soy – ac mi fyddai'n chwilio am ffyrdd o drio cael pob agwedd o'r busnes mor eco-gyfeillgar â phosib.



Enw: Manon Jones a Catrin Jones
O ble?: Deiniolen
Enw'r busnes: Pegiau Pert
Pegiau pren wedi eu peintio â llaw
Siop Etsy: www.etsy.com/uk/shop/PegiauPert
Instagram a Facebook: @pegiaupert
pegiaupert@gmail.com

Pryd ges di'r syniad i gychwyn busnes?
Mi ydw i, Manon, yn athrawes ysgol gynradd, ac mae Catrin fy chwaer yn fydwaig. Hanner tymor fis Hydref dwyth, a ninnau mewn Cyfnod Clo arall, mi o'n i'n chwilio am rhywbeth i 'nghadw i'n brysur. Mi oeddem yn dilyn thema 'archarwyr' yn yr ysgol ac mi o'n i'n ymwybodol nad oedd yna adnoddau addysgol da ar gael, oedd ddim yn blastig, ac y gallwn eu defnyddio i helpu'r plant, felly mi benderfynais wneud rhai fy hun! Set pegiau cyntaf Pegiau Pert felly oedd criw o archarwyr, ac roedd y plant wrth eu boddau efo nhw. Mi wnes i roi lluniau ohonynt ar Facebook a'u dangos i ffrindiau a theulu ac mi wnaethon nhw fy mherswadio i ddechrau eu gwerthu.

Gan fod Catrin a minnau'n gweithio'n llawn amser, mae'r ddwy ohonom yn brysur yn peintio gyda'r nosau ac ar benwythnosau, ac yn ffitio gwaith y busnes i mewn o amgylch ein swyddi. Mi fyddai'n sicr yn aros yn fy swydd fel athrawes ond cawn weld sut fydd y busnes yn datblygu i'r dyfodol!

Ydi'r flwyddyn ddiwethaf wedi cynnig cyfleoedd i ti?
Doedd hyd yn oed y syniad am Pegiau Pert ddim yn bodoli yr adeg yma y llynedd! Efallai, pe na baem ni wedi bod mewn Cyfnod Clo yn yr hydref na faswn i wedi meddwl creu'r pegiau o gwbl. Yn fuan wedyn roedd pobl yn dechrau cysylltu i holi am anrhegion ar gyfer y 'Dolig ac mi wnaethon ni sylweddoli bod yna gyfle i ddechrau gwerthu mwy, a dyna pam y gwnaethon ni agor siop ar y we drwy Etsy.

Oherwydd ein bod yn dangos y gwaith ar Facebook ac Instagram mae pobl wedi bod yn cysylltu'n uniongyrchol efo ni i ofyn am begiau wedi cael ei eu personoleiddio, ac mae hynny wedi bod yn grêt. Mae wedi rhoi syniadau newydd i ni, felly 'da ni wastad yn croesawu pobl yn cysylltu'n uniongyrchol i holi am

rhywbeth personol arbennig. Mi wnaethon ni greu pegiau o staff y gwasanaeth iechyd efo'r slogan 'not all heros wear capes' ac mae rheiny wedi bod yn berthnasol iawn dros y misoedd dwyth.

Mae Pegiau Pert wedi helpu'r ddwy ohonom ar lefel bersonol hefyd. Gyda phawb dan glo yn y tŷ, a ninnau'n cynnal swyddi prysur, mae peintio'r pegiau yn ffordd effeithiol iawn o ymlacio ac yn bleser pur. Llawer gwell na gwyllo mwy fyth o Netflix!

A beth am heriau'r flwyddyn a fu?
O ran cychwyn y busnes, does yna ddim byd 'da ni'n deimlo nad ydan ni wedi gallu ei wneud. Mae yna bobl wedi ein helpu efo cyngor ar sut i gychwyn a rhedeg y busnes a 'dan ni'n ddiolchgar iawn am hynny.

Yr unig beth sydd wedi bod yn bechod ydi nad oedd yna unrhyw ffeiriau crefft yn cael eu cynnal cyn y 'Dolig. Mi faswn i wedi licio dangos y pegiau 'go iawn' ac i bobl eu gweld a'u cyffwrdd. Mi fasa wedi bod yn braff gallu gweld ymateb pobl a thrafod efo nhw. Dyna ni, gobeithio y bydd yna ffeiriau cyn 'Dolig 2021 ac y cawn y cyfle bryd hynny.



A'r dyfodol?
Mi fydd Pegiau Pert yn cario ymlaen mae hynny'n saff! Mi ydan ni'n mwynhau y gwaith ac yn cael pleser mawr o wybod bod y plant wrth eu boddau efo nhw hefyd. Mae plant yr ysgol yn gofyn o hyd i mi pryd fyddai'n gwneud mwy ac yn dod â nhw i mewn!

Mi ydan ni wedi creu set o begiau i gyd-fynd efo llyfr y Gruffalo, ac mae yna set hefyd o 'wrachod' sy'n cyd-fynd efo llyfrau Rala Rwdins, a dwi'n meddwl bod yna gyfle i ni dyfu'r ochr yma i'r busnes. Mi faswn i wrth fy modd yn trafod efo awdur, gwasg, neu siop lyfrau i weld pa bosibiliadau sy'n agored i ni.

Fel o'n i'n sôn, mi rydan ni wrth ein boddau yn derbyn comisiynau i wneud pegiau personol, felly mi faswn i'n croesawu unrhyw un i gysylltu efo ni i drafod eu syniadau.



Ysgol Dolbadarn

Croesawyd y Dosbarth Meithrin a'r Dosbarth Derbyn yn ôl i'r ysgol ddiwedd mis Chwefror, ac roedd yn braf i bawb gael gweld ei gilydd unwaith eto.



Dyma'r Dosbarth Meithrin yn gwisgo fel eu hoff gymeriad ar Ddiwrnod y Llyfr.



...a'r Dosbarth Meithrin yn dathlu dydd Gŵyl Dewi Sant.



LLANBERIS

Eglwys Sant Padarn
Oherwydd y sefyllfa ddiweddaraf gyda Covid-19, mae Eglwys Sant Padarn wedi cau hyd nes clywir yn wahanol. Ond mae gwasanaethau Zoom yn cael eu cynnal bob bore Sul am 10.00 am, nos Sul am 6.00 pm ac yna bob bore Mercher am 10.00 am. Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r gwasanaethau hyn ond mae angen cysylltu â'r Parch. Allan Wilcox ar afcwilcox@gmail.com neu ar 01286 872281 er mwyn derbyn y ddolen a'r cyfrinair drwy e-bost.

Diolch
Hoffai Mairwen Baylis ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y dymuniadau da tra 'roedd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn arbennig i Edwin Roberts (Y Galwad Cyntaf), parafeddygon a thîm yr ambiwlans a'r Galwad Cyntaf o Fangor. Hefyd, methu diolch digon i adran frys Ysbyty Gwynedd a Ward Prysor am eu gofal. Diolch hefyd i Feddygfa Llanberis am y gofal wedi dod adref ac am y Gwasanaeth Iechyd NHS yn gyffredinol! Diolch yn fawr.
Dymuna Hefin, Jackie ac Aled, a theulu'r

diweddar Sioned Owen, Llanberis, ddiolch yn ddiffuant i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth o golli gwraig, mam a merch annwyl. Yn ôl dymuniad Sioned, rhoddwyd ei chorff i orffwys wrth ochr ei thad yng Ngwarchodfa Dragwyddol Boduan. Casglwyd arian, er cof am Sioned, tuag at Anifeiliaid Gogledd Clwyd. Diolch hefyd i'r Trefnwyr Angladd, E W Pritchard, am eu trefniadau gofalus a thrylwyr.

Gwestai Llanberis

Dyma ail ran erthygl gan Iwan Roberts sy'n edrych ar sefydlu gwestai cyntaf Llanberis a hefyd lonydd drwy Ddyffryn Peris.

Yn 1825/26 fe adeiladodd yr Arglwydd Newborough bont Pen Llyn, a ffordd o'r bont ar hyd ochor Llyn Padarn i gyfeiriad Llanberis. Mae'n debyg mai gwneud gwell ffordd i gario llechi o chwarel Glynrhonwy i'r porthladd yng Nghaernarfon oedd bwriad Stad Glynllifon. Fodd bynnag, yn Ionawr 1828 cytunodd ymddiriedolwyr y tyrpeg i dalu £1,377 i'r stad, sef hanner cost ei hadeiladu, a daeth ffordd yr Arglwydd Newborough yn rhan o'r tyrpeg newydd. Tra bod y gwaith yma hyd ochor y llyn yn mynd yn ei flaen mae'n debyg bod yr ymddiriedolaeth wedi bod yn gwella'r ffordd o Gaernarfon i Ben Llyn. Erbyn Medi 1828 roedd y tyrpeg o Gaernarfon, cyn belled â Llanberis o leiaf, wedi ei chwblhau. Fe'i hagarwyd yn swyddogol ar y 9^{fed} o'r mis hwnnw ac fe welwyd nifer o gerbydau yn teithio o Gaernarfon i Lanberis i ddathlu'r achlysur. Mae'n siŵr bod Gwesty Dolbadarn wedi cael diwrnod i'w gofio.

Y Royal Victoria

Yn Nhachwedd 1830 mae llythyr wedi ei arwyddo gan "A Traveller" yn ymddangos mewn papur lleol. Mae'n cyfeirio at ffordd newydd yn cael ei gwneud drwy Fwlch Llanberis gan nodi y byddai'n agor yr haf canlynol. Y tyrpeg newydd oedd hon, yn cael ei hystyngiadau o Lanberis i Benygrwyd. Byddai'n cysylltu â'r ffordd o Feddgelert i Gapel Curig, ac yn y fan honno yn cysylltu â'r brif ffordd o Lundain i Gaergybi. Yn fwy perthnasol efallai mae'r llythyr hefyd yn nodi bod Thomas Asheton Smith wedi cychwyn adeiladu gwesty mawr yn agos i'r castell. Mae'n amlwg bod potensial y busnes a fyddai'n dod yn sgîl agor y ffordd rhwng Llanberis a Chapel Curig yn sylweddol. Doedd Y Faenol ddim yn bwriadu colli'r cyfle i fanteisio arno.



Drwy garedigrwydd yr awdur



Agorodd y ffordd yn Awst 1831. Roedd dros ugain mlynedd wedi mynd heibio ers y ddeddf wreiddiol yn awdurdodi ffordd o Gaernarfon i Benygrwyd, a hon oedd y ffordd dyrpeg olaf a wnaed

yn Sir Gaernarfon. Erbyn Mawrth 1832 roedd y gwesty newydd ar fin agor. Cafwyd hysbyseb yn y wasg am denant, hysbyseb a ymddangosodd mewn papurau yn Lerpwl, Caer ac Amwythig yn ogystal ag yn y papurau lleol. Bu'n rhedeg am wythnosau, roedd yn dal i ymddangos ddechrau Awst. Roedd yn disgrifio'r adeilad fel "A capital, modern built house intended for a hotel". Doedd gan y gwesty ddim enw, ond roedd hynny ar fin newid.

Roedd y dywysoges Fictoria a'i mam, Duges Caint, yn ymweld â gogledd Cymru yr haf hwnnw. Tair ar ddeg oed oedd Victoria, ac fe fyddai'n cael ei choroni pum mlynedd yn ddiweddarach. Roedd trefniadau wedi eu gwneud iddynt ymweld â Llanberis ar 25 Awst a chael eu croesawu a'u diddanu yn y gwesty newydd. Fodd bynnag, pan ddaeth y diwrnod mawr doedd y dywysoges ddim yn dda, ac roedd wedi aros ym Miwmares ble roedd hi a'i mam wedi aros y noson cynt. Serch hynny, aeth y trefniadau yn eu blaen ond Duges Caint a'i gosgodd yn unig

a deithiodd i Lanberis. Aeth mewn coets cyn belled â Phen Llyn ac yna yng nghwch Y Faenol gan lanio ar y ddôl ger Castell Dolbadarn. O'r fan honno cafodd ei hebrwng gan rai cannoedd o chwarelwyr "... to the new inn, just erected by Mr Smith and now called The Royal Victoria." Cafodd y gwesty ei enwi yn Royal Victoria felly er nad oedd y dywysoges yno. Ond Victoria oedd enw Duges Caint hefyd. Tybed ar ôl pa Victoria y cafodd y gwesty ei enwi go iawn?

Mae'n debyg mai'r ymweliad brenhinol oedd agoriad swyddogol y gwesty ac fe ymddangosodd hysbyseb yr wythnos ganlynol yn datgan ei fod bellach wedi agor i'r cyhoedd. Serch hynny, roedd peth gwaith i'w wneud arno o hyd. Ym Mawrth 1833 gwahoddwyd tendrau am ei beintio a'i bapuro. Rhyw fis yn ddiweddarach roedd y gwesty'n cyhoeddi bod Edward Green yn denant, y cyntaf mae'n debyg. Cyn dod i Lanberis roedd yn rheolwr Gwesty'r Goron yn Ninbych. O fewn wythnosau roedd hysbysebion y gwesty yn ymddangos mewn papurau newydd ar draws y wlad. Roeddynt yn brolio'r ardal, a'r gwesty, i'r cymylau. Roedd hysbyseb yn y Globe, un o bapurau Llundain, er enghraifft yn nodi pa mor agos oedd y gwesty at droed yr Wyddfa ac yn cyfeirio at "... a cottage about to be erected for the reception and entertainment of travellers..." ar y copa.

Iwan Roberts

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS



DYLAN GRIFFITH

Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS Y WAEN PENISARWAEN

Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol

24 Awr y Dydd

Capel Gorffwys Preifat

Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal

Busnes Teuluol

Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)

Gwaith Coffaol

LLANRUG

Y Sgwâr

Llanrug

Caernarfon

Gwynedd

LL55 4AA



 01286 672898

www.ecorwyddfa.co.uk 19

Began Ifan

Ychydig iawn o bobl y dyddiau yma sy'n cyfeirio at drigolion y Waunfawr fel, 'Y Beganifs', neu 'Teulu Began Ifan', fel eu hadwaenid yn ardaloedd y chwareli erstalwm. Tarddiad yr enw, mae'n debyg, yw'r enw a roed i ddynes hynod fileinig a chwerylgar oedd yn byw yn yr ardal ryw dro yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ond pwy oedd Began Ifan? Yn ôl yr hanes, pladres o ddynes pur anystywallt oedd hi. Gwraig galed a garw ei thafod, yn byw mewn bwthyn bychan, rhwng gardd Bryn Derwen a'r hen fecws Tŷ Ucha'r ffordd ynghanol y pentref. Dywedir ei bod yr orau yn y wlad am ffraeo, ac os na fuasai ganddi rywun i ffraeo â nhw, fe godai ffrae efo hi ei hun. Fe fyddai'n dda gan y sawl âi i wrthdaro â

hi gael mynd o'i gŵydd, o'i chlywed yn edliw pob brycheuyn, gan wneud môr a mynydd allan ohono. Ond un tro fe drawodd hithau ar ei *match*. Fe ddaeth dynes o'r De i fyw yn y Waun, a phan aeth y ddwy i'r ymrafael â'i gilydd un diwrnod, roedd hon yn gystal ceilioges a hithau. Began Ifan gafodd y gwaethaf, a phan edliwiodd rhywun iddi ei bod wedi cael ei threchu, atebodd hithau yn swta, "Be fedrwn i wneud, doeddwn i ddim yn gwybod achâr hen ast"!

Roedd gan Began Ifan fab, 'Wil Began',

fel ei hadwaenid, a dywedir iddi esgor arno ar y ffordd wrth Bont y Cynnant a'i roi yn ei ffedog a mynd ag ef adref. Roedd Wil Began yn greadur hynod ddichellgar, a dywedir iddo dreulio cyfnodau o'i fywyd yn y carchar. Mae un hanes amdano fel yr oedd yn gorfod troi olwyn fawr drom ar echel yn mynd trwy wal ei gell i gell arall. Ni wyddai Wil beth oedd y tu arall i'r wal na beth oedd pwrpas troi'r olwyn, ond dal i'w throï yn ddi-stop am oriau.

Roedd Wil Began yn botsiar heb ei ail. Ceir hanes amdano yn cael ei ddal gan giperiaid un noson olau leuad yn tynnu eog braf o'r afon. Rhedodd Wil am adre, a'r eog dan ei gesail, a'r ciperiaid ar ei ôl. Archwiliwyd y tŷ yn fanwl, ond ni ddaethpwyd o hyd i'r eog. Roedd yr eog yn yr union fan na feiddient chwilio amdano - yn y gwely, lle gorweddai Began Ifan, 'yn wael iawn', o dan y dillad.

Dywedir i rai o'r potsiars yr adeg honno roi eog oedd wedi ei ddal yn y simdde i gochi yn y mwg. Fe gadwai samwn wedi ei gochi yn y dull yma am gryn amser, a byddai blas neilltuol arno.

Stori arall am Wil Began yw'r un amdano yn gweld Iddew a chês llawn watsys ganddo yn dod i'w gyfeiriad ar y ffordd. Ar y pryd, roedd Wil gyferbyn a thŷ, pur fawr, oedd yn

gartref i foneddigion parchus. Wrth i'r Iddew agosáu, tynnodd Wil ei gôt, gan gymryd arno ei fod yn codi bwlch yn y wal. Daeth yr Iddew ato a cheisio ei gymell i brynu un o'r watsys. Cymerodd Wil arno nad oedd eisiau'r un a gwnaeth hynny'r Iddew yn fwy taer i werthu. Llwyddodd yn y diwedd i'w berswadio, a dewisodd Wil y wats drutaf oedd ganddo. Anogodd Wil iddo fynd at y tŷ i gael arian amdani gan ei wraig. Yno aeth yr Iddew yn ddiymdroi gan guro ar y drws, ond mawr oedd ei syndod pan ddeallodd nad oedd cysylltiad rhwng Wil a'r teulu oedd yn berchen y tŷ. Cyn pen dim, roedd Wil Began wedi diflannu ymhell lawr y ffordd, ("dengid i'r Sowth"), chwedl hynafiaid y Waun, a'r oriawr ddrudfawr yn ei boced.

Yn anffodus, ychydig o wybodaeth sydd ar gael am Began Ifan erbyn heddiw. Dywedir i feini'r hen fwthyn gael eu chwalu gan darw dur y Cyngor Sir rai blynyddoedd yn ôl. Beth wnaeth y Cyngor Sir a'r lle? Wel chwalu cwt mul a gwneud cwt mules.

Bydd y rhai sy'n ymddiddori ym myd y canu pop yng Nghymru yn gwybod, ac yn cofio 'Y Beganifs', sef y grŵp pop poblogaidd o'r Waunfawr a ddewisodd anfarwoli'r hen enw. Mawr yw'r diolch iddynt am hynny.

Gwilym Morris Jones

CAEATHRO

Capel

Mae Llywodraeth Cymru, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Ymddiriedolwyr Capel Caeathro i gyd yn gytûn fod sefyllfa Covid-19 yng Nghymru yn ddigon diogel bellach i ni fedru ail gychwyn addoli cyhoeddus yng Nghanolfan y Capel.

Dyma fydd yr Oedfaon i'w cynnal dros yr wythnosau nesaf -

Ar Sul y Pasg, sef y 4ydd o Ebrill, bydd Gwasanaeth a Chymun gyda'r Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, i ddechrau am 2.00pm.

Ar y 18fed o Ebrill, bydd Gwasanaeth dan arweiniad Richard Lloyd Jones am 2.00pm.

Ar yr 2il Mai, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson

am 2.00pm. Gan y bydd Marcus yn ymddeol ddiwedd mis Hydref, bydd gofyn i Aelodau'r Eglwys ystyried pa fath o weinidogaeth a gofal bugeilio yr hoffem ei dderbyn gan y Gyfundeb yn y dyfodol. Bydd y broses yn debygol o fod yn un hir, ac yn unol â'r trefniadau a rheolau arferol, bydd pleidlais ar gyfer pob Aelod a fydd yn bresennol. Bydd cyfle i drafod canlyniad pleidlais yr Aelodau, yn ogystal ag ystyried y Fantolen a materion eraill, yn ystod y Cyfarfod Blynyddol a fydd yn dilyn y Gwasanaeth am oddeutu 3.00pm. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rannu maes o law.

Cae Chwarae - Newyddion Cyffrous!

Os nad ydych wedi cael cyfle i fynd draw yn

barod, tro nesaf y byddwch yn mynd am dro, galwch heibio Cae Chwarae'r pentref i gael golwg ar yr ychwanegiad diweddaraf! Mae Caeathro yn falch o fod yn un o bentrefi cyntaf y wlad i fedru cynnig y cyfleuster hwn. Mae'n addas i blant o bob oed ac i unigolion sydd yn defnyddio cadeiriau olwyn.

Gwireddwyd y cynllun o ganlyniad i haelioni Cist Gwynedd yn adran Economi Cyngor Gwynedd, sy'n gyfrifol am weinyddu grantiau Llywodraeth Cymru i gymunedau lleol. Mae ein diolch yn fawr iddynt. Hoffem hefyd gymryd y cyfle i ddiolch i bawb sydd yn cefnogi pwyllgor y Cae Chwarae ar hyd y flwyddyn - mae eich cyfraniadau hael wedi bod o gymorth mawr i sicrhau'r ychwanegiad yma i'r Cae Chwarae.



Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 74618

www.ecorwyddfa.co.uk

ECO'r Wyddfa



Y Storfa, Spar, Llanrug

Sgwâr Llanrug
01286 673108



Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes

Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

Ysgol Waunfawr

Braf oedd cael croesawu disgyblion y Cyfnod Sylfaen i'r ysgol yn ddiweddar mewn pryd i ddathlu Gŵyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr fel rhan o ddathliadau Wythnos Cymru Cŵl. Yr oedd yr ysgol yn fwrwlm o weithgareddau gan gynnwys plant wedi eu gwisgo mewn coch a gwisgoedd traddodiadol a phlant yn gwneud dawnsio gwerin a choginio cacenni cri.

Yr oedd y plant Cyfnod Allweddol 2 yn dathlu hefyd gan gynnwys gwisgo fel cymeriad o lyfr Cymraeg a chymryd rhan mewn sioe rithiol i ddathlu Cymreictod gyda Anni Llŷn a Tudur Phillips.

Bydd y disgyblion hynaf yn dychwelyd i'r ysgol yn fuan a gobeithio y cawn barhau i fwynhau gweddill y flwyddyn ysgol gyda'n gilydd.

Hoffwn fel Pennaeth ddiolch i bob disgybl yn yr ysgol am eu hymdrechion i ddysgu o bell, mewn cyfnod hynod o heriol – yr ydych yn sêr i gyd! Da iawn chi – bu'n bleser gweld yr holl waith yn cael ei ddychwelyd! Hoffwn ddiolch hefyd i rieni'r ysgol am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae staff yr ysgol yn haeddu clod am wynebu'r her hon unwaith eto gan addasu yn wythnosol bron, i heriau newydd. Diolch iddynt am eu gofal o blant




gweithwyr allweddol yn yr ysgol ac i'w disgyblion drwy wersi ar-lein.

Diolch i Anti Ceri am ei chymorth a chyfeillgarwch dros

yr wythnosau diwethaf – pob lwc iddi i'r dyfodol!

Dyma ychydig o luniau o weithgareddau'r ysgol yn ystod y tymor.



WAUNFAWR

Rhaglen Am Dro ar S4C

Mae hon wedi bod yn gyfres ddifys iawn eto eleni, a braf gweld Catrin, hen eglwys Sant Ioan yn arwain criw ar daith cerdded i Gwm Idwal. Os na welsoch y rhaglen ar y pryd, gallwch ei gwyllo eto ar S4Clic.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Marian, 1 Tai Eilian, ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Cafodd Maccsen Rhys ei eni i Helen Mai a'i phartner Gwil ar 9fed Ionawr. Dymuniadau gorau i chi fel teulu at y dyfodol.

Cydymdeimlad

Cafodd nifer o deuluoedd y pentref brofedigaethau yn ystod y mis aeth heibio, ac rydym yn estyn ein cydymdeimlad â chi i gyd yn eich colled.

Bu farw mam Kevin Morgan, Cartrefle, mam yng nghyfraith i Olwen a nain Tomos a Cai.

Hefyd bu farw mam Garry

Griffith, Stad Tŷ Hen, mam yng nghyfraith Nia a nain Dafydd, Aled ac Iwan

Bu farw mam Lorna Parry, Rhos Celyn, mam yng nghyfraith Terry, nain i Meurig a Tomos a hen nain i Elis.

Hefyd, bu farw tad Marian, 1 Tai Eilian, taid Nia a Helen a hen daid Maccsen Rhys.

Plaid Cymru

Rhoddodd Cangen Plaid Cymru Waunfawr gynnig gerbron y Cyngor Cymuned, i gael gosod bocsys blodau mewn tri man yn y pentref. Bydd un bocs yn cael ei osod wrth fynedfa'r pentref o gyfeiriad Caeathro, un wrth fynedfa'r pentref o gyfeiriad Ceunant, ac un wrth y Ganolfan. Diolch i'r Cyngor Cymuned am ariannu'r fenter, ac i aelodau'r gangen fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r bocsys. Gobeithio bydd pawb yn mwynhau eu gweld. Adeiladir y bocsys gan

Antur Waunfawr, a dylent fod mewn lle yn ystod yr wythnosau nesaf.

Clwb 200 Canolfan Waunfawr – 2020

Dyma gyhoeddi enwau enillwyr y Clwb Cant 2020

Ionawr: £30 - Treflyn Thomas, Treforfan, £20 - Helen Cox, Cartref, £10 - Iona Williams, Llwydiarth

Chwefror: £30 - Steve a Carys Jones, Ty'n Cae, £20 - Rose Ann Hughes, 15 Tref Eilian, £10 - Shirley Parry, 8 Pant Waun

Mawrth: £30 - Nefyl Owen, Bryn Gwylan, £20 - Beryl Jones, Dol y Coed, £10 - Zoey Aindow, Sŵn y Gwynt

Ebrill: £30 - Emrys Owen, Bryn Mor, £20 - Siân Thomas, Tŷ Ysgoldy, £10 - Martin Beech, Bryn Arfon

Mai: £30 - Iolo Davies, Pennant, £20 - Nan Huws Roberts, Madryn, Erw Wen, Caeathro, £10 - Glenys Jones Rhandir Mwyn

Mehefin: £30 - Gill Wyn, Y Frenni, £20 - Nia Hughes, Min y Grug, £10 - Zoey Aindow, Sŵn y Gwynt

Gorffennaf: £30 - Ann Jones, Croesor, £20 - Peter Greasley, 7 Pant Waun, £10 - Helena Edwards, Anneddle

Awst: £30 - John Gwynedd, Nant, £20 - Olwen Morgan, Cartrefle, £10 - Helen Cox, Cartref

Medi: £30 - Nelma Pritchard, 6 Croes y Waun, £20 - Delyth Jones, Tan y Coed, £10 - Glenys Pierce, Bryngwyn

Hydref: £30 - Nan Roberts, Pant Afon, £20 - Doug ac Iola Jones, Bron Eifion, £10 - Norman Williams, Llidiart Wen

Tachwedd: £30 - Martin Beech, Bryn Arfon, £20 - Hawys Tuff, Crymllwyn, £10 - Irene Roberts, Pant Teg

Rhagfyr: £30 - Annie Thomas, Gilfach, £20 - Raymond Edwards, Melin Y Wig, £10 - Emrys Hughes, Treflan Isaf

LLANRUG

Profedigaethau

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Avril a Doug Jones, 14 Minffordd, Cemlyn a Nia a'u teuluoedd, yn eu profedigaeth o golli tad, taid, hen daid a ffrind i'w deulu yng nghyfraith. Bu farw Llewelyn Morris Jones yn 95 oed, yn Nhalybont, Bangor, gŵr ffyddlon i Enfys am 72 o flynyddoedd. Colled fawr i chi i gyd.

Hefyd, cofiwn at Mair a Gwyndaf Huws, Hafan, Ffordd Glanmoelyn, yn eu profedigaeth hwythau yn dilyn marwolaeth chwaer Mair, sef Eiriona Williams, Penisarwaun. Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich colled.

Cydymdeimlwn hefyd hefo Lyn a Glyn, Gwyn a Gwen a'u teuluoedd i gyd, Stad Nant y Glyn, yn eu profedigaeth o golli Eira, chwaer annwyl Lyn, gynt o Waunfawr. Cofion atoch.

Gwellhad buan

Bu i Olwen Huws, Eithinog, Glanffynnon, dorri ei braich yn dilyn damwain yn ei chartref. Brysiwch wella Olwen.

Merched y Wawr

Cafwyd cyfarfod 'zoom' llwyddiannus gydag aelodau Llanrug a Phenisarwaun y mis hwn. Mae trefniant i gael un eto mis Ebrill. Cysylltwch â'r Pwyllgor am fanylion pellach os gwelwch yn dda.

Plaid Cymru

Enillwyr Clwb Cant Mis Mawrth
1 - Gwenda Roberts, Hafle, Llanrug
2 - Hefin Jones, Pant Mwyn, Llanrug

Ysgol Gynradd Llanrug



Croesawyd y Cyfnod Sylfaen yn ôl i'r ysgol ddiwedd mis Chwefror. Mae'r plant i gyd wrth eu boddau yn sgwrsio ac yn chwerthin. Braf oedd eu gweld yn mwynhau cwmni ei gilydd unwaith eto.
Rydym wedi dathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant a

Diwrnod y Llyfr yn yr amser byr hwn, a bu'r plant wrthi'n brysur yn darparu ar gyfer Sul y Mamau a'r Pasg.
Dyma rai o'u lluniau.



SAMARIAID
Llinell ffôn Gymraeg
116123
neu
0808 164 0123
Ar gael bob nos rhwng
7 pm ac 11 pm



Cais am ohebydd a dosbarthwyr i'r pentref

Erbyn hyn mae gwir angen Gohebydd Pentref i Benisarwaun. Diolchir i Elizabeth Jones ac Ann Ifans am wneud y gwaith ers sawl blwyddyn bellach, ond oherwydd amgylchiadau meddygol erfynnir am wirfoddolwr/wraig i gydio yn y gwaith. Os ydych â diddordeb mae Katy Williams yn derbyn gohebiaeth ar ecopenisarwaun@hotmail.co.uk. Rydym hefyd angen mwy o ddosbarthwyr – os am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Ann ar 01286 812407.

23ain Mawrth, 2020 – Mawrth 2021

Mae blwyddyn wedi carlamu heibio ers ymosodiad y pandemig dieflig ar ddynoliaeth ledled y byd. Bu, ac y mae'n gyfnod heriol, gofidus a chreulon i lawer. Mae'r diolch i weithwyr amhrisiadwy a diflino GIG yn enfawr. Gydag effeithiolrwydd y brechlyn mae gobaith:

‘Er maint sydd yn dy gwmwl tew
O law a rhew a rhyndod,
Fe ddaw eto haul ar fryn,
Nid ydyw hyn ond cawod.’

Cadwch yn saff bob un ohonoch.
Dymunir Blwyddyn Newydd Well a

Gobeithiol i chi i gyd.
Penblwyddi Arbennig
Bu'r mis Mawrth yma'n fis o ddatlu nifer o benblwyddi arbennig i Mrs Blodwen Mowll, Bryntirion a Dic Parry, Tawelfa. Mwynhewch eich diwrnod, a phob dymuniad da i'r ddegawd nesaf.

Priodas Aur
Llongyfarchiadau i Elinor ac Elwyn, Bryn Rhydd Mawr ar ddatlu eu priodas aur gan ddyuno diwrnod o ddatlu hapus gyda'r teulu.

Profedigaethau
Bu colled enfawr i anwyliad a ffrindiau hoff yn y pentref yn ddiweddar.

Cydymdeimlir yn ddwys ag Amanda ac Yvonne a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mair Orrock, mam, mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain hwyliog a chwaer annwyl i Gwyn a Meirion.

Cydymdeimlir â theulu Perthi yn eu profedigaeth o golli mam i Janice, mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain.

Ar 25ain Chwefror yn annisgwyl, bu farw Aled Green, Rhos Wian, tad tyner, Judith, Dilwyn a Meurig, tad-yng-nghyfraith, taid a brawd hoff.

Ar 9fed Mawrth yn Ysbyty Gwynedd bu farw Eiriona, Glyn

Euron, gweddwr leuan a mam arbennig Rhian ac Emyr, mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain hynod falch a thrysor o chwaer i Mair Huws, Llanrug.

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf hefyd â Mrs Catrin Roberts, Pennaeth yr Ysgol Gymuned ar farwolaeth sydyn nai iddi, sef Huw Gethin Jones ac yntau ond yn 34 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad fel aelodau Pwyllgor Eisteddfod Bentref, at Teleri a'r teulu – bu Teleri yn beirniadu yn ein heisteddfod ar y cyd â Catrin.

‘...am anwyliad a fu, cu y cof.’

Croeso
Hyfryd yw cael estyn croeso cynnes i Ynyr a Catrin i'n plith. Braf deall eu bod wedi setlo'n sydyn yn 6 Bryn Eglwys ac mae pawb yn hynod o falch i groesawu ffrindiau ifanc Cymreig i'n plith. Yn ychwanegol ganwyd merch fach iddynt ym mis Ionawr, sef Alys Ynyr. Llongyfarchiadau i chi fel teulu a llongyfarchiadau i Nain a Taid, Annette a Gwyn ac i Hannah, hen nain falch ac i Nain Pontardawe.

Englyn er cof am y Cyng Aled Green, Penisarwaun

Geiriau sawl cyfnod gerwin a gawsom
yn gyson, gysefin
mewn araith – min y werin;
aelod y graith, Aled Green.

Richard Lloyd Jones

Ysgol Penisarwaun



Mae disgyblion Ysgol Gymuned Penisarwaun wedi bod yn gyson brysur dros yr wythnosau diwethaf yn gwneud eu gwaith i gyd o gartref. Cynhaliwyd gwersi rhithiol cyson a bu pawb yn dyfalbarhau dros y cyfnod anodd a digynsail hwn. Hoffwn ddiolch i'r holl ddisgyblion a rhieni am ddyfalbarhau ac addasu ynghanol rhwystredigaethau er mwyn sicrhau parhad yn y dysgu. Mae'r ysgol wedi parhau ar agor i blant gweithwyr allweddol dros y cyfnod hwn.
Braf oedd cael croesawu plant y Cyfnod Sylfaen yn ôl i'r ysgol ar ôl hanner tymor a phlant yr adran lau ganol fis Mawrth. Mae wedi bod yn gyfnod hir ac anodd i bawb ac mae pawb yn hynod falch o gael



dychwelyd i'r ysgol a chael cyfle i gymdeithasu a chyfathrebu â ffrindiau unwaith eto.
Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen drwy wisgo eu gwisgoedd Cymreig a chwblhau gweithgareddau am Dewi Sant. Bu disgyblion yr Adran lau yn cwblhau tasgau am Dewi Sant ac am Gymru o gartref. Edrychwn ymlaen yn awr i ail afael yn ein gwaith yn yr ysgol a manteisio ar y cyfle i gael cydweithio â chyd-ddisgyblion a chynnal llawer o weithgareddau ymarferol ar lawr dosbarth. Byddwn yn canolbwyntio yn bennaf ar iechyd a lles y disgyblion a sicrhau bod pawb yn setlo yn ôl i fywyd yr ysgol cynted a phosibl.

Garddio Ebrill



O'r diwedd mae'r gwanwyn i'w weld o'n cwmpas ym mhob man ac mae'n amser i dorchu llewys yn yr ardd.

Mi fydd y coed blodeuog yn harddu'r fro ym mis Ebrill. Dyma un o'r misoedd mwyaf cynhyrfus i'r garddwr gan fod modd plannu'r rhan fwyaf o hadau.

Fel arfer, y mae'r hadau a blannwyd eisoes dan wydr yn tyfu ymlaen yn llwyddiannus. Mae'n amser i blannu y tu allan – ond gwyliwch rhag barrug a rhew dros nos.

Gallwch ddechrau rhoi sylw i'r lawnt hefyd. Ar ôl yr holl law rydan ni wedi'i gael, gallai ychydig o fwyd wneud lles iddi ynghyd â'i hawyru drwy balu fforc drwyddi fesul troedfedd.

Tasgau

1. Cadwch y chwyn dan reolaeth – eu dal nhw'n gynnar sydd eisau, cyn iddyn nhw wneud meistr arnoch chi
2. Gwyliwch rhag i flodau'r coed

a'r llwyni ffrwythau gael barrug

3. Clymchwch y rhosod sy'n dringo
4. Rhowch fwyd i'r rhosod a llwyni eraill
5. Mae'n amser hau blodau blwyddol a hadau perlysiau
6. Gallwch roi ychydig mwy o ddŵr i blanhigion tŷ
7. Gallwch hau lawnt newydd neu drwsio mannau moel
8. Gallwch roi pryd o fwyd i'r rhosod ddechrau mis Ebrill ac eto wedyn ddechrau mis Mehefin.

Dyma'r amser prysuraf o safbwynt plannu. Plannwch eich prif gnwd o datws. Tynnwch y rhan fwyaf o'r egin oddi arnyn nhw gan adael ond rhyw ddau neu dri. Cofiwch roi digon o dail i'r tatws a throedfedd dda rhyngddyn nhw. Os daw rhew hwyr ar ôl iddyn nhw ddeilio, chwistrellwch nhw efo dŵr cynnes yn gynnar yn y bore ac fyddan nhw ddim gwaeth. Gallwch hau persli hefyd; mae rhai yn rhoi dŵr cynnes iawn ar yr



hadau cyn eu hau, gan nad ydynt yn egino'n hawdd. Gallwch hefyd hau pys, moron a sawl llysieuyn arall. Yn y tŷ gwydr, mae'n amser hau tomatos a'r blodau blwyddol.

Dyma groes-doriad o hadau sy'n barod i'w plannu – amrywiaeth o flodau, llysiau, perlysiau a phlanhigion i'r tŷ gwydr.

Mae'r betys yn un o'r llysiau gorau y gallwch eu tyfu. Mae'r croen piws yn cynnwys *betaine*, sydd, mae'n debyg, yn lleihau clefydau ar y galon a'r posibilid o gael strôc. Mae'n cynnwys magnesiwm a haearn, felly mae'n dda i'r gwaed. Mae betys yn hoff o bridd gyda draeniad da (er heb fod yn rhy sych), gyda gwres. Rhaid plannu pob betysen gyda tua 4" - 6" [10cm - 15cm] rhyngddyn nhw, er mwyn i'r planhigion gael dechrau

da. Os am dyfu rhywbeth ychydig yn wahanol beth am dyfu moron piws? Maent yr un mor hawdd i'w tyfu a'r rhai oren arferol ond yn ôl pob sôn â'r un rhinweddau llesol a'r betys, cefais hwyl llynedd ar dyfu *Purple Haze F1*. Tric da i osgoi'r pry moron yw eu plannu mewn hen focus ailgylchu (neu debyg) wedi eu llenwi a chompost hyd at hanner ochrau'r bocs – dydyn nhw ddim yn gweld y moron ac felly maent yn cael llonydd (y mathau byr yw'r gorau ar gyfer y dechneg hon e.e. *Royal Chantenay 3*, *Early Nantes* neu *Amsterdam Forcing*).

Cofiwch wyllo Garddio a Mwy pan fydd yn ail-ddechrau ar S4C – nos Lun 9fed Ebrill i gael pob math o *tips* garddio.

Rhosyn Mynydd

CEIR CYMRU



**Diolch am gefnogaeth
ein cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 mlynedd**
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451




FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
Dewis eang o luniau yn yr oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

www.fframia.com

Gwyliau ARVONIA



- Gwyliau ym Mhrydain ac Ewrop ▪ Teithiau grŵp
- Cyngherddau a sioeau ▪ Teithiau diwrnod
- Teithiau drost nos ▪ Cerbydau moethus

01286-675175 www.arvoniaco.uk





WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI

Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr wyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist

(01286) 673574



Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr wyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist

(01286) 673574

Cwôt di-dal

HUW OWEN

**PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL**
23 BLWYDDYN
O BROFIAD

Ffôn - 01286 677668
Symudol - 07940023159

Gladwyn,
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
LL55 4AG

Ebost - lisa.huw@btinternet.com

Chwilota

Erthyglau hanes
lleol, Bro Eco'r
Wyddfa.



“Miss Jones ... declines farming”

Dyna'r pennawd a ymddangosodd mewn hysbyseb yn 1885 pan roddwyd 35 acer o dir pori ar osod yn ardal Pontrug. Does wybod a wnaethpwyd cais am y tir, ond erbyn mis Gorffennaf 1890 roedd y tir – a gweddill y stad, ar werth, a hynny ar ocsiwn yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon. Felly, pwy oedd 'Miss Jones' a pham nad oedd am barhau i ffermio?

Y fferm dan sylw oedd Erw Pwll y Glo ar y Lôn Glai; fferm ac iddi dir ym mhlwyfi Llanrug a Llanddeiniolen. Yn wir, mae terfyn y ddau blwyf yn rhedeg drwy libart Erw Pwll, ac mae'n ymddangos nad oedd sicrwydd pendant i ba blwyf y perthynai'r tŷ.

Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd David Owen, ffermwr a chigydd, yn byw yno gyda'i wraig Grace. Bedyddiwyd eu plant yn Eglwys Llanrug: Margaret (1820), John (1822), David (1824), Ellin (1827) ac Owen (1829). Erbyn bedydd eu chweched plentyn, Nathaniel yn 1831 roeddent wedi symud i Gefntresaint (Fferm Kent). Mae'n debyg mai tenant oedd David Owen, oherwydd perchennog Erw Pwll y Glo ar y ôl Mapiau Degwm plwyfi Llanrug a Llanddeiniolen oedd rhyw Robert Thomas Esquire. Roedd yn byw yno yn 1834, oherwydd ceir cofnod o gladdu ei wraig, Ann, ym mynwent Llanrug yn 49 oed.

Prin iawn yw'r wybodaeth am Robert Thomas. Yng Nghyfrifiad 1841 ac 1851 mae'n byw yn Erw Pwll y Glo ac yn disgrifio'i hun fel ffermwr, genedigol o Sir Ddinbych (nid yw'n nodi ei blwyf genedigol). Mae lle i gredu ei fod hefyd yn cadw busnes *druggist* yn Rhif 2 Y Clwt Mawn (Turf Square), Caernarfon. Pan werthwyd y stad yn 1890 roedd yr eiddo hwn yn rhan o'r gwerthiant. Mae cofnod arall yn cyfeirio at Robert Thomas, *druggist* o'r Erw Pwll.

Yn ôl y Mapiau Degwm, roedd Robert Thomas yn byw yn Erw Pwll, plwyf Llanrug, a 38 acer o dir ganddo yn y plwyf hwnnw. Ond roedd rhyw Jane Jones yn byw yn Erw Pwll, plwyf Llanddeiniolen, gydag 18 acer arall o dir! Mae'n debygol mai hon yw'r Jane Jones sy'n 30 oed yn 1841 ac yn cadw tŷ i Robert Thomas. Roedd hi'n enedigol o Bentrefoelas, Sir Ddinbych, sy'n awgrymu mai o'r ardal honno y deuai'r perchennog hefyd. Gweddill eiddo Robert Thomas ym mhlwyf Llanddeiniolen oedd Tyddyn Andro, Tyddyn y Berth a thiroedd a elwir yn *allotments*. Roedd ganddo eiddo hefyd yn ardal Glanrhyd, plwyf Llanwnda. Roedd y cyfan o'i eiddo yn cael ei hadnabod fel “Erw Estate”.

Bu farw Robert Thomas ym mis Ionawr 1855 yn 74 oed ac fe'i claddwyd gyda'i wraig ym mynwent Llanrug. Ond beth ddigwyddodd i Stad yr Erw? Roedd rhywun yn gyfrifol am ei gweinyddu hyd yr arwerthiant yn 1890. Tybed ai Jane Jones, yr howscipar oedd yn gwneud hynny? Arhosodd

hi yn Erw Pwll hyd o leiaf 1885, a hi oedd y Miss Jones nad oedd am ffermio mwyach. A phwy welai fai arni a hithau bellach yn 86 mlwydd oed?

Tra'n byw yn Erw Pwll roedd Jane Jones yn cyflogi dau o weision ar y fferm a dwy forwyn o gwmpas y tŷ. Roedd Griffith Griffiths yn was yno ac yn byw yno yn 1851 ac 1861. Yn 1869 priododd gyda Margaret Griffith, un o'r morynion, ac erbyn 1871 roedd y ddau yn byw yn rhif 3 Minffordd, Bethel, a Griffith yn parhau'n weithiwr amaethyddol. Dyna ugain mlynedd a mwy fel gwas ar yr un fferm. Erbyn 1881 roeddent wedi symud i Gaernarfon, a Griffith bellach yn disgrifio'i hun fel groser.

Yn 1881 roedd Jane Jones yn 82 mlwydd oed, gyda morwyn yn unig i gadw cwmni iddi. Ond ar noson y Cyfrifiad roedd ganddi ymwelydd; cyfreithiwr o'r enw Morris Owen. Ac yr oedd Morris Owen wedi ei eni ym Mhentrefoelas. Ond yr oedd Morris Owen hefyd wedi ei gofrestru yn 22 Stryd Tithebarn, Caernarfon fel lodjwr, ac yn y dref honno y bu'n gyfreithiwr ers 1874. Felly, a oedd cysylltiad rhyngddo a Jane Jones? Oedd – roedd Jane yn chwaer i'w fam, Sarah Owen a oedd yn byw ar Fferm Foelas ym Mhentrefoelas.

Mae'n ymddangos fod Jane Jones wedi marw rywdro rhwng 1885 ac 1891, ac erbyn y flwyddyn honno, Morris Owen, ei nai, sy'n byw yn Erw Pwll y Glo. Fo brynnod y tŷ a thua 50 acer o dir yn yr arwerthiant ym mis Awst 1890, a thalu £3,700 amdano. Arhosodd yng nghartref ei fodryb nes ei farwolaeth ym mis Chwefror 1916 gan adael bron i £55,000 yn ei ewyllys. Fe'i claddwyd ym Mhentrefoelas. Cawn wybod mwy am Morris Owen y mis nesaf.

Beth tybed ddigwyddodd i weddill eiddo Stad Erw yn arwerthiant 1890? Nid yw adroddiadau'r papurau newyddion yn taflu fawr o oleuni ar berchnogion newydd rhannau o'r hen stad. Yn ôl y *Caernarvon and Denbigh Herald*, gwerthwyd Tyddyn Andro/Andrew am £1,780 i Thomas Jones, Gwaith Llechi Pontrhythallt, Llanrug, ac aeth Tyddyn y Berth i'r tenant, sef Robert Thomas, am £2,000. Robert Jones, tenant 2 Turf Square, Caernarfon a brynnod yr eiddo hwnnw am £1,100, ac aeth yr *allotments* yn eiddo i Assheton Smith. Charles Evans a brynnod Tan y Ffynnon Cottages, Bethel am £150. Ond nid felly yn ôl y *North Wales Chronicle*. Assheton Smith a brynnod Tyddyn Andrew, Tyddyn y Berth a'r *allotments*. Rhyw WG Thomas a brynnod 2 Turf Square, a Charles Jones a brynnod Tan y Ffynnon. Ond mae'r prisiau yn y ddau bapur yn gytun.

Mae catalog yr arwerthiant ar gadw yn Archifdy Conwy, a cheir mwy o fanylion am yr eiddo yn hwnnw. Enwir Erw Pwll y Glo, (Llanrug a Llanddeiniolen), Tyddyn Andrew Uchaf, Tyddyn y Berth, Cefn Rhyd, Blaen y Parc, Tan y cae (*alias*

Ty'n Rardd), Tan y Ffynnon Cottages a Phen y Groeslon (Llanddeiniolen); Glanrhyd (Llanwnda) a Chemist and Druggist Shop, Turf Square, Caernarfon. Pan fydd llacio ar reoliadau, bydd angen ymweliad â'r archifdy yno rhag ofn fod mwy o wybodaeth ar gael.

Teulu Tŷ Newydd, Llanberis

Yn 1861 roedd gŵr gweddw o'r enw Thomas Owen yn byw yn Nhŷ Newydd gyda'i chwaer Ann. Yno hefyd roedd nith iddynt o'r enw Sarah Owen. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach roedd Sarah yn ddwy ar bymtheg oed ac yn cadw tŷ i'w hewythr. O fewn pum mlynedd byddai Sarah wedi priodi efo John Owen a oedd yn enedigol o Amlwch. Symudodd John i Dŷ Newydd, ac yno y ganwyd eu plant Jane (1875), Mary (1877) Thomas John (1878) a David (1881).

Yn fuan wedyn symudodd y teulu i 5 Bethesda Street, ac yno, yn fam ifanc, bu farw Sarah ddiweddd Tachwedd 1884. Bedair blynedd yn ddiweddarach bu farw ei hewythr Thomas, a oedd wedi symud gyda'r teulu o Dŷ Newydd. Roedd yn 84 oed. Claddwyd y ddau yn Nant Peris, ond nid yn yr un bedd.

O fewn ychydig flynyddoedd ail-briododd John gyda Jane, merch o'i ardal enedigol a chael pump arall o blant. Symud bu hanes John a'i ail wraig, gan fyw yn Elidir View (1891), Stryd Goodman (1901) a 36 Avon Terrace (1911). Roeddent yn dal yn 36 Avon Terrace yn 1919 pan fu farw eu merch Ellen Catherine o'r fflw yn Bradford. Yn 36 Afon Terrace y bu farw John Owens yn 83 oed a'i gladdu yn Nant Peris ar y 1af o Fawrth 1932.

Roedd gan Sarah dair o chwiorydd, ond symudodd un i Lerpwl a'r llall i Fanceinion. Arhosodd y drydedd yn ddi-briod. Yn ddiweddarach, symudodd Elisabeth o Fanceinion a mudo i'r America. Mae un o'i disgynyddion yno yn awyddus i ddod i gyswllt â pherthnasau yn Llanberis – os oes rhai. Mae eisoes mewn cyswllt â disgynyddion y chwaer a aeth i Lerpwl, ond nid oedd yn ymwybodol o fodolaeth Sarah am iddi gael ei magu gyda'i hewythr a'i modryb.

Roedd Jane a Mary, plant hynaf Sarah wedi symud i Fôn, a Thomas John i Landwrog. Methais a chael hanes David.

Ond tybed a oes rhai o deulu eu hanner brodyr a hanner chwiorydd yn dal yn yr ardal? Ganed Robert Arthur Owen yn 1887. Bu farw Ellen Catherine yn 1919. Roedd tri arall – Albert (1898), Ceridwen (1900) ac Enid (1905). Gallai'r rhain fod yn defnyddio'r cyfenw Owens yn hytrach nac Owen. A wnaeth unrhyw un ohonynt aros yn eu pentref genedigol?

Mae nifer o drigolion Llanberis eisoes wedi bod yn ymateb ar Facebook i geisiadau am luniau a gwybodaeth am gartrefi'r teulu – Glandwr, Snowdon Hall (sef yr Erw Fair presennol), Elidir View a Thŷ Newydd. Bûm innau'n olrhain yr achau – ar ochr mam Sarah yn ôl i Gilcain yn Sir y Fflint, ac ar ochr ei thad i'r Waunfawr.

Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth ychwanegol.
Dafydd Whiteside Thomas

www.chwilota.wordpress.com

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r Eco, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA (Ffon 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com

Ar ben arall i'r lein



Wel dyma ni unwaith eto, tymor arall wedi agor ei ddrws, be ddaw ein ffordd eleni tybed? Un peth calonogol oedd gweld rhai yn taflu'r bluen ar y Finiog ar fore'r diwrnod cyntaf sef y 3ydd Mawrth, a naddo es i ddim i lawr yr afon i weld os oedd rhywbeth yn gwneud – rhy ofnadwy o oer i rywun a'i waed yn teneuo! Wel na, tydi hynna ddim yr holl wir, cyn mynd i roi tro arni yn ystod Mawrth ac Ebrill byddaf yn ceisio anelu at oriau cynhesaf y dydd, sef o gwmpas amser cinio, wedyn byddaf yn cael golwg o Bont Cawia i lawr yr afon. Byddaf hefyd yn cael golwg ar gerrig ochr y bont i weld os oes pryfaid (stonefly) wedi deori o wely'r afon ac yn cael rhyw gynhesrwydd o'r cerrig – dyma'r amser i drïo hen ffeffryn cynnar y tymor sef y 'llwyd corff main'.

I rai sydd â diddordeb yn hen blu traddodiadol y fro, flynyddoedd yn ôl, wel i hollti blewyn yn ystod Medi 1993 oedd hi, cefais docyn o ddogfennau wedi eu marcio - 'copiwyd y

rhain yn 1930 oddi wrth D T Williams, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon'. Mae'r cynnwys yn drysor, ac o bosib yr unig un sy'n bodoli erbyn heddiw o bryfetach a'r plu sy'n eu hefelychu, ac yn bwysicach fyth y ffordd ar amser i'w pysgota. Flynyddoedd yn ddiweddarach cefais alwad o Archifdy'r Brifysgol ym Mangor, yn dweud fod yn eu meddiant ddyddiadur o gyfnod 1812 – 1824 yn cofnodi anturiaethau pysgota un Robert Thomas o Erw Pwll y Glo, Pontrug ar yr Afon Seiont a dyfroedd eraill y fro.

A wyddoch i be, tydi llawer o'r plu heb newid dim mewn dwy ganrif. Peth arall diddorol dros ben yw enwau'r pyllau, sydd eto heb newid; ac oes mae nifer o newidiadau dros y blynyddoedd, ond difyr dros ben yw gweld fod hen ystyr yr enwau gwreiddiol yn dal yn fyw hyd yr oes fodern yma. O hyn i gyd, un lleoliad sydd wedi bod yn drech arna'i i'w leoli yw Pont y Cynr, oes rhywun yn gwybod yn lle y mae?

Yn ogystal a'r uchod, mae

gennyf nifer o ohebiaeth rhwng y diweddar frodyr Rowlands o Lanberis a chyd bysgotwr o Lundain a fyddai yn ymwelydd cyson â dyfroedd yr ardal. Mae'r llythyrau yn dyddio o'r cyfnod rhwng 1930 a diwedd yr ail ryfel byd. Yn ogystal â dulliau pysgota chwyldroadol, mae cyfeiriad at roi brithyll a thorgoch ar y trên hwyr o Lanberis, a byddent ar fwrdd brecwast yn Llundain y bore canlynol. Sgwn i a fuasai Amazon yn medru gwneud yn well heddiw?

I ni fel pysgotwyr, ac mae'n siwr i nifer sydd â diddordeb yn hanes a datblygiad y fro yma, sgwn i a oes unrhyw un o ddarlennwyr yr *Eco* a fuasai yn gallu ein rhoi ar ben ffordd sut i roi'r rhain at ei gilydd ac efallai eu cyhoeddi? Bechod iddynt fynd yn angof.

'Dwi wedi dechrau arni ar glymu'r hen batrymau yma – dyma lun o rai 'rwyf wedi eu cwblhau.

Dros y misoedd diwethaf, er bod y clo mawr yn effeithio ar y rhan fwyaf o drigolion yr hen le 'ma, mae gwaith y gymdeithas wedi bod yn symud ymlaen. Rydym wedi bod yn eithriadol o ffodus o allu denu cymorth ariannol i uwchraddio a datblygu peth o'r eiddo. Mae gwaith ffensio ac addasu mynediad i'r afon Llyfni ar ein tir sy'n amgylchynu Melin y Cim wedi ei gwblhau. Yn ogystal, mae gwaith ar ail godi'r lanfa ar Lyn Nantlle wedi dechrau, ond yn y fan hyn mae'r tywydd wedi, ac yn dal i, amharu ar

y gwaith. Ar y Seiont rwy'n gobeithio bydd gwaith wedi dechrau yn ystod yr ail wythnos o Fawrth i ail drefnu'r fynedfa i faes parcio Cawia, ail godi'r ffens, gosod giât, ail wynebu'r bont droed sydd ar y Finiog i lawr yr afon o Bont Cawia, ac adeiladu pont newydd dros Ffos y Dail ar ei chydliad i Lyn Harry Parri. Symud wedyn i Bont Rug - gosod ffens a giât newydd yn y maes parcio, ac yn yr un lleoliad tynnu'r gamfa sigledig a rhoi giât droed newydd yn ei lle. Yn olaf, ail osod y giât ar fynedfa caeau Melin Bron Seiont, yn ogystal â gosod giât droed. Bydd mynediad yn dilyn y gwaith yn llawer mwy rhydd.

Mae rhai yn gofyn beth yw sefyllfa ein cais cynllunio ym Mhenllyn, a dal i ddisgwyl yw'r ateb mae gennyf ofn. Rwy'n trio fy ngorau i wneud synnwyr o be' sy'n dod allan o'r asiantaethau er mwyn cael mwy o wybodaeth a gwybod sut i ymateb iddynt. Un pwynt yw sut na fydd yr adeilad – cwt cwch ydi o cofiwch - yn mynd i amharu ar Safle Gwyddoniaeth Arbennig Llyn Padarn a Pen Llyn. Rwy'n ei chael yn anodd peidio â chyfeirio at y difrod a wnaethpwyd i'r safleoedd yma drwy'r difaterwch o wrthod gweithredu yn erbyn Dŵr Cymru am ei holl arllwysion o waith carthffos Llanberis a'r holl ddifrod a wnaethpwyd yn sgîl hyn. Ond fel yna mae pethau yn yr hen le yma mae gennyf ofn. Mi fydd yn rhaid i mi ddal i grafu fy mhen a brathu fy nhafod.

Huw Price Hughes



10 DEG Y DYSGWYR

Cyfle i ddod i adnabod siaradwyr Cymraeg newydd yr ardal drwy gyfrwng deg cwestiwn yr Eco.

Enw: Gillian Brown

Byw yn: Waunfawr.

Fy ngwaith a diddordebau: Bûm yn gweithio yn Antur Waunfawr am nifer o flynyddoedd, i ddechrau gweithio tu allan hefo criw o weithwyr yn torri gwair yng ngerddi'r pentref; wedyn fel rheolwr y siop yn gwneud crefftau, jam, siwti efo'r gweithwyr yn ogystal â rhoi help llaw efo gweithgareddau mawr megis agoriad y Parc Natur a'r Siop.

Erbyn hyn wedi ymddeol ydw i ac yn llenwi fy amser gyda garddio, cerdded, darllen a choginio. Rydw i hefyd yn un o griw bach yr ardal sydd wedi bod yn dysgu Llydaweg, a dwi wedi mwynhau yn arw y cyfleon a fu i ymweld â Llydaw ac aros efo teuluoedd yno, diolch i'r cynllun gefeillio rhwng Caernarfon a Landerne.

1. Roeddwn i eisiau dysgu

Cymraeg oherwydd:

Pan oedden ni'n byw yn Nyffryn Ardudwy daeth yr awydd i fynd ati i ddysgu Cymraeg o ddifri. Mi oedd ein merch yn yr Ysgol Feithrin yna, ac roedd sgwrs y mamau eraill yn fy nenu i wybod mwy, ac i fod yn rhan o'r gymdeithas.

2. Fel hyn wnes i ddysgu Cymraeg:

Dechreuais ddysgu fy hun allan o Teach Yourself Welsh, ac ysgrifennu tablau rhediad berfau ar ddarnau hir o bapur wal. Fues i'n gwrando ar Radio Cymru, ar gerddoriaeth gwerin Gymraeg, mynychu sioeau a dramâu yn Theatr Gwynedd a hyd yn oed cymryd rhan mewn Eisteddfod Bentref. Mi ddarllenais lyfrau plant efo fy merch a gwirioni efo nhw. Ymhen dipyn fues yn ymdrechu i wneud fy siopa yn Gymraeg, ac mi oedd Mr Thomas y cigydd yn amyneddgar iawn efo fi. Weithiau mi oedd pishyn o bapur yn fy llaw efo ambell frawddeg neu air i fy atgoffa rhag ofn i fi fynd ar goll. Gyda chymorth fy nheulu

a chefnogaeth pentrefwyr mi wnes i lwyddo pasio Lefel-O Cymraeg yng nghanol dosbarth o blant yr ardal, oedd yn dipyn o her!

3. Y peth gorau am ddysgu Cymraeg yw:

Cael ffenest arall ar y byd. Mi ydw i'n manteisio ar bob dim drwy'r iaith Gymraeg ym mhob maes ac yn dotio at eiriau newydd a'r cysylltiadau rhwngddynt, na faswn i'n gwybod amdanynt heblaw fy mod wedi dysgu'r iaith - mewn meysydd celfyddydol, byd natur, hanes. Mae hefyd yn bwysig imi allu i siarad efo pobl yn eu mamiaith.

4. Y peth gwaethaf am ddysgu Cymraeg yw:

Gorfod dioddef agweddau di-glem a dilornus pobol gwrth-Gymraeg.

5. Dyma fy hoff air neu ddywediad Cymraeg:

'Strimstramstrellan pendramwnwal i lawr...' (os dwi'n cofio'n iawn!) allan o hanesion Ianto Poitsi Poits, y copi ges i fenthg o Lyfrgell Dolgellau amser maith yn ôl!



6. Gall siaradwyr mamiaith helpu dysgwyr drwy:

Fod yn barod i'w cynnwys mewn gweithgareddau sydd yn naturiol yn yr iaith Gymraeg heb gyfieithu pob dim, er mwyn i ddysgwyr glywed sgysiau naturiol a phrofi rhythmau'r iaith. Hefyd bod yn amyneddgar a dechrau pob sgwrs yn y Gymraeg.

7. Fy moment fwyaf balch wrth ddysgu:

Cael fy newis i siarad mewn rali Plaid Cymru yn lle Julie Christie, oherwydd bod fy Nghymraeg i yn well!

8. Fy nhro trwstan mwyaf wrth ddysgu:

Pan ges i swydd Trysorydd yn Ysgol Feithrin Dyffryn Ardudwy a finnau'n o lew

o rhugl, dyma Anti Beti yn gofyn yn garedig i fi rhyw ddiwrnod os oedd hi'n bosib i fi lenwi'r sieciau yn Gymraeg - doedd y peth ddim wedi croesi fy meddwl! Wps!

9. Rydw i'n sbarduno fy hun i barhau i ddysgu drwy:

Ddod yn aelod o ddau grŵp ar y rhwngwrwyd sef Cymuned Llên Natur a iaith, lle mae modd ehangu fy ngwybodaeth a geirfa yn fwy fyth.

10. Dyma mae'r iaith Gymraeg yn ei olygu i mi:

Pleser, Hyder, a Chyfeillgarwch.



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triplau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

GERAINT OWEN
CARPEDI
Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475

CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

Persbectif ar y Papurau Bro

Roedd hi'n bleser cael anerchiad gan un o wynebau fwyaf cyfarwydd y byd newyddiadura, Huw Edwards, mewn cyfarfod cenedlaethol i'r Papurau Bro yn ddiweddar. Diolch iddo am gytuno i ni rannu ei eiriau er mwyn i chi ddarllenwyr fedru eu mwynhau hefyd.

Y peth pwysicaf i'w ddweud yn syth yw bod ein papurau bro wedi gwneud cyfraniad aruthrol o bwysig dros y blynyddoedd, ac yn dal i wneud. Darparu newyddion a rhannu gwybodaeth yn deg ac yn gyfrifol yw hanfod y busnes. Ac mae'r busnes hwnnw yn fwy gwerthfawr nag erioed.

Dros y blynyddoedd, bu ambell gydweithiwr yn snobyddlyd iawn o ran newyddion 'lleol'. Peth afiach yw hynny. Mae newyddion o bob math yn gallu bod yn bwysig neu'n ddiddorol neu'n ddefnyddiol, boed leol ai peidio. Mae deunydd 'newyddion' yn cynnwys sbectrwm eang iawn o weithgaredd a gwybodaeth.

Cofiaf yn glir yr adeg pan sylweddolais beth yw gwerth newyddion bro. Ym mis Medi 1974 roedd cyffro mawr yn ardal dwyrain Caerfyrddin a gorllewin Morgannwg. Roeddem yn aros am lansiad radio masnachol cyntaf Cymru, sef Sain Abertawe. Digwyddiad o bwys oedd hwnnw, nid yn unig i'r gymuned leol, ond yn sicr hefyd i bobol fel fi a'u diléit yn y maes darlledu a newyddiadura. Gwasanaeth 'dwyieithog' a gafwyd, a hynny yn orfodaeth arnynt oherwydd balans ieithyddol y dalgylch. Roedd mwyafrif y rhaglenni yn Saesneg, wrth gwrs, gyda bwletinau newyddion yn Gymraeg yn ystod y dydd, a rhaglenni Cymraeg gyda'r nos. Pwysigrwydd y lansiad oedd bod pobl ddim yn gaeth bellach i wasanaethau BBC Cymru a HTV Cymru. Bu'r orsaf newydd yn ysgubol o lwyddiannus, a rhan o'r gyfrinach oedd mentro i mewn i fywydau pobl yn yr ardal a cheisio deall beth oedd yn eu diddori a'u plesio a'u cythruddo.

Ym 1977 ymddangosodd Radio Cymru, a Radio Wales y flwyddyn ganlynol. Ceid elfennau lleol yn y gwasanaethau hynny, ond gorsafodd cenedlaethol yw'r ddwy, a'u pwrpas yn wahanol iawn i Sain Abertawe.

Roedd y papur bro cyntaf - Y Dinesydd - eisoes wedi cyrraedd ym 1973, gan lansiad cyfnod o dwf cyffrous. I mi, profwyd yn syth bod newyddion ar lefel leol yn beth gwerthfawr iawn o safbwynt cynnal cymuned, gan alluogi pobl i rannu gwybodaeth a rhannu straeon. Heb wasanaeth felly, mae cymunedau yn gallu bod yn ddigyswllt a rhanedig. Mae papurau bro yn hanfodol bwysig o ran dal cymunedau ynghyd.

Dylid nodi'n syth bod papurau lleol Cymru wedi cynnig rhywfaint o Gymraeg dros y degawdau. Roedd y Llanelli Star â'i golofn Gymraeg (symbolaidd) bob dydd Sadwrn.



Ond yn rhy aml yr hyn a geid oedd darn ar farddoniaeth (sori, dim diddordeb) neu hanes rhyw bregethwr (cynffonllyd, fel arfer) neu rywbeth arall cwbl amherthnasol. A dyna un o'r ffactorau yn llwyddiant y papurau

bro, oherwydd y bwlch enfawr yn y farchnad, y farchnad newyddion go iawn i Gymry Cymraeg. Gwasanaeth cymdeithasol nodweddiadol, felly, gan gynnig llwyfan i bobl i ddweud eu dweud, i rannu straeon, i apelio, i ofyn am gymorth, i rybuddio, i ddathlu – y cyfan yn rhan o'r broses bwysig o newyddiadura, sef chwilio

am bethau diddorol, a chwilio am bethau nad yw pobol yn gwybod amdanynt.

Mae hyn yn bwysig hefyd o ran democratiaeth. Mae problem o safbwynt cael ffocws clir iawn ar waith awdurdodau lleol a chynghorwyr, a rhai cyrff cyhoeddus sy'n llai atebol nag y dylent fod. O ran iechyd democratiaeth leol, mae'r papurau bro yn gryfder, gan sôn am broblemau lleol fel



Diolch i Fentrau Iaith Cymru am y lluniau – Cartoon gan Mumph fel rhodd i Huw Edwards

cynllunio, tai, a pholisi iaith. Bellach mae nifer o'r papurau bro ar-lein, ac mae modd iddynt gyrraedd eu hetholaethau ar draws y byd.


Bu dyfodiad gwefan BBC Cymru Fyw yn gam enfawr ymlaen i ni Gymry Cymraeg. Cawn ganddo gyfuniad o'r rhyngwladol, y cenedlaethol a'r lleol. Mae S4C yn datblygu ei gwasanaeth newyddion ei hun ar-lein ar hyn o bryd, sef carreg filltir arall. Dylem weld y datblygiadau hyn yng nghyd-destun y byd newyddion ehangach. Gallwn weld byd o gyfryngau sy'n cynnig mwy o ddewis i Gymry Cymraeg, mwy o ffocws, mwy o gwestiynu, a mwy o gyfuno rhwng y lleol, y cenedlaethol a'r rhyngwladol.

Mater arall yw gofyn a oes gan y papurau bro adnoddau digonol i ateb yr her. Mae angen adnoddau dynol, technegol ac ariannol i ddatblygu cyhoeddiadau ar-lein yn broffesiynol, a'r gallu hefyd i wirio'r cynnwys yn ofalus. Mae'r gwaith presennol ym myd y papurau bro yn arwrol, ond bydd eisiau mwy o gefnogaeth er mwyn i'r sector flodeuo a thyfu i fod yn rhywbeth hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol. Llongyfarchion i bawb ar y gwaith rhagorol. Ymlaen!

Huw Edwards

CROESAIR

EBRILL 2021



AR DRAWS

- 1 Stesion (6)
- 4 Mynd yn ddrwg (5)
- 8 Symud yn gyflym (5)
- 9 Lle y mae cwrw yn cael ei facsu (6)
- 10 Atgoffa rhywun am hen fai (5)
- 11 Rhan o gant (6)
- 12 Y gallu i ymdrin â phobl heb godi eu gwrychyn (4)
- 14 Rheswm annilys neu gelwyddog (5)
- 18 Bro (5)
- 19 Meddyg (6)
- 20 Israniad (5)
- 21 Planhigyn â blas drwg sy'n cael ei ddefnyddio weithiau fel moddion (6)

I LAWYR

- 1 Brwydr gystadleuol (7)
- 2 Teclyn crafu blew (5)
- 3 Rhywun sy'n addoli (6)
- 5 Tref yng Ngogledd Cymru ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr (1, 4)
- 6 Cyboli (6)
- 7 Ffrâm neu fwrdd sy'n gymorth i rifo (6)
- 13 Grymus (6)
- 15 Anifail chwedlonol (6)
- 16 Bechgyn neu ferched ifanc (5)
- 17 Atalnod (5)
- 18 Math o ffrwyth (4)
- 19 Gwrol (4)

Atebion Croesair Rhifyn Mawrth

Ar draws: 1 Clebran, 5 Gras, 7 Newid, 8 Waldio, 9 Loncian 10 Rŵan, 11 Graenu, 13 Cablu, 14 Aberth, 16 Uno, 19 Esmor, 20 Etifedd

I lawr: 1 Cenel, 2 Egan, 3 Rwdlian, 4 Newynu, 5 Galarnad, 6 Anifail Anwes, 12 Abermo, 14 Aber, 15 Therm, 16 Edwyn, 17 Ael, 18 Sil



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

ECO'r Wyddfa

Hoffech chi
hysbysebu
eich busnes
yma?

Cysylltwch
â'n Trefnydd
Hysbysebion a
Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

I Llên Natur


Eich adborth chi i ddyddiadur Eric Jones

Cafwyd tipyn o ymateb gennych am fywyd a helyntion Eric Jones - dyn y siop llyfrau Cymraeg ar y Bont Bridd, Caernarfon yn y 60au. Bu'n rhaid hefyd imi hepgor ambell i hanesyn oherwydd diffyg gofod, felly dyma neilltuo colofn Llên Natur y mis hwn i lenwi'r bylchau (er nad oes llawer am natur yn eu plith!).

Pwy a wyddai bod ein harwr yn ffan cudd o gynnyrch Hollywood. Mwynhaodd aml i ffilm o'r stabal honno, yn un o 'bictiwr's' Caernarfon neu'r Plaza ym Mangor mae'n debyg (ni fyddai Eric wedi dweud 'pictiwr's' efallai). Gwelodd ffilm o'r enw 'Miss Pilgrim's Progress' ym mis Mai 1961 gan ofalu nodi iddi dderbyn tystysgrif X gan sensor y cyfnod! Yn ôl adref

ym Mhontllyfni, ar ôl gwranddo ar raglen 'Llofft Stabl' ar y radio (cofio honno?), gofalodd diwnio ei 'deledydd' (ys dywedodd bob amser) yn syth wedyn i wyllo un o'i hoff raglenni am y twrnai hwnnw o Los Angeles, Perry Mason. Straeon oedd y rhain am yr arwr anabl o gorff yn datrys pob math o lofruddiaethau ffaidd o'i gadair olwyn, o dan deitlau'r un mor fformiwleidd â'r cynnwys. Yr enghreifftiau a nododd Eric oedd "The Case of the Hesitant Hostess" a "The Case of the Lazy Lover". Ffoniodd un o ddarllenwyr yr Eco yma i ychwanegu hanesyn arall am Eric, ac wrth sgwrsio dyma fi'n sôn wrthi am ei ffyddlondeb i'r hen Berry Mason, a'r ymateb yn syth bin oedd "... ia, a Della Street!". Dyna gymeriad arall o'r gyfres aeth a fi ar fy mhen yn ôl i'r 60au! 'Della Street' oedd y Tonto i Lone Ranger y twrnai craff (a dyma fi yn cael fy nghario'n ddyfnach i ddyddiau diniweitiach yr oes a fu!)

Byrdwn yr alwad ffôn oedd hyn: Dywedodd i Eric alw arni ar draws y stryd unwaith gan weiddi "Mae arna'i bres i chi". A dyma fo'n estyn bocs o fatsys a thynnu allan y ddyled briodol - bocsys matsys mae'n debyg oedd cadw-mi-gei ei gyfrifon siop! Ces fy atgoffa hefyd o achlysur Arwisgiad Fawr '69 pan gynigwyd pot paent am ddim gan Gyngor y



Dref i bob siop ar Y Bont Bridd i roi 'facelift' i lwybr yr osgordd bwysig. Ymateb Eric Jones? Dim ffiars!! Arhosodd Siop Llên Gymraeg y Bont Bridd fel y bu erioed, yn ddigynfnewid drwy'r jamborî, yn ei holl ogoniant myglyd a thywyll - a'r siop honno yn cael mwy o sylw o'r herwydd nag a gafodd erioed o'r blaen. Mae'n amlwg na chafodd Eric ei gydnabyddiaeth haeddiannol fel dyn busnes craff! Do, fe wisgodd Eric Jones ei wleidyddiaeth ar ei lawes gyda balchder. Dyna oedd byrdwn neges arall a gefais gan ddarllenwr arall yr Eco a gysylltodd â fi - bod y Prifardd Geraint Lloyd Owen wedi dyrchafu Eric i'r rhengoedd arwrol gyda cherdd i'r union berwyl hwnnw.

Duncan Brown

Eric Jones (Llyfrwerthwr yng Nghaernarfon)
Ni roes ar werth mo'i werthoedd; ei galon
Oedd golud ei silffoedd;
I'w fyd rhy araf ydoedd,
Yn rhy fwyn i'w ganrif oedd.

Fel hyn bob dydd diflannwn; fesul un,
Fesul awr ffarweliwn
Â'r Cymreictod hynod hwn,
Diwylliant nas deallwn.

Cymru ar Stampiau'r Byd

Stampiau Post a'u Cysylltiadau Cymreig


Cyrol newydd gan Dafydd Guto a Twm Elias (cyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch), ar gael yn eich siop lyfrau lleol.

Cyhoeddwyd stampiau gan rai cannoedd o wledydd mawr a bach ymhob cwr o'r ddaear erbyn hyn - rai ohonynt yn ynsoedd bychain llai o faint nag Ynys Môn. Ond beth am Gymru? Wrth ddarllen y gyfrol hon mae'n bosib y byddwch yn rhyw feddwl pam nad oes gennym ni stampiau post ein hunain? Yr unig beth sydd gennym yw stampiau rhanbarthol digon di-nod ac ambell stamp coffa mewn cyfresi Prydeinig. Er mor amharod fu'r sefydliad Prydeinig i gynnwys elfennau Cymreig ar eu stampiau - e.e. Cofio Hedd Wyn 2017 - mae ambell stamp (mewn sawl gwlad) yn adrodd stori neu'n cyflwyno cysylltiad Cymreig. Mae'n debyg mai un o'r stampiau prinaf a drutaf sydd â chysylltiad Cymreig iddo yw stamp 15c, Abraham Lincoln, 1867 o'r Unol Daleithiau, sydd yn werth rhyw £200,000.

Mae mwy i'ch synnu a'ch difyrru yn y casgliad hwn. Casgliad, gobeithio, a welwn yn tyfu'n eithriadol pan fydd gan Gymru'r hawl i gyhoeddi ei stampiau annibynnol ei hun. Wedi'r cyfan os gall ynsoedd

megis Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw gyhoeddi stampiau deniadol, a gwneud elw sylweddol ohonynt, pam na all Cymru? Bu'r stampiau o fudd mawr iddynt i hyrwyddo'r economi a thwristiaeth ac yn gyfrwng addysgiadol pwysig i gynyddu ymwybyddiaeth yr ynyswyr hen ac ifanc o'u treftadaeth gyfoethog.

Wrth olrhain y straeon a'r digwyddiadau Cymreig sydd wedi amlygu'u hunain ar stampiau'r gwledydd, neges fawr y gyfrol hon ydi mai ond megis dechrau mae taith Cymru ar stampiau'r byd.



Sylwi wrth basio

Fel cyn-droellwr y maes criced cefais bleser o weld sgiliau'r ddau droellwr Indiaid Axel ac Ashwin yn y gyfres brawf diweddar. Roedd eu rheolaeth o'r bêl drwy'r awyr, cyflymdra a hyd glanio y bêl yn wefreiddiol. Oedd, roedd y lleiniau yn eu ffafrio ond roedd yr ystadegau yn awgrymu mai'r bêl nad oedd yn troelli oedd yn cymryd y wiced. Peth peryglus i fatiwr ar unrhyw lefel yw dyfalu yn hytrach na chwarae beth sydd o'i flaen. Yn amlwg, roedd y frwydr feddyliol wedi ei hennill gan yr Indiaid. Bydd yn ddiddorol gweld sut bydd batwyr carfannau Lloegr yn y gemau T20 a'r 50 pelawd yn ymateb. Ai ymosod yw'r ateb?

.....
Pwy a sut mae rhan helaeth o'r pêl-droedwyr a welwn yn yr Uwch Gyngghair yn cael torri eu gwallt yn ystod y Clo? Maent fel ceiliogod-dandi â'r patrymau rhyfedda i'w gweld. Efallai eu bod yn hunan-dorri neu fod pob un yn â'r partner i ferch torri gwallt. Rydw i fel Hwfa Môn!

.....
Beth yw'r sefyllfa ynglŷn â Ryan Giggs fel rheolwr Cymru? Datgelwyd mai Robert Page fydd wrth yr awenau am dair gêm nesaf Cymru yn ystod mis Ebrill, ond be' ddaw y tu hwnt i hynny? Tybed a ddaw gŵr doeth o'r Dwyrain i ateb y galw? A welwn Osian yn dychwelyd i'w dir Na Nog at y parablus blant y bu yn gyfrifol am eu meithrin i fod yn aelodau blaenllaw o'r garfan genedlaethol bellach?

.....
A yw gyrfa Wayne Hennessey ar y llwyfan mawr drosodd? Does dim sôn amdano yng ngharfannau Palace ac annheg fuasai ei roi rhwng y pyst i Gymru. Safle'r gôl-geidwad yw'r man gwan. Ond, tybed a oes gobaith ym mherfformiadau Phillips yn y gôl i Ddinas Caerdydd. 10 gêm heb golli a 5 llechen lân mewn cyngghair gystadleuol a chorfforol. Posiblwydd pendant.

.....
AIL-GYCHWYN O'R NEWYDD

Fel mae Mared yn nodi mae'r frwydr am Bencampwriaeth Pêl-droed Cymru wedi ail danio, ac wrth gwrs ein gemau byw gan raglen Sgorio. Ond beth am ein clybiau lleol. Yn swyddogol, nid yw Llanrug, Llanberis a Waunfawr wedi cael manylion o strwythur y cyngghreiriau. Mae'n ymddangos mae rhyw addasiad o Gyngghair Gwynedd/Môn gynhwysfawr fydd dewis yr awdurdodau. Un peth sy'n sicr yw bod tymor 2020/21 wedi ei ohirio. Y bwriad yw gobeithio ailgychwyn o'r newydd ym mis Awst. O ran cynnal carfannau caed cytundeb fod pob chwaraewr oedd wedi ei gofrestru gan y clybiau ar gyfer tymor 2020/21 yn aros ar lyfrau'r clybiau hynny. Edrychwn ymlaen. Gyda llaw, â'i Eifion Williams yw rheolwr cyntaf yn hanes clwb Llanrug i fynd trwy dymor llawn heb golli gêm?

Richard Lloyd Jones

Uwchgynghair Cymru yn dychwelyd

Ar ôl dros 2 fis o seibiant fe ddychwelodd Uwchgynghair Cymru ar ddechrau mis Mawrth. Cafodd y Gynghair ei oedi ar 22ain Rhagfyr a doedd dim dyddiad pendant wedi ei gadarnhau ar gyfer parhau gyda'r tymor nes iddo gael ei gyhoeddi mis Chwefror y byddai'r gemau yn ail gychwyn ar 2il Mawrth. Mae tymor Uwchgynghair Cymru yn cael ei rannu'n ddau felly'r gobaith yw i gwblhau'r hanner cyntaf erbyn y Pasg. Yn ystod ail ran y tymor bydd y 6 tîm sydd ar frig y tabl yn chwarae yn erbyn ei gilydd a bydd y 6 tîm ar waelod y tabl yn chwarae yn erbyn ei gilydd.

Cyn y toriad Y Seintiau Newydd (TNS) oedd ar frig y tabl gyda 44 pwynt ond roedd Cei Connah yn dynn ar eu holau gyda 41 pwynt a gydag un gêm yn fwy i chwarae. Roedd Cei Connah ar rediad da cyn y toriad, wedi ennill 8 gêm allan o 8! Ym mhen arall y tabl roedd Aberystwyth oedd ond ar 10 pwynt.

Y Drenwydd oedd yn croesawu Penybont i ail gychwyn pethau. Cafodd y gêm hon ei chwarae nos Fawrth 2il Mawrth. Ar ôl dim ond 9 munud o chwarae fe fethodd Y Drenwydd ar gyfle i fynd ar y blaen gan fethu cic o'r smotyn. Tyrone Ofori welodd ei ergyd yn cael ei arbed gan Ashley Morris yn gôl Penybont. Fe wnaeth Ofori fyny am ei gic o'r smotyn fodd bynnag gan sgorio cyn hanner amser. Fe orffennodd y gêm yn 2 - 0 i'r Drenwydd gyda James Davies yn sgorio'r ail.

Roedd Dydd Sadwrn 6ed Mawrth yn llawn gemau yn Uwchgynghair Cymru! Rhywbeth oedd yn braf i'w weld unwaith eto. Roedd Y Drenwydd yn chwarae eto, y tro yma yn teithio i Cei Connah. Fe lwyddodd y Drenwydd i fynd ar y blaen a cyn chwarae hanner awr roedd Cei Connah lawr i 10 dyn. Roedd pethau i'w gweld yn edrych yn dda i'r Drenwydd felly. Cyn hanner amser er hynny fe ddaeth Cei Connah nôl mewn i'r gêm gan sgorio gôl i'w gwneud hi'n gyfartal. 2 - 1 i Cei Connah oedd y sgôr terfynol wrth i Mike Wilde sgorio ei 10fed gôl o'r tymor i ennill y gêm yn yr ail hanner. Roedd Penybont hefyd yn chwarae unwaith eto wrth iddyn nhw deithio i'r Fflint. Sgoriodd Nathan Wood ar ôl 12 munud a dyna oedd unig gyffro'r gêm wrth iddi orffen yn 1 - 0 i Penybont.

Cic o'r smotyn gan David Cotterill roddodd fuddugoliaeth i'r Barri wrth iddyn nhw chwarae oddi cartref yn erbyn y Derwyddon Cefn. Dwi'n siŵr fod yr enw yna yn gyfarwydd iawn i nifer, yn enwedig y rhai ohonoch chi sydd yn dilyn tîm pêl-droed Cymru. Cafodd David Cotterill 23 cap i Gymru ac roedd yn rhan o garfan Chris Coleman yn Euro 2016. Cic o'r smotyn oedd hefyd yn gyfrifol am fuddugoliaeth 1 - 0 Hwlffordd yn erbyn Met Caerdydd. Fe gafodd Hwlffordd eu dyrchafu i'r Uwchgynghair y tymor yma ac maent yn gobeithio y gallent gadarnhau eu lle yn y 6 uchaf ar gyfer ail hanner y tymor.

Tîm arall sydd yn brwydro gyda Penybont am le yn y 6 uchaf ydi Caernarfon. Adref yn erbyn Aberystwyth oedd eu gêm gyntaf

nhw yn nôl. Aeth Aberystwyth ar y blaen yn yr hanner cyntaf ac fe gymerodd tan y pum munud olaf i Gaernarfon ddod o hyd i gefn y rhwyd. Sgoriodd Caernarfon 2 gôl mewn 2 funud ac yn sicr roeddent yn credu eu bod wedi cipio 3 phwynt ond doedd Aberystwyth ddim yn fodlon gadael yn waglaw. Fe sgoriodd Jamie Veale yn yr amser ychwanegol er mwyn sicrhau fod y pwyntiau yn cael eu rhannu.

Doedd dim gymaint o gyffro yn y gêm rhwng TNS a'r Bala. Cafodd y ddau dîm digon o gyfleoedd ac roedd TNS yn meddwl eu bod wedi torri'r 'deadlock' wrth iddyn nhw gael y bêl i gefn y rhwyd ond roedd yna gamsefyll yn arwain fyny at y gôl. Fe orffennodd y gêm yn ddi-sgôr. Braf hefyd yw gweld fod Danny Gosset yn nôl yn nhîm Bala yn dilyn salwch. Dymuniadau gorau i ti Daniel.

Newyddion mawr oddi ar y cae yn yr Uwchgynghair oedd bod Hwlffordd wedi arwyddo cyn-chwaraewr Caerdydd Jazz Richards. Mae Jazz Richards wedi ennill 14 cap i Gymru ac fel David Cotterill roedd yntau yn rhan o garfan Cymru yn Ffrainc yn 2016.

Roedd dau ymadawiad yn yr Uwchgynghair yn ystod y mis gyda rheolwyr TNS a Derwyddon Cefn yn gadael eu clybiau. Fe adawodd Scott Ruscoe TNS ar ôl 19 mlynedd gyda'r clwb. Roedd wedi treulio sawl blwyddyn yno fel chwaraewr cyn cymryd yr awenau fel rheolwr yn 2017. Roedd y newyddion yma yn dipyn o sioc i ddweud y lleiaf! Bruno Lopes oedd y rheolwr arall i adael, roedd wedi bod wrth y llyw gyda Derwyddon Cefn am 6 mis felly cyfnod byr iawn yn dod i ben iddo ef.

Gobeithio wir y bydd y tymor yn cael gorffen yn iawn flwyddyn yma a bydd dim rhaid dod a'r chwarae i ben unwaith eto. Fel mae pethau yn sefyll ar hyn o bryd Cei Connah sydd ar y brig gyda 47 pwynt. Ydyn nhw am lwyddo i ennill dau dymor yn olynol? Neu ydi TNS am gipio'r teitl am y bedwaredd tro ar ddeg? Mae un peth yn sicr, mae'n braf cael y pêl-droed yn nôl!

Mared Rhys





O Lanberis i Stamford Bridge

Mae Ben Jones sydd yn 28 mlwydd oed ac wedi ei eni a'i fagu yn Lanberis yn gweithio fel *Lead Youth Recruitment Analyst* i glwb pêl-droed Chelsea. Cafodd ei addysg yn Ysgol Dolbadarn ag Ysgol Brynrefail cyn mynd i astudio Gwyddoniaeth Chwaraeon ym Mhrifysgol Bangor. Yn dilyn hynny fe astudiodd PHD efo Bwrdd Criced Cymru a Lloegr. A minnau yn gefnogwraig mawr iawn o Chelsea fe gefais i'r pleser o'i holi am y swydd a sut yr aeth ati i weithio i un o glybiau mwyaf y byd.

Rwyf ti yn Youth Recruitment Analyst gyda clwb pêl-droed Chelsea yn Uwchgynghrair Lloegr, felly eglura mw y ni am y math o waith rwyf ti'n ei wneud o ddydd i ddydd.

Mae 'na elfen fawr *operations* i'r swydd, trwy weithio gyda sgowntiaid i drefnu gêmâu, yn enwedig cystadlaethau ieuencid rhyngwladol fel yr Ewros. O ddydd i ddydd, fy mhrif dasgau yw dadansoddi data sy'n dod nôl fel rhan o adroddiad sgowntiaid ar chwaraewyr dan 9, i fyny at 18 oed. Yn dilyn hynny, mi ydw i hefyd yn gyfrifol am gasglu gwahanol ffynonellau gwybodaeth at ei gilydd er mwyn ceisio sicrhau fod y chwaraewyr mwyaf talentog gyda'r potensial i ddatblygu yn bellach yn cael eu hadnabod mor fuan â phosib, fel bod y clwb yn medru gweithredu a gwneud penderfyniadau gwybodus ar y chwaraewyr.

Sut est ti ati i fynd i mewn i'r maes yma o waith? Oedd o'n rhywbeth roedddest ti wedi meddwl ei wneud ers amser?

Es i mewn i'r maes drwy fethiannau fy hun fel chwaraewr! Mi oedd diddordeb gen bob amser mewn trio deall sut i wella fy hun fel gôl-geidwad; pan wnes i sylweddoli nad oeddwn i'n gallu gwneud hynny fel gyrfa, mi nes i benderfynu mai'r cam gorau nesaf i mi fyddai sianelu'r *passion* yma i allu ychwanegu gwerth i siwrne (mwy llwyddiannus, gobeithio!) pobl eraill. Roeddwn dal yn astudio ar y pryd, a wnaeth hynny weithio yn dda. Yn gyntaf oll oherwydd gwybodaeth a brwdfrydedd fy athrawes addysg gorfforol i yn Ysgol Brynrefail, Sian Harris, ac wedyn trwy gael fy nerbyn i astudio gwyddoniaeth chwaraeon ym Mhrifysgol Bangor.

Beth ydi dy hoff beth di am y swydd?

Mae pêl-droed wedi bod y rhan flaengar o fy mywyd i, ac mae gallu parhau gyda hynny a galw fo yn waith yn freuddwyd yn ei hun. Yn benodol, fel *analyst*, fy mhrif rôl i yw hel ffynonellau gwybodaeth gwahanol at ei gilydd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau mor glir â phosib. Dwi felly yn gwerthfawrogi'r cyfle sydd gen i i roi llais a chwarae teg i chwaraewr trwy fy ngwaith. Dwi hefyd yn edrych ymlaen at fedru gwylio pêl-droed drwy ffenest y swyddfa!



Sut mae Covid-19 wedi effeithio ar bethau? Wyt ti'n rhagweld y byddi di'n mynd i Lundain yn y dyfodol agos?

Cychwynnais y swydd o adref yn ystod y cyfnod clo, ym mis Awst blwyddyn ddiwethaf. Dwi 'di synnu fod pethau wedi mynd yn iawn wrth weithio o adref, er fy mod i ond wedi cyfarfod fy nghydweithwyr dros sgrin. Dwi'n siŵr fod y mwyafrif o bobl wedi addasu i weithio o adref, a hefyd yn gobeithio i raddau y bydd 'na opsiwn i weithio o adra yn fwy aml yn y dyfodol. Mi fyddai'n symud i Lundain rywbryd yn yr haf, unwaith y bydd y byd yn dechrau agor i fyny eto! Er dwi'n *excited* i symud, mae treulio'r *lockdown* yn yr ardal wedi gwneud i fi werthfawrogi'r ardal mwy nag erioed bosib.

Pa fath o ddiddordebau eraill sydd gen ti tu allan i dy waith? Wyt ti'n dilyn dipyn ar bêl-droed?

Chwarae ac gwylio pêl-droed – a nawr fwy nag erioed dwi'n sylweddoli does dim yn curo gêm fyw! Hefyd teithio, mi oedd hi'n fraind cael mynd i Batagonia llynedd a chlywed plant Archentaidd-Cymraeg yn canu'r anthem. Rhywbeth dwi heb wneud eto ydi cyfuno pêl-droed gyda teithio i wyllo pêl-droed dramor, ond mae o ar y rhestr gen i.

Fel cefnogwr Manchester United sut beth ydi o felly i weithio i Chelsea?

Mae pawb yn yr un cwch lle mae'n rhaid gwahaniaethu bywyd personol a proffesiynol. Rydym ni gyd yn gwneud hyn beth bynnag yw ein gwaith.

Lle fydd ti'n licio gweld dy hun mewn deg mlynedd?

Dal i weithio o fewn y maes chwaraeon wrth lwc, oherwydd nid oes gen i awydd gwneud dim byd arall ar hyn o'r bryd. Dwi wedi gweithio gyda Bwrdd Criced Lloegr a Chymru a'r FAW fel ymgynghorydd hyd yn hyn, ac felly buaswn yn hoffi adeiladu ar y gwaith yma yn y tymor hir i allu helpu i barhau datblygiad y llwybr talent yng Nghymru, ac yn enwedig yn y gogledd!

Oes gen ti unrhyw tips i rywun sydd efallai efo diddordeb mewn gweithio yn y maes yma?

Dwi'n meddwl 'na un o'r prif bethau'r dyddiau yma ydi i drio sefyll allan mor fuan ag sy'n bosib, gan fod 'na dueddiad i bawb edrych yn debyg ar bapur. Dwi'n meddwl fod datblygu *work ethic* yn weddol ifanc, wrth gael swyddi rhan amser sy'n rhoi 'sgiliau pobl', meddwl ar dy draed ac i ddatrys problemau, hyd yn oed os dydi'r swyddi ddim yn berthnasol i'ch hoff yrfa tymor hir, yn sicr am fod yn fwy o help na rhwyst.

Hefyd, ddim arbenigo mewn pwnc neu swydd yn rhy fuan os dach chi ddim yn siŵr beth ydi'r gôl tymor hir. Os allwch ymestyn y broses benderfynu yma wrth aros mewn addysg, i ddatblygu sgiliau yn y cyfamser, tra does na ddim gymaint o bwysau pres ac ati, mae hynny am gadw'r opsiynau yn agored heb ormod o *consequences*.

Yn benodol hefyd i ddysgu a gweithio mewn chwaraeon, mae Prifysgol Bangor yn cynnig llwybr i rai fyddai gyda diddordeb mewn gyrfa yn y maes. Mae'r gymysgedd o ddysgu ac ymchwil o'r safon uchaf, a chysylltiadau gyda nifer o sefydliadau chwaraeon yn meddwl fod y Brifysgol ddim yn unig yn rhoi sylfaen academaidd i bobl ond yn hefyd rhoi cyfleoedd i gymhwyso'r sgiliau yn y maes er mwyn gallu dangos canlyniadau clir a pherthnasol pan yn ceisio am swyddi yn y dyfodol. Mae rhai o fy ffrindiau sydd wedi astudio ym Mangor wedi cyd-weithio ar brosiectau efo clybiau fel Man City a Leeds United, a sefydliadau fel UK Sport, Codi Pwysau Cymru ac yr RFU. Mae rhai ohonynt wedi mynd ymlaen i weithio iddynt ar ôl gorffen yn y brifysgol, felly mae yna gyfleoedd ffantastig yn y maes chwaraeon yn lleol trwy'r brifysgol.

Difyr iawn Ben, diolch i ti am rannu dy brofiadau.

Mared Rhys

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >